


# Treftadaeth Fyw yng Nghymru Wledig

Elen Bonner (Prifysgol Bangor), Eifiona Thomas Lane (Prifysgol Bangor), Seán Martin (Prifysgol Bangor), Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth)

Mehefin 2026

CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol ..... 3

2 Cefndir ..... 7

2.1 Cyflwyniad ..... 7

2.2 Cyd-destun Polisi ..... 7

2.3 Adolygiad o'r Llenyddiaeth ..... 8

3 Dulliau ..... 14

3.1 Fframwaith Damcaniaethol a Dyluniad yr Ymchwil ..... 14

3.2 Dadansoddi Polisi ..... 14

3.3 Yr Astudiaethau Achos ..... 14

3.4 Ymchwil Archifol - Y Papurau Bro ..... 18

3.5 Casglu Data - Dadansoddi Dogfennau ..... 18

3.6 Casglu Data - Cyfweliadau ..... 19

3.7 Dull dadansoddi ..... 19

3.8 Cyfyngiadau ..... 20

4 Canlyniadau a Thrafodaeth ..... 21

4.1 Prosesau sy'n Cynhyrchu ac yn Atgynhyrchu TDdA ..... 21

4.2 Ffactorau sy'n Galluogi ac yn Rhwystro Prosesau Cynhyrchu ac Atgynhyrchu TDdA ..... 32

5 Casgliadau ac Argymhellion ..... 40

5.1 Casgliadau ..... 40

5.2 Argymhellion ..... 40

6 Cyfeiriadau ..... 43

6.1 Llyfrau Academaidd a Phapurau ..... 43

6.2 Adroddiadau Ymchwil ac Adroddiadau Ystadegol ..... 45

6.3 Papurau Polisi a Dogfennau Eraill ..... 45

6.4 Adroddiadau Newyddion, Blogiau ac Erthyglau ..... 46

7 Atodiadau ..... 48

**Cydnabyddiaeth**

Hoffai'r awduron ddiolch yn gynnes i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, ac am eu hymroddiad parhaus i gynnal treftadaeth fyw cymunedau gwledig Cymru.

# 1 Crynodeb Gweithredol

Ceir mwyfwy o gydnabyddiaeth i werth Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (TDdA), neu dreftadaeth fyw, a hyn wedi'i ddangos yn ymrwymiad diweddar Llywodraeth y DU i Gonfensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol 2003 (UNESCO, 2024). Fodd bynnag, er bod symud amlwg mewn polisi tuag at adnabod enghreifftiau o TDdA, nid yw'n gwbl glir yn dal sut y dylid cefnogi a chynnal TDdA yn ymarferol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yng nghyd-destun Cymru, lle mae llesiant diwylliannol wedi ei ymgorffori'n statudol (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2025, t.65), mae tystiolaeth bod bwlch rhwng uchelgais polisi ar lefel uchel a'r canlyniadau ar lawr gwlad a gallai hyn arwain at beryglu amrywiaeth TDdA a'i pharhad i'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy archwilio'r prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA yng Nghymru wledig, gan bwyso a mesur sut i'w cefnogi'n well. Yn hytrach na chanolbwyntio ar enghreifftiau unigol o blith arferion treftadaeth fyw, mae'r astudiaeth yn mynd ati i roi pwyslais ar TDdA fel proses gymdeithasol ddeinamig sy'n cael ei chynnal drwy gyfranogiad cymunedau. Yn y cyswllt hwn, mae'r adroddiad yn craffu ar yr hyn sy'n galluogi ac yn rhwystro'r prosesau sy'n sail i fywiogrwydd TDdA, prosesau sy'n gadarn eu gwreiddiau mewn profiadau gwledig.

Defnyddia'r astudiaeth ddull ansoddol sy'n cyfuno dadansoddi papurau bro â chyfweliadau lled-strwythuredig mewn dwy ardal astudiaeth, sef Bro Dysynni (Gwynedd) a Dyffrynnoedd Banw a Thanat (Powys). Mae'r dull hwn yn galluogi adnabod TDdA o safbwynt profiadau byw cymunedau, gan herio'r hyn a ddisgrifir fel Disgwrs Treftadaeth Awdurdodedig (Smith, 2006) sy'n tueddu i flaenoriaethu ffurfiau treftadaeth sy'n fwy ffurfiol, sefydliadol neu ddinesig. Trwy'r broses hon, mae'r astudiaeth yn meithrin dealltwriaeth o gyd-destunau'r modd y mae TDdA yn cael ei byw, ei throsglwyddo a'i haddasu mewn cyd-destunau gwledig cyfoes, sy'n aml yn llai gweladwy.

Dyma ganlyniadau allweddol yr astudiaeth:

1. Mae'r prosesau sy'n cefnogi TDdA yn ffurfio ecosystem integredig sy'n gweithredu ar draws lefelau micro (unigol neu lleol iawn), meso (sefydliadol neu ranbarthol) a macro (strwythurol neu genedlaethol) (Serpa a Ferreira, 2019). Mae'r system hon yn fregus mewn sawl man allweddol, gan gynnwys y seilwaith gwirfoddoli, gwytnwch deiliaid ac ymarferwyr TDdA ac isadeiledd cymunedol, ac oherwydd ei natur o gyd-ddibyniaeth, gall dirywiad mewn un elfen danseilio eraill.
2. Mae cydberthynas agos rhwng y Gymraeg a TDdA yn y cyd-destun hwn, sef bod hyfywedd rhai mathau o TDdA yn dibynnu ar amodau sy'n cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol, ac i'r gwrthwyneb. Dengys y data fod iaith yn gweithredu nid yn unig fel cyfrwng ond ei bod hefyd yn gyrru arferion TDdA. Awgryma'r data bod mynediad llawn at TDdA yn dibynnu ar gyfleoedd i drigolion ddysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r berthynas hon yn gyson ym mhob ardal, ac felly mae angen ymchwil pellach.
3. Mae cymunedau'n ystyried bod addasu ac esblygu yn hollbwysig er mwyn sicrhau parhad arferion TDdA yn sgil heriau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn yn cael eu deall fel *fait accompli*, ond yn hytrach eu bod yn brosesau cymdeithasol lle mae cymunedau'n trafod, yn dadlau ac yn cyrraedd consensws ynghylch pa addasiadau sy'n cael eu hystyried yn ddilys neu'n briodol.

4. Er mwyn sicrhau parhad, cydnabyddir ei bod yn hanfodol a phwysig ehangu mynediad at TDdA, yn enwedig o blith pobl ifanc, ac mae rôl sefydliadau yn arbennig o allweddol wrth greu prosesau trosglwyddo amgen a chynhwysol. Fodd bynnag, mae heriau wrth ymdrechu i ddiogelu amrywiaeth ddiwylliannol lle parchir yr wybodaeth gyd-destunol a'r ymrwymiad sy'n rhan annatod o arferion traddodiadol, a dadleir mewn rhai achosion bod "gofodau anadlu" (Fishman, 1991) diwylliannol ac ieithyddol yn briodol, sef mannau lle gall arferion diwylliannol ac ieithyddol barhau heb bwysau allanol. Mae cymunedau a sefydliadau fel ei gilydd yn ymdrechu i gyd-bwyso'r ystyriaethau hyn.
5. Mae hyfywedd TDdA yn gysylltiedig â ffactorau economaidd-gymdeithasol megis argaeledd tai, cyfleoedd gwaith, a chynaliadwyedd cymunedau. Os na cheir cyd-destun ffafriol ar gyfer TDdA, mae perygl y dibynnir ormod ar strwythurau sefydliadol i gynnal TDdA gan ei datgysylltu o'i gwreiddiau a thanseilio ei gwytnwch cymunedol. Ar yr un pryd, mae TDdA ei hun yn cyfrannu at greu cymunedau bywiog lle mae pobl yn dymuno byw ynddynt, a hyn yn dangos y gyd-ddibyniaeth rhwng diwylliant a ffactorau strwythurol ehangach lle gall TDdA hybu cyfranogiad a bod yn rhan o feithrin cysylltiadau cymdeithasol newydd.

Dengys y canlyniadau hyn fod Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yng Nghymru wledig yn cael ei chynhyrchu a'i hatgynhyrchu drwy ecosystem gymhleth o brosesau sy'n cyd-ddibynnu ar ei gilydd ac sy'n gweithredu ar draws lefelau micro, meso a macro. Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at natur gymhleth y prosesau sy'n siapio TDdA, gan gynnwys dylanwad y Gymraeg, yr angen i addasu ac esblygu, ystyriaethau cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol, a ffactorau strwythurol. Dengys y dystiolaeth fod cymunedau wrthi'n barhaus yn negodi'r tensiynau hyn, ac mai drwy'r prosesau deinamig hyn y mae TDdA yn parhau'n dreftadaeth 'fyw' a pherthnasol gyfoes.

Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, mae'r argymhellion a gyflwynir isod yn galw am symud tuag at feddylfryd system-gyfan sy'n cydnabod TDdA fel proses fyw, gyd-destunol a chyd-ddibynnol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio diffiniad cynhwysol ac eang o TDdA, integreiddio TDdA mewn meysydd polisi eraill megis amaethyddiaeth ac addysg, cefnogi isadeiledd cymunedol a rolau gwirfoddol, a datblygu mecanweithiau sy'n galluogi cymunedau i gael cydbwysedd rhwng cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol fel sy'n briodol. Drwy wneud hynny, gall polisi gyfrannu nid yn unig at ddiogelu TDdA, ond hefyd at gryfhau hyfywedd cymunedau gwledig yn ehangach, gan gydnabod bod y ddwy elfen hyn yn cyd-ddibynnu ar ei gilydd a'u bod yn allweddol i gyflawni amcanion llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Cyflwynir 15 argymhelliad isod, a'r rhain wedi'u targedu at bolisïau ar lefelau macro, meso a micro:

*Macro (cenedlaethol)*

1. Mae cefnogi hyfywedd hirdymor TDdA a llesiant diwylliannol gwledig yn dibynnu ar bolisïau sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo treftadaeth fyw wledig mewn modd sy'n deg ac yn gyfartal, gan gydnabod yr heriau strwythurol sy'n bodoli. O ganlyniad, argymhellir mabwysiadu diffiniadau eang o ddiwylliant, treftadaeth a llesiant diwylliannol ar draws meysydd polisi gan adlewyrchu egwyddorion UNESCO yn hyn o beth. Argymhellir hefyd y dylid cynyddu pa mor weladwy yw TDdA drwy ei chynnwys mewn rhestrau perthnasol, ond y dylid cadw mewn cof gapasiti cyfyngedig gwirfoddolwyr i wneud gwaith o'r fath.

2. Er mwyn cefnogi cynaladwyedd y tirlun diwylliannol, mae angen cydnabod rôl y fferm deuluol fel safle allweddol ar gyfer cadw, trosglwyddo a chynnal gwybodaeth, sgiliau ac isadeiledd cymunedol sy'n sail i TDdA. O ganlyniad, argymhellir y dylid rhoi blaenoriaeth glir i integreiddio amcanion sydd â'r nod o hyrwyddo TDdA yn fwy ffurfiol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
3. Er mwyn ehangu mynediad at TDdA a chryfhau cyfranogiad diwylliannol gwledig mae angen cryfhau mynediad at addysg Gymraeg a chyfleoedd caffael iaith i fod yn llwybr allweddol at TDdA. Dylid gwneud hyn mewn modd sy'n cydnabod y berthynas annatod rhwng y Gymraeg a TDdA mewn rhai cyd-destunau, ond hefyd cydnabod nad yw'r berthynas hon yn unffurf ar draws y Gymru wledig. Mae hefyd angen sicrhau bod cyfleoedd i ymgysylltu â TDdA leol yn parhau ar hyd y continwwm dysgu, gan sicrhau bod gan athrawon y gefnogaeth a'r adnoddau i fedru cynnig mynediad i blant at eu treftadaeth fyw. Gallai mentora a rhannu arferion da gefnogi athrawon llai hyderus yn y maes.
4. Allweddol i gynaladwyedd arferion yw mynd i'r afael â natur ansicr trosglwyddo TDdA i'r genhedlaeth iau mewn cymunedau gwledig. O ganlyniad, argymhellir treialu modelau incwm sylfaenol neu fecanweithiau ariannol tebyg ar gyfer deiliaid TDdA, gan adeiladu ar brofiadau rhyngwladol megis y cynllun Basic Income for the Arts (BIA) yn Iwerddon (gov.ie, 2026). Gallai model tebyg yng Nghymru gydnabod llafur TDdA fel rhywbeth cymunedol sydd angen ymroddiad sylweddol, a chyfrannu tuag at gryfhau'r isadeiledd sylfaenol i TDdA yng Nghymru wledig, wrth gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ddeiliaid ac ymarferwyr TDdA.
5. Er mwyn cynnal amrywiaeth ddiwylliannol hyfyw, mae angen i wneuthurwyr polisi gyd-bwyso hyn yn ofalus ag amcanion cynhwysiant, gan gydnabod bod weithiau angen 'gofodau anadlu' diwylliannol ac ieithyddol ochr yn ochr â gweithgareddau sy'n ehangu mynediad at TDdA. Dylid sicrhau mecanweithiau sy'n cefnogi cymunedau ar lawr gwlad i fedru mynd i'r afael yn hyderus â'r heriau hyn, megis drwy ddarparu arweiniad cadarn ac adnoddau i dreialu ymyraethau newydd.

*Meso (rhanbarthol):*

6. Mae sicrhau hyfywedd arferion TDdA yn dibynnu ar wytnwch y prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA yn hytrach nag ar ddiogelu ffurfiau TDdA statig. O ganlyniad, mae angen datblygu mesuryddion polisi newydd, gan gynnwys fframweithiau cyllido a systemau monitro addas sy'n adlewyrchu'r prosesau deinamig hyn, megis gwirfoddoli cymunedol.
7. Er mwyn creu llwybrau mynediad newydd a chynhwysol, yn enwedig i'r rheini nad oes ganddynt gyfalaf diwylliannol teuluol ac ar gyfer pobl ifanc, mae angen sefydlu cynlluniau newydd, neu ailsefydlu a sefydlogi rhaglenni pwrpasol sydd wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol ac sy'n cefnogi prosesau sylfaenol TDdA megis dysgu drwy brofiad, ymgysylltu â deiliaid ac ymarferwyr TDdA, a meithrin ymdeimlad o le. Yn y modd hwn gellid sicrhau mynediad at TDdA i bawb, gan greu cymunedau mwy gwydn a safon byw well.
8. Er mwyn hybu gwytnwch cymunedol, mae angen sicrhau mecanweithiau cyllido sy'n hyblyg ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cymunedau. Argymhellir cefnogi buddsoddiad isel ei faich ar gyfer gweithgareddau TDdA ar lawr gwlad, sef buddsoddiadau o faint cymharol fach sydd â gofynion gweinyddol isel. Drwy hynny, gellid cefnogi isadeiledd diwylliannol cymunedau heb danseilio eu gwytnwch.

9. Mae meithrin arweinwyr cymunedol gwirfoddol newydd yn hanfodol i gynaladwyedd TDdA gwledig. Gall sefydliadau cyhoeddus gefnogi'r prosesau hyn mewn modd ystyrlon drwy ddatblygu a buddsoddi mewn cynlluniau newydd, sydd â ffocws ar bobl ifanc yn enwedig, er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli cymunedol anffurfiol y tu hwnt i strwythurau sefydliadol. Wrth wneud hyn, gellid meithrin ymddiriedaeth drwy gefnogi blaenoriaethau lleol.
10. Er mwyn cynnal yr isadeiledd cymdeithasol sy'n hanfodol i hyfywedd treftadaeth fyw wledig, mae angen targedu cefnogaeth at gynnal ac adfywio asedau cymunedol gan fod y rhain yn allweddol wrth sicrhau digwyddiadau diwylliannol, cyfranogiad cymdeithasol a throsglwyddo TDdA. Pan fo asedau wedi eu trosglwyddo i eiddo'r gymuned, dylid sicrhau polisïau sy'n cefnogi eu rheolaeth gan gymunedau.

*Micro (cymunedol):*

11. Er mwyn cynnal amrywiaeth ddiwylliannol ac ehangu mynediad ar yr un pryd, mae angen pwyso a mesur yn ofalus y buddion a'r risgiau cysylltiedig i lesiant diwylliannol a chydlyniant cymunedau. Anogir treialu ymyraethau newydd sy'n cefnogi'r ddau amcan yn barhaus.
12. Mae cymunedau gwledig yn arbennig yn wynebu rhwystrau mynediad. Argymhellir cryfhau cyfranogiad cymunedol mewn gweithgareddau TDdA drwy fanteisio ymhellach ar gynlluniau presennol megis Noson Allan (Cyngor Celfyddydau Cymru, d.d.) mewn modd cynhwysol.
13. Er mwyn cryfhau capasiti a gwytnwch isadeiledd diwylliannol cymunedau gwledig, gellid annog a hybu cydweithio â grwpiau, sefydliadau neu sectorau eraill yn lleol, ond hefyd ar draws cymunedau ac yn rhyngwladol, gan hwyluso rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arferion da.
14. Mae sicrhau cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn hanfodol ar gyfer cynhyrchu ac atgynhyrchu arferion TDdA. O ganlyniad, mae'n bwysig mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ffyrdd o ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn TDdA. Gellid gwneud hyn drwy gydweithredu â sefydliadau eraill megis Mudiad y Ffermwyr Ifanc, Aelwydydd yr Urdd, neu ysgolion lleol.
15. Er mwyn codi statws TDdA wledig a pha mor weladwy yw hi, dylai cymunedau, drwy gynghorau cymunedol efallai, fynd ati i gynnal arolwg o'r TDdA sydd yn eu hardal leol. Gellid defnyddio canlyniadau'r arolwg hwnnw wedyn yn sail ar gyfer cynllunio'n gymunedol sut i gefnogi trosglwyddo, addasu a pharhad eu TDdA dros amser.

# 2 Cefndir

## 2.1 Cyflwyniad

Mae ymrwymiad diweddar Llywodraeth y DU i Gonfensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol 2003 yn arwydd fod mwy o gydnabyddiaeth i werth y math hwn o dreftadaeth, sydd hefyd yn cael ei alw'n dreftadaeth fyw (UNESCO, 2024). Am gyfnod hir, fodd bynnag, tueddiad polisi ym meysydd treftadaeth a diwylliant oedd blaenoriaethu asedau ffisegol, o safleoedd hanesyddol yng nghyd-destun treftadaeth, i sectorau a chanolfannau yng nghyd-destun diwylliant (Vecco, 2010; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac The Audience Agency, 2026). Newid pwysig ym meddylfryd llunio polisi yw'r symud cynyddol tuag at adnabod arferion treftadaeth fyw, ond mae hefyd yn codi cwestiynau ynghylch sut y caiff Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (TDdA) ei chefnogi a'i chynnal yn ymarferol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r astudiaeth hon yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn drwy graffu ar y prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA yng nghyd-destun Cymru wledig, a hynny ar adeg arwyddocaol yn natblygiad polisi diwylliannol a gwledig. Oni bai fod dealltwriaeth dda o gyd-destun a safbwynt profiadau a realiti cymunedau gwledig, mae risg y caiff polisïau a strategaethau eu llunio ar sail modelau trefol neu sefydliadol nad ydynt yn adlewyrchu natur TDdA ar lawr gwlad. O ganlyniad, mae angen dybryd am sail dystiolaeth gadarn er mwyn llywio datblygiad polisi a chynllunio diwylliannol mewn ffordd sy'n briodol i amgylchiadau Cymru wledig. Dyma ffocws yr adroddiad hwn.

## 2.2 Cyd-destun Polisi

Cymru yw'r unig wlad yn y byd i gynnwys llesiant diwylliannol yn ei diffiniad statudol ar gyfer datblygu cynaliadwy (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2025, t.65). Er gwaethaf hyn, ystyrir bod diwylliant yng Nghymru "mewn argyfwng" (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2025, t.4). Wrth i gostau gynyddu mewn meysydd megis gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, mae buddsoddi mewn diwylliant wedi gostwng, gan y caiff ei weld yn aml yn rhywbeth "braf i'w gael" yn hytrach nag yn elfen hanfodol llesiant (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2025, t.4). Yn sgil hyn, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi galw am Ddeddf Diwylliant i Gymru, a chyhoeddwyd papur gwyrdd yn 2026 sy'n trafod sut y gellid "diogelu, hyrwyddo a blaenoriaethu diwylliant gan gyrff cyhoeddus" (2026, t.3). Fodd bynnag, er bod y ddogfen yn cydnabod yr heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, erys yr angen i gael arweiniad clir ynghylch sut i gynnal a datblygu TDdA yng nghefn gwlad.

Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Llywodraeth y DU i adnabod enghreifftiau o TDdA i'w cynnwys ar restr genedlaethol. Ar ôl oedi am dros ddau ddegawd, yn 2024 cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn 2003 UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, gan ddarparu'r fframwaith ffurfiol cyntaf ar gyfer canfod a chofnodi TDdA ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r broses drwy gydlynu'r gwaith yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei 'Blaenoriaethau ar gyfer

Diwylliant' yn ddiweddar, gan ymrwymo i gefnogi TDdA "i ffynnu" (2025, t.17). Fodd bynnag, er bod cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru yn glir o ran uchelgais, gyda rhywfaint o fuddsoddi wedi dechrau ymddangos yn ddiweddar, nid yw hyn eto'n cael ei ategu'n llawn gan gynllun gweithredu penodol sydd ag adnoddau dynodedig, gan felly gyfyngu ar ei botensial i ysgogi newid ymarferol (Senedd Cymru, 2026). O ganlyniad, ceir bwlch amlwg rhwng blaenoriaeth polisi ar lefel uchel a'r mecanweithiau ymarferol sydd ar gael i'w gweithredu. Gellid dadlau bod y bwlch hwn yn arbennig o ddyrys mewn ardaloedd gwledig lle mae capasiti sefydliadol yn wannach ac felly bod y gallu i drosi cynlluniau cenedlaethol yn ddarpariaeth leol yn fwy cyfyngedig.

Ar lefel sefydliadol ehangach, ceir beirniadaeth glir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o fethiant sefydliadau cyhoeddus i ddiffinio a gweithredu nodau llesiant diwylliannol y tu hwnt i ofynion statudol sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg (2025, t.121). Yn hyn o beth, mae llai o sylw strategol yn cael ei roi i lesiant diwylliannol mewn Cynlluniau Llesiant Lleol o'i gymharu â nodau llesiant eraill (2025, tt.70–71). Unwaith eto, gellid dadlau bod hyn yn arwain at ddiffyg gweithredu clir, sy'n golygu bod TDdA, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael ei gadael y tu allan i fframweithiau cynllunio a buddsoddi cyhoeddus, ac o ganlyniad mae hynny'n cynyddu'r risg o golledion i TDdA.

Mae polisi ar dirweddau gwarchodedig, megis Parciau Cenedlaethol a safleoedd treftadaeth byd UNESCO, hefyd yn llunwyr polisi arwyddocaol yn y cyd-destun hwn gan eu bod yn ardaloedd llywodraethu statudol sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol penodol am gymunedau gwledig. Erbyn hyn, mae'r tirweddau hyn yn cael eu dirnad i fod yn systemau bio-ddiwylliannol lle mae arferion, gwybodaeth a hunaniaethau cymunedol yn rhan annatod o'r dirwedd (UNESCO, 2003; Buckley et al., 2024). Mae hyn yn adlewyrchu nid yn unig y berthynas rhwng Confensiwn Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972) a Chonfensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (2003) (Albert, 2024), ond hefyd egwyddorion Confensiwn Tirwedd Ewrop (Cyngor Ewrop, 2000), sy'n pwysleisio tirwedd fel canlyniad rhyngweithio rhwng pobl a lle. Yng ngoleuni trafodaethau yng Nghymru ynghylch ehangu'r tirweddau hynny sy'n warchodedig (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2024), daw hi'n fwyfwy amlwg fod angen ystyried y cyfleoedd sydd ar gael i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y cyd-destun strwythurol y mae'r systemau a'r prosesau lleol sy'n cynhyrchu a throsglwyddo TDdA yn dibynnu arnynt.

Ar y cyfan, gellid dadlau bod cydnabyddiaeth o bwysigrwydd treftadaeth fyw a chryn ewyllys dda tuag at ddiwylliant a TDdA ym mholisi cenedlaethol Cymru; fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yna fwlch rhwng uchelgais a gweithredu ar lawr gwlad. Er mwyn deall y bwlch hwn ymhellach, mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth isod yn symud y ffocws o bolisi lefel uchel i'r modd y mae TDdA yn cael ei chreu, ei throsglwyddo a'i chynnal mewn cymunedau, gan ddangos y bylchau yn ein dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd TDdA yn ymarferol yng Nghymru wledig.

## 2.3 Adolygiad o'r Llenyddiaeth

*Diffinio TDdA*

Diffinnir Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (TDdA) gan UNESCO (2003) fel a ganlyn:

*"the practices, representations, expressions, knowledge, skills – as well as the instruments, objects, artefacts and cultural spaces associated therewith – that communities, groups and, in some cases, individuals recognize as part of their cultural heritage."*

Mae'r diffiniad yn nodi ymhellach fod TDdA yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, ac yn cael ei hail-greu'n barhaus gan gymunedau mewn ymateb i'w hamgylchiadau, gan roi ymdeimlad o hunaniaeth a pharhad (UNESCO, 2003). Yn y modd hwn, dadleua UNESCO (2003) bod TDdA yn ennyn parch at amrywiaeth ddiwylliannol ac at greadigrwydd dynol. Ymhellach, yn ôl yr un diffiniad mae ffurfiau TDdA yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, draddodiadau a mynegiadau llafar gan gynnwys iaith fel cyfrwng i dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol, y celfyddydau perfformio, arferion cymdeithasol, defodau a gwyliau, gwybodaeth ac arferion ynghylch natur a'r bydysawd, a chrefftwaith traddodiadol (UNESCO, 2003).

Dadleua rhai fod y diffiniad eang a chynhwysol hwn wedi esgor ar newid yn y ffordd y deellir treftadaeth ddiwylliannol, gan symud oddi wrth werthoedd Gorllewinol â'u gwreiddiau mewn amgueddfeydd tuag at ymdriniaeth fwy anthropolegol a mwy byd-eang (Bortoletto, 2007). Yn hyn o beth, gellid dadlau bod y symud hwn yn cynnig fframwaith mwy cydnaws ar gyfer deall arferion diwylliannol gwledig, gan fod y pwyslais yn symud at arferion byw a chyd-destunau lleol sy'n gweithredu'n aml tu allan i strwythurau sefydliadol. O ganlyniad, defnyddir y diffiniad hwn wrth ystyried treftadaeth fyw yn yr astudiaeth hon.

*Prosesau cynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA*

Ceir consensws yn y llenyddiaeth bod TDdA yn broses ddeinamig sy'n esblygu (Bortolotto, 2007). Yn greiddiol i barhad TDdA yw'r modd y mae gwybodaeth a gwerthoedd symbolaidd yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Fodd bynnag, wrth i wybodaeth a rennir gyfuno â phrofiad personol, yn ogystal â rhyngweithio'n gyson ag amodau ar draws amser a gofod, cydnabyddir nad yw'r wybodaeth a gwerthoedd hyn yn statig, ond yn hytrach mewn cyflwr o newid parhaus (De Figueiredo, 2015; Skrzypaszek, 2012). Dadleua Bortolotto (2007) bod natur ddeinamig TDdA yn peri heriau i'r sawl sy'n ceisio ei gwarchod, gan y gall yr union weithred o ddiogelu arferiad fygwth y natur byw sy'n greiddiol iddi. O ganlyniad, dadleua nad diogelu ffurf mynegiant statig y TDdA sy'n flaenoriaeth, ond yn hytrach diogelu'r prosesau sy'n ddulliau cynhyrchu ac atgynhyrchu hunaniaeth a diwylliant byw (Bortolotto, 2007).

Yng nghyd-destun Cymru wledig fodd bynnag, prin yw ein dealltwriaeth o'r prosesau hyn. Gall y broses o greu rhestr o dreftadaeth fyw genedlaethol (UNESCO, d.d.) gyfrannu at adnabod arferion treftadaeth fyw. Serch hynny, os ydym am osgoi rhewi arferion a'u troi yn greiriau anacronistig, rhaid sicrhau dealltwriaeth lawnach o'r prosesau sy'n eu cynnal, a'r modd y mae'r prosesau hyn yn rhyngweithio â strwythurau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r astudiaeth hon yn ymateb i'r bwlch ymchwil hwn drwy adnabod y prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA yng nghefn gwlad Cymru a chraffu ar yr hyn sy'n galluogi ac yn rhwystro'r prosesau hyn.

*TDdA mewn cyd-destun gwledig*

Er gwaethaf diffiniad eang o TDdA sy'n cyfleu ffordd o fyw, mae gwarchod ac atgyfnerthu arferion TDdA mewn ardaloedd gwledig yn heriol. Yn seiliedig ar adolygiad o ymchwil rhyngwladol, mae

Richards (2026) yn dadlau bod mecanweithiau cadwraeth o'r brig i lawr, sy'n aml yn seiliedig ar fuddsoddiad economaidd, yn addas ar gyfer cynnal asedau ffisegol. Ar y llaw arall fodd bynnag, dadleua Richards (2026) hefyd bod cynaliadwyedd TDdA yn dibynnu'n bennaf ar ymdrechion cymunedol ar lawr gwlad. O ganlyniad, mae'r heriau a wyneba cymunedau gwledig megis llywodraethiant gwan, dwysedd poblogaeth is, ac allfudo pobl ifanc (Richards, 2026), ynghyd â diffyg adnoddau ac isadeiledd gwan, yn golygu bod yna bwysau sylweddol ar y cymunedau sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal arferion TDdA yng nghefn gwlad.

Serch hyn, yn hytrach na chanolbwyntio ar gapasiti cymunedau i gynnal arferion TDdA, ceir tuedd mewn llenyddiaeth ryngwladol i ganolbwyntio ar rôl neu ddefnydd TDdA mewn datblygu gwledig, ymdrechion adfywio neu dwristiaeth (Shakya a Vagnarelli, 2024; Liu a Qi, 2024; Cerquetti et al., 2022), lle gall cyfranogiad cymunedol mewn datblygiadau fod yn wan (Goussous, 2022). Yn ôl Richards (2026), mae hyn yn golygu bod dealltwriaeth gyfyngedig o sut caiff arferion treftadaeth fyw eu cynhyrchu a'u hatgynhyrchu mewn cyd-destunau cyfoes, ac o ganlyniad gall polisïau ac ymyriadau fethu â thargedu'r ffactorau sy'n cefnogi neu'n tanseilio hyfywedd yr arferion hyn yn ymarferol. Atega De Figueiredo (2015), wrth drafod Brasil, bod yna werth cynhenid i TDdA tu hwnt i'w gwerth masnachol ac felly y dylid ystyried, fel man cychwyn, sut i warchod y cymunedau sy'n eu cynnal cyn troi at ddefnyddio TDdA mewn perthynas ag amcanion ehangach. Yn sgil hyn, mae'r astudiaeth hon yn arddel y safbwynt bod gan TDdA werth cynhenid, gan ymrwymo i ddulliau sy'n canolbwyntio ar y prosesau sy'n ei chynnal, ac ar ddadansoddiad sydd wedi'i seilio'n gadarn yng ngwerthoedd y gymuned ei hun.

Gellid dadlau mai un o brif werthoedd TDdA yw ei chyfraniad tuag at hunaniaeth ddiwylliannol (Lenzerini, 2012; UNESCO, 2003). Trwy drosglwyddo TDdA o genhedlaeth i genhedlaeth, caiff unigolion a chymunedau ymdeimlad o barhad wrth gryfhau cysylltiadau rhwng y gorffennol a'r presennol. Ymhellach, dadleua eraill, megis Bakar et al. (2011), bod hunaniaeth ddiwylliannol gref yn rhagofyniad allweddol ar gyfer atgynhyrchu TDdA wrth sicrhau parhad eu gwerth a'u hystyr mewn cymunedau cyfoes. Awgryma hyn fod yna gyd-ddibyniaeth agos rhwng TDdA a hunaniaeth ddiwylliannol, sef bod angen hunaniaeth ddiwylliannol gadarn i atgynhyrchu TDdA, ac ar yr un pryd bod angen ymgysylltiad â TDdA er mwyn cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol. Serch hyn, mae prosesau globaleiddio a phatrymau mudo yn peryglu amrywiaeth ddiwylliannol (Lenzerini, 2011) a'r hunaniaethau diwylliannol sy'n sail iddo, gan esgor ar broses a elwir yn "pellhau diwylliannol" – lle mae bwlch yn cael ei greu rhwng bywyd cyfoes a threftadaeth (Skrzypaszek, 2012, t. 1494).

Gellid dadlau bod y broses hon o "bellhau diwylliannol" ar waith yng Nghymru wledig ac mae Richards (2026), yn y llenyddiaeth ryngwladol, yn nodi her benodol o gynnal perthnasedd TDdA i'r to iau yn sgil y broses hon. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth Howell (2013) yn y cyd-destun Cymreig bod y niferoedd sy'n cystadlu mewn cystadlaethau eisteddfodol yn gostwng wrth i blant fynd yn hŷn. Ymddengys felly bod ennyn diddordeb pobl ifanc mewn TDdA yn gallu bod yn her.

Yn ogystal, mae tuedd i bobl ifanc allfudo o gefn gwlad Cymru (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2025) a hyn eto, gellid dadlau, yn gwanhau prosesau trosglwyddo rhwng cenedlaethau. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth yn y llenyddiaeth ryngwladol bod ymgysylltu â TDdA yn cyfrannu at gryfhau ymlyniad pobl ifanc at le (Carrasco Cruz et al. 2025; Chan et al. 2024), sydd yn ei dro yn creu'r amodau ar gyfer trosglwyddo TDdA (Cai et al. 2025; Mengyao Lu et al. 2025). Unwaith eto,

mae hyn yn awgrymu cydberthynas agos arall, wrth i TDdA gefnogi hyfywedd cymunedau gwledig, ac yna cymunedau hyfyw yn cefnogi trosglwyddo TDdA. Ymhellach, dengys ymchwil gan Xue (2026), yng nghyd-destun Tsieina, bod dysgu TDdA drwy'r cwricwlwm yn cyfrannu at hunaniaeth a chydlyniant cymunedol, ac yn hyn o beth yn cymell unigolion i aros neu ddychwelyd i ardaloedd gwledig. Awgryma hyn bod gan y system addysg, ochr yn ochr â phrosesau cymunedol, rôl ehangach i'w chwarae yn y broses o gynnal TDdA. Mae'r drafodaeth hon yn amlygu pa mor bwysig yw hi nid yn unig i archwilio'r prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA ar lawr gwlad yng Nghymru wledig, ond hefyd i graffu ar y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng y prosesau hyn a'u perthnasedd o safbwynt sicrhau cymunedau hyfyw a gwydn. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig wrth ddadansoddi'r data.

Mae ystyriaethau cynhwysiant hefyd yn berthnasol i'r drafodaeth hon. Er y disgrifir bywyd gwledig i fod yn un sy'n gyfoethog ac yn ystyrlon, dengys ymchwil fod profiad o'r buddion hyn yn anghyfartal, gan fod profiadau o allgáu a hiliaeth mewn rhai cyd-destunau gwledig (University of Leicestershire, d.d. t.3; Neal a Walters, 2008). Er na chaiff y profiadau eu gwadu, mae eraill yn dadlau ar y cyfan y ceir sefyllfa o "acceptance and accommodation" (Woods, 2022, t.316). Y naill ffordd neu'r llall, gellid dadlau, yn y cyd-destun hwn, bod y cysyniad o "berthyn" yn dod yn fwy cymhleth, gan nad yw'n berthynas niwtral nac yn brofiad sydd ar gael i bawb ar yr un sail (Hersland, 2020). Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynghylch hunaniaeth ddiwylliannol a pherchnogaeth gymunedol o TDdA, gan fod y prosesau sy'n sail iddi, megis trosglwyddo rhwng cenedlaethau a chyfranogiad cymunedol, yn gallu gweithredu fel mecanweithiau sy'n cyfyngu ar allu unigolion a grwpiau i gymryd rhan. Yn hyn o beth, os ydym yn derbyn bod sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol ill dau yn amcanion dymunol, yna mae angen trafod o ddifrif sut mae cymhathu'r ddau beth hyn mewn polisi ac yn ymarferol yn y prosesau sy'n cynnal TDdA ar lawr gwlad.

*TDdA mewn perthynas â Chymru a'r Gymraeg*

Yn y cyd-destun Cymreig, mae Howell (2013) yn nodi ystod o arferion megis y Mari Lwyd a'r Eisteddfod Genedlaethol fel enghreifftiau amlwg o TDdA. Er ei fod yn pwysleisio bod arferion cymdeithasol, traddodiadau llafar a pherfformiadau cystadleuol yn parhau i fod yn rhan fyw o ddiwylliant cyfoes Cymru, eto mae'n cydnabod ar yr un pryd eu bod mewn "cyflwr o ddirywiad neu newid" (t.113). Mae hyn yn cadarnhau ymhellach natur ddybryd yr astudiaeth hon.

Cyflwynir yr Eisteddfod Genedlaethol gan Howell (2013) yn adnodd allweddol yn hyfywedd TDdA drwy alluogi cynulleidfaoedd ledled Cymru i ymgysylltu â ffurfiau penodol o TDdA megis cerdd dant, clocsio, a pherfformiadau corawl, a hynny drwy'r Gymraeg. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'r awdur yn tynnu sylw at densiynau sy'n codi yn gysylltiedig â newidiadau i elfennau traddodiadol yr Eisteddfod Genedlaethol. Er ei fod yn pwysleisio nad rhewi ffurf hanesyddol arferiad yw'r modd priodol o'i warchod, codir pryder bod rhai newidiadau yn seiliedig ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Yn yr ystyr hwn, er bod esblygiad yn rhan naturiol o TDdA (Bortolotto, 2007), awgryma'r drafodaeth y gall rhai newidiadau gael eu cyflymu neu eu siapio gan bwysau sefydliadol ac economaidd, gyda'r posibilrwydd o danseilio rhai elfennau o TDdA yn sgil hynny. Dengys enghraifft yr Eisteddfod Genedlaethol felly sut mae sefydliadau yn medru galluogi ond hefyd ar yr un pryd yn gallu cyfyngu ar weithgareddau TDdA, ac yn hyn o beth mae angen craffu'n barhaus er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol. O ganlyniad, un o amcanion yr astudiaeth hon

yw cael mewnwelediadau i'r modd y gall sefydliadau gydbwyso'r tensiynau hyn yn y prosesau sy'n cynnal a throsglwyddo TDdA yn ymarferol ar lawr gwlad yng Nghymru wledig.

Mae gweithgareddau yr Eisteddfod Genedlaethol, fel y nodir gan Howell (2013) uchod, ynghyd ag arferion eraill y mae'n eu trafod – megis y Fari Lwyd – yn pwysleisio natur gymdeithasol diwylliant; safbwynt sy'n cyd-fynd â dadl Raymond Williams (1958) yn *Culture and Society* fod diwylliant yn weithred gyfranogol yn ei hanfod. Yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n cael ei greu ar gyfer cynulleidfaoedd goddefol, honnir ei fod yn weithred feunyddiol sy'n cael ei greu gan bobl gyda'i gilydd. Mae Young et al. (2017) yn ymestyn y drafodaeth hon ymhellach drwy ddangos sut mae cymunedau, yn yr achos hwn ym Mhen Llŷn, yn cyd-gynhyrchu'r amodau sy'n cefnogi TDdA trwy ddulliau cyfranogol, gan eu hintegreiddio â datblygiad economaidd, llesiant cymdeithasol a chynaliadwyedd diwylliannol ac ieithyddol. Awgrymant, fodd bynnag, fod prosiectau o'r fath yn dibynnu ar strwythurau ehangach sy'n gefnogol. Ymddengys, felly, fod TDdA yn y cyd-destun Cymreig yn gyfranogol yn ei hanfod, gan gyfrannu at lesiant a hyfywedd cymunedau. Am y rhesymau hyn, mae'r astudiaeth hon yn craffu'n benodol ar ffurfiau cyfranogol o TDdA yn y cyd-destunau hyn.

Cyn dod â'r adran hon i derfyn, mae'n briodol yn y cyd-destun Cymreig ein bod yn cydnabod arwyddocâd yr iaith Gymraeg mewn perthynas â TDdA. Er bod Confensiwn UNESCO (2003) yn ystyried iaith fel *cyfrwng (vehicle)* ar gyfer trosglwyddo arferion, mae rhai yn dadlau'n gynyddol y dylid ei hystyried yn ffurf o TDdA ynddi ei hun, sy'n *gyrru'r* modd y mae arferion yn cael eu deall a'u harfer (Nic Craith a McDermott, 2025; Lonardi a Unterpertinger, 2022). Fodd bynnag, mae rhywfaint o amheuaeth am hyn yn UNESCO, o bosibl oherwydd sensitifrwydd ieithoedd lleiafrifiedig (Ubertazzi, 2020). Yn y cyd-destun Cymreig, mae cydberthynas agos rhwng TDdA a'r Gymraeg (Howell, 2013; St Leger, 2025). Fodd bynnag, dadleua papur gwyrdd 'Diwylliant er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' nad yw'r "cyfuniad o fewn canlyniadau'r DLlCD (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) o'r iaith Gymraeg â diwylliant – a'r fframio y mae hyn yn ei gario gydag ef – bob amser yn ddefnyddiol i amrywiaeth ddiwylliannol" (t.11). Awgryma hyn fod angen dealltwriaeth fanylach o'r berthynas hon, yn enwedig o ran sut y caiff ei chefnogi drwy bolisi a'i gwireddu'n ymarferol ar lawr gwlad.

*Crynhoi*

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth yn amlygu tensiwn clir rhwng uchelgais polisi ar lefel uchel a'r realiti ar lawr gwlad yng Nghymru wledig. Er gwaetha'r gydnabyddiaeth mewn polisi yng Nghymru bod TDdA yn elfen allweddol o lesiant diwylliannol, ceir rhwystredigaeth ynghylch y modd y caiff ei chefnogi'n ymarferol ar lefel gymunedol. Yn yr astudiaeth hon, deellir TDdA fel gweithred gyfranogol sy'n cael ei chynnal yn bennaf gan gymunedau. Awgrymir bod cymunedau o'r fath yn negodi heriau strwythurol a thensiynau moesegol yn gyson er mwyn cynnal yr arferion hyn. Fodd bynnag, mae'r tensiwn a welir rhwng uchelgais polisi a realiti ymarferol yn tynnu sylw at fylchau sylweddol yn ein dealltwriaeth o'r prosesau sy'n sail i gynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA yng Nghymru wledig, ac felly yn cyfyngu ar y gallu i'w cefnogi'n ymarferol. Mae'r astudiaeth hon felly yn ymateb i'r bwlch hwn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

i) Pa brosesau sy'n sail i gynhyrchu ac atgynhyrchu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yng nghefn gwlad Cymru?

ii) Pa ffactorau sy'n galluogi ac yn cyfyngu ar y prosesau hyn?
iii) Pa gyfleoedd sydd i bolisi gefnogi'r realiti hwn yn ymarferol?

# 3 Dulliau

## 3.1 Fframwaith Damcaniaethol a Dyluniad yr Ymchwil

Mae'r adran hon yn dechrau drwy gydnabod nad yw'r weithred o adnabod a chefnogi TDdA yn broses niwtral. Yn hytrach, mae'n broses ddiwylliannol a gwleidyddol sy'n golygu dewis beth sy'n cael ei ystyried yn dreftadaeth. Mae cysyniad Smith (2006) o Ddisgwrs Treftadaeth Awdurdodedig yn egluro dylanwad disgwrs hegemonaidd sy'n ffafrio adeiladau mawreddog, arteffactau hynafol, a safbwyntiau arbenigwyr ar draul arferion byw sydd wedi'u gwreiddio ym mywyd pob dydd. O ganlyniad, cysylltir y ddisgwrs hegemonaidd hon gydag anghyfartaledd (Smith, 2006).

Mae hyn yn codi cwestiynau methodolegol ynghylch sut i adnabod arferion TDdA i'w hastudio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gwerthoedd cymunedau gwledig. Mae pwyslais Smith (2006) ar dreftadaeth fel proses ddiwylliannol yn cefnogi'r dull hwn, gan amlygu'r angen i symud oddi wrth ddiffiniadau hegemonaidd tuag at ddulliau sy'n canolbwyntio ar brofiad byw a chyfranogiad cymunedol. Yn hyn o beth, mae angen i'r cymunedau eu hunain adnabod ac arddel y TDdA (Vecco, 2010) gan adlewyrchu proses UNESCO o gydlynu rhestrau cenedlaethol o dreftadaeth fyw (UNESCO, d.d.).

Mae'r astudiaeth hon felly yn herio'r Ddisgwrs Treftadaeth Awdurdodedig drwy dynnu sylw at arferion TDdA ar lawr gwlad yng nghymunedau gwledig Cymru. Fodd bynnag, mae'r cymunedau hyn yn frith o arferion TDdA ac felly, hyd yn oed wedyn, rhaid cydnabod bod y broses o ddethol a chyfyngu yn peri risg o gael ei gweld yn weithred sydd â thuedd iddi. Ein bwriad felly, wrth fynd i'r afael â'r her hon, oedd cydnabod y duedd hon yn agored a chynnig tryloywder ynghylch prosesau cynnwys ac eithrio.


## 3.2 Dadansoddi Polisi

Cam cyntaf yr astudiaeth hon oedd cynnal dadansoddiad polisi ysgafn er mwyn mapio'r cyd-destun polisi presennol sy'n berthnasol i dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y dadansoddiad hwn ar ddogfennau polisi allweddol ar lefel genedlaethol a sefydliadol, gan nodi prif themâu, blaenoriaethau a bylchau amlwg rhwng uchelgais polisi a'r mecanweithiau ymarferol ar gyfer ei weithredu, yn enwedig mewn cyd-destunau gwledig. Roedd hyn yn sicrhau cefndir hyddysg i'r gwaith, gan ein galluogi i leoli'r ymchwil yng nghyd-destun polisi perthnasol a'r prif drafodaethau yn y maes.

## 3.3 Yr Astudiaethau Achos

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio dull astudiaeth achos, gan ffocysu ar ddwy ardal sydd wedi eu nodweddu gan hunaniaeth ddiwylliannol gryf ochr yn ochr â newidiadau economaidd-gymdeithasol arwyddocaol, a hynny'n galluogi ymchwiliad manwl o'r prosesau hyn yng nghyd-destun bywyd go iawn (Yin, 2014).

***Bro Dysynni***




Map o ardal yr astudiaeth achos: Bro Dysynni[*]

Mae Bro Dysynni yn ardal wledig yn ne Gwynedd; mae'n cynnwys cymunedau ar hyd dyffryn Dysynni a'r arfordir cyfagos. Mae trigolion y sir yn nodi balchder yng nghryfder a bywiogrwydd eu diwylliant, sydd i'w weld yn y nifer o gymdeithasau, eisteddfodau, clybiau ffermwyr ifanc, sioeau a chyngherddau lleol (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2022, t.16). Ym Mro Dysynni yn benodol, mae treftadaeth ac ysbryd cymunedol yn cael eu harddel fel nodweddion cadarnhaol; er hynny, dywed trigolion y fro fod yr ardal yn aml yn cael ei hanwybyddu neu ei hanghofio (Cyngor Gwynedd, 2025, t.5). Yn hyn o beth, mae'r ardal yn cynnig cyd-destun perthnasol ar gyfer archwilio TDdA, gan ei bod yn dangos sut mae arferion diwylliannol byw yn cael eu gwerthfawrogi'n lleol, ond nid o reidrwydd yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn blaenoriaethau polisi a llywodraethu, a hynny mewn ffordd sy'n adleisio beirniadaeth Smith (2006) o'r Ddisgwrs Treftadaeth Awdurdodedig.

Mae Bro Dysynni o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, sef tirwedd warchodedig statudol lle mae dyletswydd ar yr awdurdod i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal (Parc Cenedlaethol Eryri, d.d.). Yn ogystal, mae ardal Abergynolwyn a Thywyn yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru (www.llechi.cymru, d.d.) Yn hanesyddol, yn ogystal â'r diwydiant llechi, mae'r dirwedd wedi ei siapio gan weithgareddau economaidd megis amaethyddiaeth, gyda thwristiaeth a hamdden yn elfennau pwysig o'r economi leol (Gwyn a Davidson, 2009). Yn ieithyddol, er mai Gwynedd yw'r sir sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru


[*] Yn cynnwys data gan Waze© 2026. Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Cyfoeth Naturiol Cymru. Cedwir pob hawl.

(64.4%), Bro Dysynni yw'r ardal sydd â'r dwysedd iaith isaf yn y sir (40.1%) (Cyngor Gwynedd, 2023).



Golygfa o Fro Dysynni.
Hawlfraint y Goron.

### ***Dyffrynnoedd Banw a Thanat***




Map o ardal yr astudiaeth achos: Dyffrynnoedd Banw a Thanat†

† Yn cynnwys data gan Waze© 2026. Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Cyfoeth Naturiol Cymru. Cedwir pob hawl.

Mae Dyffrynnoedd Banw a Thanat wedi eu lleoli yng ngogledd-orllewin Powys, yn yr hen Sir Drefaldwyn. Fel Bro Dysynni, mae'r dyffrynnoedd hyn yn wledig ac arferion TDdA yn parhau'n rhan ganolog o fywyd cymunedol. Yn arbennig, mae'r ardal yn enwog am draddodiad y Plygain, sydd wedi bod yn elfen fyw barhaus o dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yr ardal ers canrifoedd (Owen, 1959; plygain.org). Er nad yw'r ardal ar hyn o bryd yn rhan o barc cenedlaethol, mae trafodaethau diweddar ynghylch creu parc cenedlaethol newydd a fyddai'n cynnwys o leiaf darnau o'r ardal dan sylw wedi hollti barn yn lleol, gan ddangos y tensiynau rhwng cadwraeth, datblygu ac anghenion cymunedau gwledig (nation.cymru). Mae materion yn ymwneud â'r Gymraeg hefyd yn allweddol yn y cyd-destun hwn, gan fod yr ardaloedd hyn yn cynnwys dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg na rhannau eraill y sir (Comisiynydd yr Iaith, d.d.) – sy'n groes i'r sefyllfa ym Mro Dysynni. Yn y cyd-destun ieithyddol hwn ceir trafodaethau parhaus ynghylch darpariaeth addysg Gymraeg yn yr ardal (Cyngor Sir Powys, 2024a). Yn debyg iawn i ardal Bro Dysynni, mae'r economïau lleol yn parhau i ddibynnu ar amaethyddiaeth, a thwristiaeth a hamdden hefyd yn sectorau allweddol yn yr economi wledig (Banwy Community Council, n.d.; Powys County Council, 2024b).



Golygfa o Fro Dysynni.
Hawlfraint Eifiona Thomas Lane.

Ceir felly elfennau tebyg a gwrthgyferbyniol rhwng Bro Dysynni a Dyffrynnoedd Banw a Thanat. Nid bwriad yr astudiaeth hon fodd bynnag oedd cymharu'r ardaloedd yn uniongyrchol, ond yn hytrach nodi cyd-destunau lle mae arferion TDdA gwledig yn cael eu hailgynhyrchu o fewn systemau cymhleth o rymoedd cymdeithasol, economaidd a llywodraethol. Yn y ddau achos, mae cymhlethdod economaidd-gymdeithasol yr ardaloedd yn cynnig cyfleoedd addas i archwilio sut mae prosesau'n rhyngweithio â strwythurau, gan gynnwys polisïau, dynodiadau

tirwedd, newidiadau economaidd a deinameg ieithyddol, a'r rhain oll yn siapio'r modd y caiff TDdA ei chynhyrchu a'i hatgynhyrchu mewn cyd-destunau gwledig cyfoes.

## 3.4 Ymchwil Archifol - Y Papurau Bro

Fel y trafodwyd eisoes, rôl unigolion, grwpiau a chymunedau yw adnabod a diffinio arferion TDdA, yn hytrach nag academyddion neu arsylwyr o'r tu allan. O'r herwydd, roedd angen mabwysiadu dull systematig a theg o adnabod enghreifftiau o TDdA i'w harchwilio a oedd yn adlewyrchu profiadau a blaenoriaethau'r cymunedau eu hunain. Penderfynwyd felly ddefnyddio papurau bro at y diben hwn, gan eu bod yn ffynhonnell ddata gymunedol a pherthnasol.

Mae papurau bro wedi bod yn nodwedd amlwg o gymunedau Cymraeg ers y 1970au (Jones, 2016, t.11; papuraubro.cymru, d.d.), ac maent yn bodoli'n bennaf o ganlyniad i waith gwirfoddolwyr ymroddedig (Barnett, 1995, t.19; Jones, 2016, t.10). Gellir dadlau bod hyn yn cyfrannu at y modd y mae Hughes (2008, t.53) yn eu disgrifio fel "ffenomenon", gan gyfeirio nid yn unig at eu tarddiad cymunedol ond hefyd at eu cyrhaeddiad eang ymhlith siaradwyr Cymraeg, er eu bod yn "torri pob rheol o ran dylunio, gwerthoedd newyddion a chystadleuaeth". Eu prif ddiben yw rhannu newyddion a gwybodaeth leol o ddiddordeb i gymunedau Cymraeg (Barnett, 1995, t.18). Mae'r papurau ar gael i'w prynu mewn siopau lleol, ac erbyn hyn mae gwasanaeth Bro360 – dan arweiniad cwmni Golwg – yn ategu'r papurau print traddodiadol drwy ddarparu gwefannau hyperleol (bro360.cymru, d.d.).

O safbwynt methodolegol, mae papurau bro yn ffynhonnell ddata unigryw gan eu bod yn cael eu cynhyrchu o fewn cymunedau ac ar eu cyfer, ac felly'n adlewyrchu bywyd diwylliannol bob dydd o safbwynt mewnol a lleol. Maent yn cofnodi digwyddiadau, arferion a ffurfiau ar gyfranogiad diwylliannol, gan greu cofnod lawr gwlad o weithgareddau cymunedol (gweler Atodiad 1 i gael rhestr enghreifftiol o arferion TDdA a godwyd o'r papurau bro). Yn y modd hwn, gellir eu defnyddio fel dull o osgoi pobl allanol yn gosod categorïau neu flaenoriaethau ymchwil fel sy'n sail i feirniadaeth Smith (2006) o Ddisgwrs Treftadaeth Awdurdodedig (gweler Atodiad 2 i weld enghraifft o'r wybodaeth sydd ar gael a allai fod yn seilwaith ar gyfer newid arferion dros amser).

## 3.5 Casglu Data - Dadansoddi Dogfennau

Dadansoddwyd y papurau bro er mwyn adnabod enghreifftiau o TDdA. Dewiswyd sampl fwriadol o bapurau bro o ardaloedd yr astudiaeth, sef *Dail Dysynni* (Bro Dysynni), *Yr Ysgub* (Dyffryn Tanat) a *Phlu'r Gweunydd* (Dyffryn Banw). Astudiwyd pob rhifyn a gyhoeddwyd yn ystod 2024 er mwyn cael cipolwg cyfoes ar fywyd cymunedol ar draws blwyddyn.

Darllenwyd y dogfennau'n systematig, gan nodi enghreifftiau lle disgrifiwyd digwyddiadau, arferion neu weithgareddau lleol, gan gynnwys gwasanaethau plygain, gweithgareddau ffermwyr ifanc, cyngherddau, a sioeau amaethyddol. Yn benodol, canolbwyntiwyd ar nodi digwyddiadau lleol a ffurfiau'r cyfranogi ynddynt. Defnyddiwyd y categorïau hyn i fod yn fframwaith hyblyg yn hytrach na chodau caeth, gan ganiatáu adnabod arferion a oedd wedi eu gwreiddio'n glir yn eu cyd-destunau lleol. Felly, roedd y meini prawf dethol yn seiliedig ar berthnasedd a thystiolaeth o gyfranogiad gweithredol.

Defnyddiwyd yr enghreifftiau a nodwyd yn y dadansoddiad hwn yn sail ar gyfer samplu cyfranogwyr ar gyfer cyfweliadau lled-strwythuredig. Ychwanegwyd at hyn drwy rwydweithiau personol yr ymchwilwyr a samplu caseg eira. Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer ymchwil TDdA, gan ei fod yn adlewyrchu natur berthynol a gwreiddiedig yr arferion hyn.

## 3.6 Casglu Data - Cyfweliadau

Yn dilyn adolygiad moeseg o'r broses gan Brifysgol Bangor, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig (gweler canllaw i'r cyfweliadau yn Atodiad 3) er mwyn archwilio'r arferion hyn ymhellach, gan adeiladu ar yr enghreifftiau a nodwyd wrth ddadansoddi'r papurau bro. Dewiswyd cyfranogwyr i adlewyrchu ystod o rolau yn ymwneud â chreu, trosglwyddo a chefnogi TDdA, gan gynnwys deiliaid ac ymarferwyr TDdA, gwirfoddolwyr sy'n trefnu gweithgareddau cymunedol, a rhanddeiliaid ehangach.

Cynhaliwyd cyfanswm o 16 cyfweliad: roedd chwech yn cynrychioli ardal Dyffrynnoedd Banw a Thanat, a phump yn cynrychioli ardal Bro Dysynni. Ategwyd hyn gan bum cyfweliad â rhanddeiliaid a oedd yn gweithio mewn rolau proffesiynol ym maes TDdA ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, megis sefydliadau gwarchod tirweddau, awdurdodau lleol a mudiadau cenedlaethol ag aelodaeth leol. Fodd bynnag, nid oedd y categorïau hyn yn gwbl ar wahân. Yn aml iawn, roedd cyfranogwyr yn ysgwyddo sawl rôl ar yr un pryd, megis gweithio yn y maes yn broffesiynol wrth wirfoddoli yn eu cymunedau. Mae hyn yn arwyddocaol yn ddadansoddol, gan ei fod yn dangos natur wreiddiedig a chyd-ddibynnol TDdA mewn cymunedau gwledig ar lefel leol yn enwedig.

| **Categori** | **Côd** |
|---|---|
| Bro Dysynni | Cyf4; Cyf5; Cyf6; Cyf7; Cyf11 |
| Dyffrynnoedd Tanat a Banw | Cyf1; Cyf2; Cyf3; Cyf9(A+B‡); Cyf15; Cyf16 |
| Rhanddeiliaid TDdA | Cyf8; Cyf10; Cyf12; Cyf13; Cyf14(A+B+C) |

Tabl 1: Cyfranogwyr yn ôl ardal neu fath

Mae'n arwyddocaol hefyd nodi bod nifer sylweddol o gyfranogwyr wedi datgelu yn eu cyfweliadau eu bod yn dod o gefndir amaethyddol, ac yn y rhan fwyaf o achosion yn parhau i fyw ar fferm deuluol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn dystiolaeth bellach o'r modd y mae cyfalaf diwylliannol a chymdeithasol y fferm deuluol yn cyfrannu at wead cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig, ffaith sydd yn aml iawn yn cael ei thanbrisio (Mansfield, 2019, t. 8).

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau ar-lein (11), ond cynhaliwyd rhai hefyd wyneb yn wyneb (4) a dros y ffôn (1). Roedd y cyfweliadau'n para tuag awr ar gyfartaledd. Mewn dau achos, roedd mwy nag un unigolyn yn cyfrannu at yr un cyfweliad, e.e. fel aelodau teulu neu gydweithwyr.

## 3.7 Dull dadansoddi

Wrth ddehongli'r data, aethpwyd ati i ddadansoddi'n thematig ac ansoddol (Braun a Clarke, 2021). Roedd y broses yn un ailadroddol, gan nodi patrymau a phrosesau a oedd yn ymddangos

‡ Mae Cyf9B a Cyf10 yn cynrychioli'r un cyfranogwr

yn y data. Dehonglwyd y themâu drwy fframwaith a oedd yn ystyried lefelau micro (unigol neu leol iawn), meso (sefydliadol neu ranbarthol) a macro (strwythurol neu genedlaethol) (Serpa a Ferreira, 2019). Roedd hyn yn galluogi symud o enghreifftiau penodol i ddeall y prosesau ehangach sy'n siapio TDdA a'r rhyngweithio sydd rhyngddynt.

## 3.8 Cyfyngiadau

Cydnabyddir rôl weithredol yr ymchwilwyr yn y broses ymchwil (Dowling, 2008), ynghyd â'u safleoldeb (*positionality*) fel ymarferwyr sydd â phrofiad byw eu hunain o ddiwylliant gwledig a hynny'n eu galluogi i leoli'r ymchwil o fewn safbwyntiau a systemau gwybodaeth lleol (Smith, 2021). Er bod papurau bro yn ffynhonnell gymunedol, mae'r dehongliad yn parhau i ddibynnu ar ddewisiadau'r tîm ymchwil a'r cysylltiadau personol sydd wedi helpu i adnabod unigolion yn y cymunedau. Mabwysiadir dull myfyriol (*reflexivity*) (Dowling, 2008) er mwyn lliniaru unrhyw duedd ddiangen.

Mae cyfyngiadau hefyd yn bodoli. Gan fod y papurau bro yn rhai cyfrwng Cymraeg, mae tuedd naturiol at gynnwys digwyddiadau Cymraeg, ac mae'r duedd hon yn blaenoriaethu mathau arbennig o TDdA, yn enwedig drwy roi pwyslais ar weithgareddau cymdeithasol a chyfranogol. Gellid dadlau, fodd bynnag, o ystyried y tensiynau damcaniaethol a nodwyd yn yr astudiaeth hon ynghylch y berthynas rhwng TDdA a'r Gymraeg, a'i natur gyfranogol mewn cymunedau gwledig Cymru, nad yw'r ffactorau hyn yn gyfyngiadau ond yn hytrach yn briodol i ffocws yr astudiaeth hon. Ar yr un pryd, fodd bynnag, rhaid cydnabod bod cyd-destun penodol yr astudiaethau achos yn cyfyngu ar y gallu i gyffredinoli'r canlyniadau, ac felly erys yr angen am ymchwil pellach sy'n archwilio ystod ehangach o fathau o TDdA mewn cyd-destunau amgen. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn tanseilio cyfraniad yr astudiaeth hon, sef sefydlu sylfaen dystiolaeth newydd mewn maes sydd wedi ei dan-astudio, gan bwysleisio natur gyd-destunol TDdA.

# 4 Canlyniadau a Thrafodaeth

Yn yr adran hon trafodir canlyniadau'r astudiaeth mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil. Yn Atodiad 4 ceir dyfyniadau enghreifftiol, o dan amodau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, i gefnogi'r canfyddiadau penodol a drafodir yn yr adran hon.

## 4.1 Prosesau sy'n Cynhyrchu ac yn Atgynhyrchu TDdA

Dengys y data fod TDdA yn cael ei chynhyrchu a'i hatgynhyrchu yng Nghymru wledig drwy ryngweithio rhwng prosesau sy'n cyd-ddibynnu ar ei gilydd ar lefelau micro, meso a macro (Serpa a Ferreira, 2019). Gan ddechrau ar y lefel micro, yn yr adran hon archwilir rhai o'r prosesau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo TDdA fel ymarfer byw trwy arferion a rhyngweithio bob dydd.

### 4.1.1 Arferion treftadaeth fyw a throsglwyddo ar lefel micro

*4.1.1.1Trosglwyddo rhwng cenedlaethau*

Roedd derbyn TDdA drwy'r teulu yn duedd amlwg ymysg cyfranogwyr yr astudiaeth hon [Cyf3, Cyf7]. Disgrifiwyd y trosglwyddo fel rhan annatod o blentyndod a phrofiadau cynnar gydag ymdeimlad o fod wedi'u trwytho mewn diwylliant a oedd yn hollbresennol yn eu bywydau beunyddiol, fel yr awgrymir yn y dyfyniad canlynol:

*"O'n i'n arfer gorfod mynd ar y fferm a gwatsiad Taid yn plygu gwrych am oriau. A dyna lle oedd y siarad 'ma'n dod, sgwrsio, malu awyr, neud rhyw gân." Cyf2*

Mae hyn yn dangos yn glir rôl ganolog y teulu wrth gynnal arferion. O ganlyniad, mynegodd cyfranogwyr o'r ddwy ardal y dyhead i drosglwyddo'r traddodiadau hyn i'w plant eu hunain, fel dull o gynnal arferion teuluol a sicrhau parhad diwylliannol [Cyf2]. Roedd hyn weithiau'n gysylltiedig ag ymdeimlad o linach, yn enwedig yn achos canu Plygain a fynegwyd i fod yn elfen o hunaniaeth deuluol [Cyf3].

Wrth ddisgrifio'r profiad o dderbyn TDdA, cyfeiriodd cyfranogwyr at y broses fel rhywbeth 'naturiol' ac yn rhan o fywyd pob dydd [Cyf6, Cyf2], er bod rhai'n nodi nad oedd ganddynt ddewis yn blant [Cyf3]. Mae hyn yn tynnu sylw at gymhlethdod y traddodiad, lle gall disgwyliadau teuluol greu pwysau. Fodd bynnag, nododd y mwyafrif fod trochi cynnar wedi meithrin mwynhad, ynghyd ag ymdeimlad o gyfrifoldeb dros sicrhau parhad arferion [Cyf11], a'r cyfrifoldeb hwn yn thema sy'n codi yn nes ymlaen hefyd wrth drafod gwirfoddoli.

Er bod patrymau etifeddu TDdA yn bennaf o genedlaethau hŷn at rai iau, cafwyd hefyd enghreifftiau i'r cyfeiriad arall, gyda rhieni'n dod i gysylltiad ag arferion drwy brofiadau eu plant [Cyf1, Cyf3]. Mae'r math hwn o drosglwyddo'n dibynnu'n helaeth ar sefydliadau megis ysgolion, y Mudiad Meithrin, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc – sef gweithredwyr sydd â rôl allweddol wrth archwilio trosglwyddo TDdA ar lefel meso, fel y trafodir yn yr adran ganlynol.

Dengys y data fod y teulu'n faes allweddol ar gyfer trosglwyddo TDdA; fodd bynnag, mae hyn hefyd yn nodi anghydraddoldebau posibl gan fod trosglwyddo o'r math hwn yn dibynnu ar gyfalaf cymdeithasol sylweddol (Bourdieu, 1986). Dychwelwn at y tensiwn hwn wrth drafod materion cynhwysiant yn nes ymlaen ar dudalen 33.

*4.1.1.2 Dal a throsglwyddo TDdA gan ddeiliaid ac ymarferwyr*

Y tu hwnt i'r teulu, roedd cyfranogwyr yr astudiaeth hon yn cyfeirio'n gyson at unigolion penodol a ystyrid yn ddeiliaid neu ymarferwyr TDdA yn y gymuned leol. Yn aml, enwyd pobl a oedd yn adnabyddus am eu cyfoeth o wybodaeth, eu harbenigedd neu eu hyfedredd wrth arfer y dreftadaeth fyw [Cyf2]. Ynghyd â'u sgiliau technegol, pwysleisiodd cyfranogwyr allu'r unigolion hyn i ddod ag arferion yn fyw ac i ysbrydoli eraill, gan annog ymgysylltiad dyfnach â'r TDdA.

Er bod y teulu yn allweddol ar gyfer trosglwyddo, dengys y data fod cynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA hefyd yn digwydd drwy gysylltiadau anffurfiol yn y gymuned rhwng deiliaid profiadol ac ymarferwyr iau. Mae'r rhyngweithiadau hyn, sy'n digwydd mewn lleoliadau cymunedol bob dydd, yn galluogi trosglwyddo parhaus sy'n seiliedig ar arsylwi, cydweithio ac ymarfer ar y cyd, fel cyfleir yn y dyfyniad isod:

*"Fel dwi wedi dysgu pan oeddwn i'n neud drama gan rywun fel [enw], oedd yn ein cynhyrchu ni 40 mlynedd yn ôl. Wedyn dwi'n gobeithio rŵan falle... Wel, dwi'n teimlo rŵan, mae rhai o'r rheina dwi 'di bod yn eu dysgu yn ddigon parod rŵan falle i gynhyrchu rhywbeth eu hunain. Maen nhw 'di cael y profiad. A ti'n gobeithio mai dyna sydd yn digwydd, dwyt ti. Wyt ti'n dysgu gan rywun, ac wyt ti'n trio pasio be ti'n gwybod ymlaen i'r genhedlaeth nesa a bod o'n parhau." Cyf3*

Mae'r dyfyniad yn ategu'r data sy'n dangos bod y broses o ddod yn ddeiliad TDdA yn gofyn am gryn fuddsoddiad amser, gan fod trwytho parhaus ac ymarfer dro ar ôl tro dros nifer o flynyddoedd yn angenrheidiol er mwyn meithrin y lefel o arbenigedd sy'n nodweddiadol o ddeiliaid y grefft. Mae hyn yn adlewyrchu dadl Bortolotto (2007) mai'r *prosesau* sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA, yn hytrach na'r mynegiannau eu hunain, sydd wrth wraidd ei hyfywedd.

Yn debyg i'r llinach deuluol a drafodir uchod, cyflëwyd hefyd ymdeimlad cryf o linach ddysgu, sy'n aml yn cael ei thrin â'r un parch â llinach waed. Mae gallu olrhain pwy ddysgodd bwy yn cyfrannu at ymdeimlad o ddilysrwydd, gan bwysleisio nad y sgiliau'n unig sy'n cael eu trosglwyddo, ond hefyd yr hanes, y gwerthoedd a'r cysylltiadau personol sy'n rhan annatod o'r arfer [Cyf10].

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon sylweddol ynghylch y ffaith fod deiliaid ac ymarferwyr profiadol yn heneiddio a'r ansicrwydd ynghylch pwy fydd yn olynu yn y dyfodol [Cyf2, Cyf16]. Mae hyn yn arddangos natur fregus y system drosglwyddo hon a'r her o sicrhau dilyniant cynaliadwy o fewn y gymuned drwy ymgysylltu â'r to iau.

*4.1.1.3 Dysgu drwy brofiad a chyfranogiad ymarferol*

Un o nodweddion y broses trosglwyddo o fewn y teulu a'r gymuned yw dysgu anffurfiol trwy wylio neu wrando, ac ymarfer. Mewn cyd-destun cerddorol, cyfeiriwyd at hyn fel dysgu 'ar y glust' [Cyf10], 'ar fy nghlyw' [Cyf2] neu yn ehangach fel y 'traddodiad llafar' [Cyf5]. Roedd arsylwi hefyd yn ganolog wrth drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth [Cyf15]. Mae'r cyfranogwr isod yn trafod sut y datblygwyd doniau cerddorol ei merch:

*"A'r un peth pan oedd [enw] [yn] dysgu'r delyn deires, oeddet ti'n chwibanu tiwn iddi hi, ac oedd hi'n gweithio fo allan ar y delyn. A dyna 'di'r dull traddodiadol o ddysgu telyn deires ydi ar y glust." Cyf9A*

Mae'r math hwn o ddysgu, drwy brofiad, yn cyferbynnu â dulliau mwy ffurfiol neu strwythuredig sydd weithiau'n arwain at gymwysterau. Er bod y dulliau anffurfiol hyn y fwy nodweddiadol o fewn y teulu a'r gymuned, ceir tystiolaeth eu bod hefyd yn cael eu harddel mewn cyd-destunau mwy strwythuredig fel prosiectau strategol. Roedd prosiect *Twmpdaith* er enghraifft yn hyfforddi pobl ifanc 'ar y glust' a chredwyd bod y dull hwn o ddysgu, sy'n wahanol i ddysgu o gopi, yn 'rhyddhau' cyfranogwyr y rhaglen fel cerddorion [Cyf10]. Ategwyd bod yr arddull llai ffurfiol o ddysgu yn fwy cydnaws â digwyddiadau gwerin, ac yn symud y cerddorion o fod yn berfformwyr i fod yn gyfranogwyr – elfen arall sy'n cael ei hategu yn nes ymlaen wrth drafod natur gyfranogol TDdA.

Mewn rhai achosion yn y ddwy ardal, cefnogwyd dysgu anffurfiol yn y gymuned gan wersi mwy ffurfiol yn yr ysgol. Er enghraifft, cyfeiriodd unigolion at y modd yr oedd gwersi offerynnol yn yr ysgol yn cael eu hategu gan gyfleoedd i ymarfer a pherfformio'r offeryn yn gymdeithasol fel aelod o seindorf [Cyf6]. Awgryma hyn bod modd i ddulliau dysgu amrywiol fodoli ochr yn ochr, a chefnogi ei gilydd.

Yn gryno, dengys y data fod dulliau anffurfiol o ddysgu, boed yn gwrando, arsylwi neu gymryd rhan, yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth drosglwyddo gwybodaeth a datblygu sgiliau TDdA, hyd yn oed pan fydd y dysgu hwnnw'n digwydd ochr yn ochr â darpariaeth fwy ffurfiol. Fodd bynnag, gellid dadlau bod natur anffurfiol y dulliau hyn, heb eu cofnodi, yn creu cyd-destun 'dan y radar', ac felly yn eu gwneud yn fwy bregus a chymhleth i'w cefnogi na dulliau mwy ffurfiol.

*4.1.1.4 Llesiant fel cymhelliant*

Thema gyson ymhlith cyfranogwyr oedd cyfraniad TDdA at lesiant unigolion a chymunedau. Yn aml, cyfeiriwyd at y pleser uniongyrchol o gymryd rhan, dod â gwen, a chael hwyl gydag eraill [Cyf2; Cyf3; Cyf6], fel mae'r cyfranogwr isod yn egluro:

*"Ond, ia, mae jyst y lles iechyd a chadw'n heini a'r benefit corfforol a chymdeithasol a chymysgu hefo pobl eraill. It's a no-brainer. Mae dawnsio yn ticio'r bocsys yna i gyd." Cyf10*

Cyfeiriodd un cyfranogwr at gadw'n brysur mewn gweithgaredd cymdeithasol wyneb yn wyneb ac nid ar sgriniau digidol [Cyf12] tra bod cyfranogwr arall yn argyhoeddedig bod gan TDdA werth economaidd anuniongyrchol drwy gyfrannu at unigolion iachach a mwy cynhyrchiol [Cyf1].

Fodd bynnag, awgryma'r data fod y cyfraniad at lesiant yn aml yn fwy cymhleth ac emosiynol, ac yn anodd ei fynegi mewn modd y gellir ei fesur. I rai unigolion, roedd TDdA wedi'i phlethu â phob agwedd ar fywyd, gan gyfrannu at ymdeimlad o hunaniaeth a bodlonrwydd personol [Cyf6]. Dengys y dystiolaeth fod TDdA yn dwyn gwahanol ystyron i wahanol bobl, er enghraifft yn gweithredu fel profiad ysbrydol i rai (Cyf9A], ac fel mynegiant o Gymreictod i eraill [Cyf9B]. Beth bynnag fo'r ffurf, ymddengys ei bod yn rhan o hunaniaeth a llesiant unigol.

Yn ogystal â'r buddiannau unigol, dengys y data fod TDdA yn cyfrannu'n gryf at lesiant cymunedol. Credid ei bod yn dod â phobl ynghyd, yn cryfhau hunaniaeth gymunedol, ac yn meithrin gwytnwch cymdeithasol [Cyf1; Cyf8]. Mewn cyfnodau heriol, cafwyd enghreifftiau o TDdA yn gweithredu fel balm cymdeithasol, gan gynnal ymdeimlad o berthyn a pharhad, megis pan ad-drefnwyd ysgolion lleol [Cyf2] neu drwy gefnogi unigolion sydd â dementia drwy ganu mewn côr [Cyf6].

Yn ehangach, roedd cyfranogwyr yn cysylltu TDdA â meithrin perthynas â lle ac ymdeimlad o barhad [Cyf3], ynghyd â dealltwriaeth o'u hunain a balchder yn hynny [Cyf2]. Yn gysylltiedig â hyn, mynegwyd y teimlad o fod wedi'u gwreiddio ac yn perthyn i rywle ac i gymuned benodol [Cyf9B, Cyf10]. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod y sicrwydd hwn, o fod yn deall eu lle yn y byd, yn ganolog i lesiant unigolion a chymunedau. Dengys y dystiolaeth felly fod llesiant yn elfen ganolog o TDdA ac yn atgyfnerthu'r cymhelliant i barhau i'w harddel dros amser.

### 4.1.2 Seilwaith cymunedol a threfniadaeth gymdeithasol ar lefel meso

Symudir ymlaen nesaf i graffu ar y prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA ar lefel meso, sef ar lefel sefydliad neu ranbarth. Dyma'r seilwaith cymunedol a'r drefniadaeth gymdeithasol sy'n creu cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan mewn TDdA a'i hymarfer yn rheolaidd.

*4.1.2.1 Cynnal digwyddiadau cymdeithasol a chyfranogol*

Dengys y data fod digwyddiadau cymdeithasol a chyfranogol yn gyfleoedd hollbwysig ar gyfer cynhyrchu ac atgynhyrchu arferion TDdA ar lawr gwlad. Mae gweithgareddau megis cyngherddau, eisteddfodau, sioeau lleol a gwasanaethau plygain yn elfennau annatod o fywyd diwylliannol yr ardal, gan weithredu fel mannau lle mae diwylliant yn cael ei ymarfer ar y cyd. Rhaid cydnabod bod blaenoriaeth wedi'i rhoi yn yr astudiaeth hon i weithgareddau fel y rhain oherwydd eu hamlygrwydd yng nghynnwys y papurau bro. Fodd bynnag, awgryma'r data fod cysylltiad agos rhwng diwylliant a chymuned yng nghefn gwlad Cymru, a hynny'n gosod cyd-destun clir ar gyfer deall rôl y digwyddiadau hyn, fel y dywed y cyfranogwr isod:

"*A dwi'n gwybod dwi yn cyplysu lot o'r diwylliannol a'r cymunedol. Dwi'm yn gwybod o ran theori. Falle bod 'na ddim llinell gyswllt. Ond yn fy meddwl i, yn yr ardal yma, mae 'na. Mae'n siŵr bod hynny'm yn wir ar y cyfan, na'di. Dwi'm yn gwybod. Falle bod o. Ond dwi'n gwybod bo fi'n defnyddio'r ddau beth am yn ail bron. Ond mae pob profiad cymunedol yn yr ardal yma'n brofiad diwylliannol, fyswn i'n dadlau. Mae bob profiad diwylliannol yn brofiad cymunedol." Cyf1*

Roedd digwyddiadau o'r fath yn dwyn pobl o bob oed at ei gilydd yn yr un gofod cymunedol [Cyf7, Cyf16], gan greu'r amodau ar gyfer trosglwyddo rhwng cenedlaethau a dysgu drwy brofiad fel sydd eisoes wedi ei drafod [Cyf10]. Nid oedd y prosesau hyn yn gyfyngedig i gynnal traddodiad yn unig, ond roeddynt hefyd yn sbarduno cydweithio ac adfywiad, fel y dangosir gan enghraifft lle daeth côr a seindorf leol ynghyd i adfywio carol hanesyddol mewn digwyddiad cymunedol [Cyf6]. O ganlyniad, gellid dadlau ar y naill law bod y gymuned yn creu'r amgylchiadau a'r cyfleoedd i berfformio TDdA, ac ar y llaw arall bod TDdA yn darparu'r cymhelliant ar gyfer dod â'r gymuned ynghyd. Mae hyn yn cyfleu perthynas cydberthynol rhwng TDdA a chymuned.

Thema amlwg arall yn y data oedd natur gyfranogol y diwylliant hwn [Cyf9B]. Roedd cymryd rhan yn fwy na dim ond perfformio yn unig, gan ei fod hefyd yn cynnwys cefnogi mewn ffyrdd eraill megis darparu neu weini lluniaeth, a thrwy hynny yn cynnal arferion eraill TDdA megis ryseitiau cacenni cri a bara brith. Gellir dehongli bod mynychu'r digwyddiad ynddo'i hun yn weithred gyfranogol, gan fod cefnogi'r digwyddiad mewn modd weithredol yn cyfrannu at hyfywedd yr arfer [Cyf3]. Roedd un cyfranogwr yn dadlau bod hyn, ar y cyfan, yn wahanol i brofiad mewn canolfan gelfyddydol lle ceir gynulleidfa yn gwylio'n oddefol yn hytrach na chymryd rhan yn weithredol [Cyf10]. Mae hyn yn adeiladu ar ddamcaniaeth Williams (1958) nad yw diwylliant yn

rhywbeth mawreddog, ond yn hytrach yn weithred gyfranogol bob dydd. Yn y modd hwn, gellid deall pob ymgysylltiad â TDdA – o fod yn arddel y traddodiad, i'w drefnu, a hyd yn oed ei gefnogi – i fod yn weithred gyfranogol sy'n cyfrannu at gynhyrchu ac atgynhyrchu'r TDdA.

*4.1.2.2 Gwirfoddoli*

Dengys y data fod gwirfoddolwyr yn gwbl ganolog i gynaladwyedd TDdA yng nghefn gwlad Cymru, yn enwedig o ran cynnal digwyddiadau cymunedol fel y trafodwyd uchod. Yn aml, roedd llwyddiant y gweithgareddau hyn yn dibynnu ar ymroddiad unigolion a oedd yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol [Cyf3]. Roedd y gwirfoddolwyr hyn yn gwneud ystod eang o dasgau, gan gynnwys codi arian, trefnu digwyddiadau, a chynnal mannau a strwythurau cymunedol sy'n hanfodol i barhad arferion TDdA [Cyf1].

Serch hynny, canfyddiad cyffredin oedd fod y cyfrifoldebau hyn yn aml yn syrthio ar ysgwyddau cylch bach o unigolion, gan arwain at ymdeimlad o ysgwyddo baich [Cyf3, Cyf1]. Mynegwyd hefyd bryder ynghylch pwy fydd yn cymryd yr awenau wrth i wirfoddolwyr heneiddio [Cyf3, Cyf12]. Unwaith eto, dyma ddangos breuder y prosesau sy'n cynnal TDdA yng nghefn gwlad Cymru.

Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd rhai bod ethos gwirfoddoli yn gwanhau [Cyf10], gan fod bywydau prysur, dyletswyddau gofal a diffyg cefnogaeth yn rhwystro'r to iau rhag cymryd rhan [Cyf11]. Er gwaethaf yr heriau hyn, gwelwyd ymdrechion ymwybodol i drosglwyddo cyfrifoldebau, yn aml mewn ffordd anffurfiol drwy feithrin perthnasoedd a chefnogi unigolion iau [Cyf11], ond hefyd drwy gefnogaeth fwy strategol gan sefydliadau i gefnogi'r broses o ddenu gwirfoddolwyr ifanc [Cyf10]. Er bod rhwystrau amlwg, roedd llawer yn gweld gwirfoddoli yn fynegiant o ddyletswydd neu gyfrifoldeb cymdeithasol, fel y mae'r dyfyniad canlynol yn ei gyfleu:

"*Mae o bron yn ddyletswydd arnon ni i basio fo ymlaen ac i roi'r cyfleoedd 'ma. Mae rhywun 'di bod digon caredig i dreulio amser i basio fo ymlaen i ni, so job ni rŵan 'di pasio fo ymlaen i'r genhedlaeth nesa.*" *Cyf10*

Defnyddiwyd termau emosiynol megis "dyletswydd" [uchod] a "chyfrifoldeb" [Cyf2; Cyf12], gan adlewyrchu ymrwymiad moesol sy'n aml yn gysylltiedig ag awydd i weld parhad cymunedol ac ieithyddol [Cyf11, Cyf3]. Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn amlygu ffin denau rhwng braint a baich [Cyf9A, Cyf3], wrth i'r ymrwymiad hwn deimlo'n anrhydedd ond ar yr un pryd yn ddisgwyliedig [Cyf12]. Yn gryno, gellid dadlau bod gwirfoddolwyr yn gweithredu fel asgwrn cefn TDdA, gan gynnal nid yn unig arferion diwylliannol ond hefyd yr isadeiledd meddal sy'n seilwaith ar gyfer cydlyniant a pharhad cymunedol ac ieithyddol. Fodd bynnag, unwaith eto, mynegir pryder ynghylch gwytnwch y seilwaith hollbwysig hwn i'r dyfodol.

*4.1.2.3 Cynnal asedau cymunedol*

Mae'r adran hon yn sôn am rôl asedau cymunedol, yn enwedig gofodau ffisegol a seilwaith lleol, mewn perthynas â phrosesau cynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA. Dengys y data fod neuaddau, capeli, eglwysi a mannau cymunedol eraill yn darparu seilwaith hanfodol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol megis cyngherddau, ffeiriau ac eisteddfodau, gan gynnig gofodau cyfleus ar gyfer cydgynhyrchu a throsglwyddo arferion [Cyf1]. Mae hyn yn cyd-fynd â

chanfyddiadau Richards (2026) sy'n nodi bod isadeiledd ffisegol ar ffurf adeiladau traddodiadol yn aml yn gefnlen neu'n blatfform ar gyfer arferion gwledig.

Fodd bynnag, dengys y data bod y seilwaith hwn dan bwysau cynyddol. Mynegwyd pryder bod cau neu golli gofodau cymunedol yn cyfyngu ar yr ystod a'r math o weithgareddau y gellir eu cynnal [Cyf10]. Yn gysylltiedig â hyn, pwysleisiwyd bod TDdA yn dibynnu ar ecoleg amrywiol o ofodau, gan fod yna ofynion gwahanol ar gyfer gweithgareddau unigol, grwpiau bach neu ddigwyddiadau ar raddfa fwy [Cyf11]. Mae hyn yn awgrymu y gall rhesymoli gofodau danseilio hyblygrwydd diwylliannol oni bai y darperir gofodau hyblyg ac amlbwrpas.

Yn hanesyddol, roedd capeli ac eglwysi yn ganolog i fywyd diwylliannol cymunedau gwledig a dengys y data bod gweithgareddau dan adain capeli ac eglwysi yn parhau mewn rhai ardaloedd. Eto i gyd, gwelwyd enghreifftiau o gau capeli a symud gweithgareddau i ofodau eraill [Cyf16], eu trawsnewid at ddefnyddiau seciwlar [Cyf11], neu eu gwerthu a'u hailbwrpasu'n breifat ar gyfer gweithgareddau diwylliannol [Cyf3]. Awgryma hyn fod gan ofodau o'r fath rôl barhaol yn seilwaith cymdeithasol a diwylliannol cymunedau a bod cymunedau'n addasu yn sgil heriau economaidd a chymdeithasol.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at ofodau preifat megis tafarndai fel asedau cymunedol anffurfiol [Cyf1], ac mewn un achos soniwyd bod blaenoriaethau perchnogion o safbwynt elw masnachol yn cyfyngu ar weithgareddau [Cyf7]. Cyfeiriwyd hefyd at y baich o gynnal asedau megis canolfannau a thafarndai cymunedol yn wirfoddol, a chodwyd pryderon ynghylch cynaliadwyedd a chapasiti tymor hir [Cyf11].

Yn ehangach, nodwyd hefyd asedau eraill megis papurau bro, a ystyriwyd yn fecanwaith pwysig ar gyfer hyrwyddo a normaleiddio TDdA, ond a oedd eto yn dibynnu ar gapasiti gwirfoddol sy'n heneiddio [Cyf1; Cyf3].

At ei gilydd, dengys y dystiolaeth fod hyfywedd TDdA yn dibynnu ar allu cymunedau i addasu a datblygu asedau cymunedol cynaliadwy sy'n darparu gofodau ffisegol a symbolaidd i ddiwylliant gael ei fyw, ei werthfawrogi a'i drosglwyddo.

*4.1.2.4 Creu a chynnal ymdeimlad o le*

Dengys y data bod TDdA wledig wedi ei gwreiddio yn yr ymdeimlad o le, a'r cyfranogwyr yn ymwybodol iawn o ddylanwad y gydberthynas rhwng amaethyddiaeth, y Gymraeg a TDdA [Cyf1; Cyf8]. Roedd y berthynas hon yn cael ei deall a'i gwerthfawrogi o safbwynt hunaniaeth unigolion a chymunedau, a'r dirwedd yn cael ei gweld fel man gwaith a bywoliaeth [Cyf 1; Cyf11]. Yn y cyd-destun hwn, dengys y data bod y fferm deuluol yn gyfrwng allweddol nid yn unig i'r Gymraeg, ond hefyd i werthoedd, gwybodaeth leol am hen gymeriadau neu straeon, sgiliau megis hyfforddi cŵn defaid, ac arferion cydweithredol megis hel mynydd neu gefnogi digwyddiadau, gyda llinach y fferm deuluol yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth leol a gwytnwch cymunedol [Cyf6].

Roedd gwybodaeth leol, megis enwau ar nodweddion y tir a straeon lleol, yn rhan bwysig arall o'r cysylltiad rhwng TDdA ac ymdeimlad o le. Sylweddolwyd bod y wybodaeth hon yn adnodd diwylliannol gwerthfawr, ond nodwyd ei bod yn cael ei golli wrth i gysylltiadau teuluol â'r tir wanhau. Yn hyn o beth, câi newid enwau lleoedd ei ddehongli i fod yn tanseilio cof diwylliannol lleol ac yn cael ei weld yn weithred sarhaus, fel mae'r cyfranogwr isod yn ei gyfleu:

*“A peth arall sydd yn fy nghorddi i ydi, ’dyn nhw’m yn gwybod be ’di enwau afonydd neu be ’di enwau nentydd neu fryniau yn yr ardal. Dwi’n gwybod bod nhw’n bathu geiriau Saesneg iddyn nhw. Mae ’na bont rhwng fan hyn a Mallwyd, ac maen nhw ’di… The devil's elbow. Be ’di'r devil’s elbow? Pont Nant-yr-ehedydd, ti’n gwybod. A ti’n meddwl, ww, mae hwnna’n corddi fi hefyd, fod pobl yn colli pethau fel’na, colli enwau.” Cyf3*

Mae hyn efallai’n egluro pam fod un cyfranogwr yn mynd ati’n fwriadol i geisio codi ymwybyddiaeth am yr enwau hyn [Cyf11]. Ar yr un pryd, dengys y data fod TDdA hefyd yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer bathu enwau newydd, er enghraifft enw ar gyfer ysgol fro newydd [Cyf2], sy’n awgrymu bod ymdeimlad o le yn gallu bod yn ddeinamig yn hytrach na sefydlog. Yn ardal Dyffryn Banw, roedd tafodiaith hefyd yn chwarae rôl debyg o safbwynt cryfhau hunaniaeth, gan gyfrannu at amrywiaeth ddiwylliannol – ond eto’n agored i ddylanwad tueddiadau mudo a all arwain at wanhau neu golli nodweddion ieithyddol penodol dros amser [Cyf2]. Er bod UNESCO (2003) yn cydnabod iaith fel cyfrwng ar gyfer Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, nid yw’n diogelu tafodieithoedd yn benodol, gan olygu bod elfen ganolog o hunaniaeth leol yn parhau heb gydnabyddiaeth na chefnogaeth ffurfiol (Braber a Howard, 2023).

Yn ei chyfanrwydd, mae’r dystiolaeth yn dangos bod ymdeimlad o le yn sail strwythurol i TDdA, gan gysylltu arferion â rhwydweithiau cymdeithasol, iaith a gwybodaeth leol. Ymhellach, awgryma’r llenyddiaeth ehangach (e.e. Young et al., 2017) fod TDdA hefyd yn allweddol wrth greu naws am le, sy’n atyniad cryf i ymwelwyr a’r diwydiant twristiaeth. Felly, ceir cymhelliant economaidd yn ogystal â chymhelliant diwylliannol dros gynnal y berthynas rhwng iaith, tirwedd a’r cysylltiadau cymdeithasol sy’n ganolog i ymdeimlad o le. Fodd bynnag, pan fydd y cysylltiadau hyn yn gwanhau, er enghraifft drwy ansefydlogi’r fferm deuluol, mae’r prosesau sy’n trosglwyddo TDdA yn gwanhau hefyd. Yn hyn o beth, gellid dadlau bod y berthynas rhwng pobl a lle yn hanfodol i gynaladwyedd TDdA a’r buddion economaidd cysylltiedig.

### 4.1.3 Llywodraethu, polisi, sefydliadau ac adnoddau ar lefel macro

Yn olaf, rhoddir sylw i’r prosesau sy’n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA ar lefel macro, sef ar lefel strwythurol neu genedlaethol.

#### *4.1.3.1 Cefnogaeth sefydliadol a seilwaith galluogi*

Dengys y data bod sefydliadau yn chwarae rôl allweddol yn y broses o gynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA yng nghefn gwlad Cymru. Yn y gorffennol, roedd dylanwad sefydliadau crefyddol megis y capel a’r eglwys yn sylweddol yn yr ardaloedd dan sylw [Cyf9A], a soniodd rhai cyfranogwyr am rôl y sefydliadau hyn yn cyflwyno sgiliau megis canu harmoni iddynt. Fodd bynnag, er bod yna deimlad bod y sefydliadau hyn yn parhau i fod yn rhan o ecosystem ddiwylliannol wledig, roedd cydnabyddiaeth hefyd bod eu dylanwad yn pylu [Cyf1]. Cwyd hyn gwestiynau am ddyfodol yr endidau hyn fel rhan o dreftadaeth fyw Cymru a dylid cydnabod pwysigrwydd gwaith ymchwil cyfredol gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru sy’n cynnal cyfrifiad o gapeli anghydffurfiol Cymru er mwyn “creu’r darlun cywir cyntaf mewn dros ganrif o gyflwr, defnydd a statws capeli ledled Cymru” (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2026).

Yn eu lle, cyfeiriai cyfranogwyr yn gyson at fudiadau eraill gan gynnwys y Ffermwyr Ifanc, Aelwydydd yr Urdd, Mentrau Iaith, Merched y Wawr ac ysgolion. Er bod nifer o’r mudiadau hyn

yn gyrff cenedlaethol, ymddengys bod eu presenoldeb lleol yn cynnig fframwaith, adnoddau a gofod ar gyfer gweithgareddau diwylliannol sy'n cael ei werthfawrogi gan gymunedau gwledig [Cyf1, Cyf5, Cyf2]. Yn ogystal, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill, ymddengys bod mudiadau fel y rhain yn allweddol o safbwynt ehangu mynediad at brofiadau TDdA i unigolion na fyddai o bosibl â mynediad fel arall drwy gysylltiadau teuluol neu gymunedol [Cyf16, Cyf6].

Roedd gweithgarwch cenedlaethol hefyd yn llifo'n ôl i'r lleol, gyda digwyddiadau megis Eisteddfod yr Urdd yn sbarduno gweithgareddau cymunedol megis digwyddiadau i godi arian neu gyngherddau 'pigion' yn dilyn llwyddiant ar lwyfan cenedlaethol [Cyf1]. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn awyddus i bwysleisio na ddylid dibynnu ar sefydliadau'n llwyr i gynnal TDdA, gan y gall ffurfiau mwy sefydliadol o gynnal ac arfer TDdA, megis drwy gystadlu, fod yn wahanol iawn i ddulliau mwy cymdeithasol o arddel y traddodiad [Cyf10].

Roedd cyfranogwyr hefyd yn nodi bod sefydliadau megis Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith yn rhai arbennig o bwysig, nid yn unig am y profiadau TDdA a gynigir, ond hefyd am y sgiliau arweinyddiaeth a chyfrifoldeb cymunedol sy'n cael eu meithrin drwy strwythurau democrataidd [Cyf3, Cyf7]. Credid bod y sgiliau hyn yn trosglwyddo i rolau gwirfoddol eraill yn y gymuned, er enghraifft, cadeirio pwyllgorau – gan gryfhau gwytnwch a chapasiti lleol, fel y dywed y cyfranogwr isod:

"*Ond maen nhw'n gwybod sut mae trefnu. Maen nhw 'di cael eu trwytho sut i drefnu pethau, chwarae teg. Ac fel dwi'n deud, ti'n gweld sut maen nhw'n esblygu o fod yn Ffermwyr Ifanc i'r Cylch [Meithrin], lle maen nhw'n trefnu pethau, i Ffrindiau'r Ysgol, ac wedyn pwyllgor y ganolfan neu rywbeth fel hynny.*" *Cyf3*

Fodd bynnag, er bod llawer o gyfranogwyr yn gwerthfawrogi cefnogaeth sefydliadol, gwelir gwahaniaeth clir yn y math o sefydliad oedd yn ennill ymddiriedaeth a pharch. Canmolwyd yn bennaf fudiadau cenedlaethol trydydd sector sydd ag aelodaeth leol ac sy'n cynnig profiadau diwylliannol ymarferol. I'r gwrthwyneb, roedd diffyg dealltwriaeth o botensial rhai sefydliadau cyhoeddus eraill i gefnogi TDdA yn bryder i rai [Cyf3; Cyf11]. Cyfeiriodd un cyfranogwr at brofiad hanesyddol o weithredu'n ddi-Gymraeg, a gellid dadlau bod profiadau fel hyn yn parhau i liwio canfyddiad unigolion o sefydliadau nad ydynt wedi eu gwreiddio'n lleol [Cyf3].

Gellid dadlau, serch hynny, bod mwy o ystyriaeth erbyn hyn i'r Gymraeg yn yr ymgysylltu o du sefydliadau, ond awgryma'r dystiolaeth nad yw cyfieithu yn unig yn ddigon i feithrin perthynas ystyrlon. Codwyd cwestiynau gan un cyfranogwr ynghylch a yw ymgysylltu dwyieithog yn esgor ar yr un lefel o gydweithio ag ymgysylltu ar wahân yn Gymraeg [Cyf14C], a hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sensitifrwydd diwylliannol yn ogystal â chydymffurfiaeth ieithyddol.

Yn aml, roedd dealltwriaeth cyfranogwyr o rôl sefydliadau cyhoeddus yn cefnogi TDdA wedi'i gyfyngu i gredu mai darparu cyllid yn unig a wnaent [Cyf10]. Er bod grantiau allanol yn gallu hwyluso mynediad a chefnogi ymarferwyr sy'n ddeiliaid TDdA [Cyf1], pwysleisiodd eraill fod gorddibyniaeth ar gyllid allanol yn gallu tanseilio isadeiledd gwirfoddol cymunedau [Cyf9B]. Soniwyd am raglen 'Noson Allan' wedi'i chynnal gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn enghraifft lwyddiannus o safbwynt cefnogi yn hytrach na thanseilio'r isadeiledd cymunedol sy'n sail i ddiwylliant gwledig, gan wneud hynny drwy leihau risg i gymunedau sy'n llwyfannu gweithgareddau diwylliannol. Yn ehangach, awgrymwyd mai polisïau economaidd ac ieithyddol

ffafriol, yn hytrach na chymorth uniongyrchol, sydd yn creu'r amodau i TDdA ffynnu yn y tymor hir [Cyf9A].

Roedd rhai sefydliadau'n ymwybodol o'r tensiynau hyn ac yn ymgysylltu drwy TDdA i gynorthwyo cymunedau i weld perthnasedd polisïau a gweithgareddau i'w profiadau eu hunain, fel mae'r dyfyniad hwn yn ei gyfleu:

"*Ond dwi'n meddwl bod ni 'di dod yn gynyddol empathetig i bobl, gobeithio, dros y blynyddoedd diwetha. Yn hanesyddol, a dwi'n gwybod bod 'na garfan o bobl sydd dal i deimlo'r un fath, mae 'na feirniadaeth 'di bod, "'Da chi'm yn poeni am y bobl sy'n byw yma." A fedra i weld bod hynna wedi digwydd, yn bendant. Ond dwi'n gobeithio bod 'na lai o bobl yn teimlo felly erbyn hyn. A dwi'n meddwl mai un o'r rhesymau maen nhw'n teimlo hynny ydi bod 'na fwy o waith yn digwydd hefo treftadaeth ddiwylliannol a bod pobl yn gallu gweld eu hunain yn y gwaith yna. Nes i sôn wrthot ti o'r blaen bod fi'n gweld o fel drych. Ac os 'di pobl yn gweld eu hunain yn y gwaith ac yn y polisïau, maen nhw'n mynd i fod yn fwy tebygol o fod yn agored i'r agweddau fysa nhw yn arferol ella yn teimlo'n eitha wrth iddyn nhw o ran polisi cynllunio neu fioamrywiaeth." Cyf8*

Fodd bynnag, pwysleisiodd eraill fod gan TDdA werth cynhenid y tu hwnt i hwyluso ymgysylltu, gydag un cyfranogwr yn nodi, er enghraifft, bod gwarchod traddodiadau megis cynefin diadell yn weithgaredd o werth diwylliannol sylfaenol, hyd yn oed pan fo llwybrau rheoli tirwedd "haws" ar gael [Cyf14B].

Mae'r canlyniadau'n awgrymu felly fod angen deall sefydliadau fel rhan o seilwaith diwylliannol cysylltiedig, a hwnnw'n cynnig taith ddiwylliannol barhaus i gymunedau o'r crud i'r bedd [Cyf1, Cyf2]. Fodd bynnag, mae'n holl bwysig bod y gefnogaeth hon yn cynyddu capasiti cymunedol, yn hytrach na'i danseilio. Ymhellach, gellid dadlau bod rôl sefydliadau yn arbennig o bwysig o safbwynt ehangu mynediad gan ei bod yn caniatáu i'r sawl nad ydynt yn meddu ar gysylltiadau teuluol at TDdA dderbyn cyfleoedd. Fodd bynnag, mae ansawdd y berthynas rhwng sefydliadau a chymunedau yn allweddol, gyda'r angen am bresenoldeb parhaus sy'n ystyrlon o flaenoriaethau cymunedau ar lawr gwlad er mwyn sicrhau ymddiriedaeth.

#### *4.1.3.2 Integreiddio TDdA drwy ysgolion a'r cwricwlwm cenedlaethol*

Thema amlwg a godai o ddata'r astudiaeth hon oedd y rôl ganolog a briodolwyd i ysgolion, ac ysgolion cynradd yn arbennig, wrth gefnogi hyfywedd gweithgareddau diwylliannol sy'n cynnwys TDdA. Roedd cyfranogwyr yn gweld ysgolion fel pwyntiau cyswllt allweddol rhwng plant, teuluoedd a bywyd diwylliannol lleol [Cyf11]. Fodd bynnag, awgrymodd un cyfranogwr bod cau ysgolion pentref a sefydlu ysgolion bro yn gallu gwanhau'r cysylltiadau cymunedol lleol iawn a oedd yn hwyluso'r berthynas hon, er gwaethaf y ganmoliaeth ddiamau a roddwyd i waith yr ysgolion bro eu hunain [Cyf4 – cyfweliad dros y ffôn na thrawsysgrifwyd].

Yn y cyswllt hwn, un canfyddiad cyffredin oedd bod y cwricwlwm cenedlaethol cynradd, ynghyd â strategaethau cysylltiedig, yn darparu fframwaith cefnogol ar gyfer sicrhau bod plant yn derbyn profiadau TDdA sy'n berthnasol i'w cyd-destun lleol [Cyf1]. Roedd cyfranogwyr a oedd yn gweithio ym maes addysg yn argyhoeddedig bod y rhyddid a roddwyd i athrawon ddatblygu maes llafur wedi'i wreiddio'n lleol yn galluogi plant i ymgysylltu â TDdA ar garreg eu drws, fel y dangosir yn y dyfyniad isod:

"*O ran y cwricwlwm newydd, dyna be sy'n neis o ran y Cwricwlwm Cymraeg newydd ydi, fel pennaeth neu fel athrawes, dwi'n cael dewis y llwybrau dysgu dwi eisiau. Dydi o ddim yn deud, o, mae'n rhaid i ni ddysgu am y Celtiaid neu'r Rhufeiniaid. Dwi'n dewis y trywydd dysgu dwi eisiau neud. Jyst bod y sgiliau yn cael eu cyfro, galla i neud unrhyw beth dwi eisiau. Llynedd naethon ni neud thema gyfan ar "Yma rwyf innau i fod". Wel, yr hanes oedd chwedlau lleol, llên gwerin, edrych ar eglwysi'r ardal, hanes yr ardal.*" *Cyf2*

Mae'r canlyniadau hyn yn adleisio dadleuon mewn llenyddiaeth ryngwladol bod systemau addysg yn gallu chwarae rhan bwysig wrth gefnogi trosglwyddo TDdA a chryfhau ymlyniad at gymuned a lle (Xue, 2026). Serch hynny, er bod y cwricwlwm yn cael ei ystyried yn fecanwaith cefnogol, nodwyd bod disgwrs gymdeithasol ehangach yn parhau i flaenoriaethu diwylliannau hegemonaidd, gan danseilio diwylliannau lleol o ganlyniad [Cyf9A]. Yn hyn o beth, gellid deall y cwricwlwm cenedlaethol fel dull sy'n gwrthbwyso hyn, gan gynnig cyfleoedd strwythuredig i feithrin sgiliau, gwybodaeth am leoliad ac ymdeimlad o berthyn. Fodd bynnag, awgrymodd un cyfranogwr bod y potensial hwn yn llai amlwg yn y sector uwchradd, gan fod pwysau asesiadau, trefniadaeth pynciau a chyfyngiadau'r amserlen o bosib yn cyfyngu ar y math o ymgysylltiad parhaus a ystyrir yn hanfodol i gynnal TDdA leol [Cyf9A]. Awgryma hyn bod y cyfrifoldeb o hyrwyddo TDdA y tu allan i'r teulu yn cael ei ysgwyddo gan y sector sefydliadol a chymunedol ar ôl 11 oed, gan gyfyngu ar daith ddiwylliannol plant a phobl ifanc.

Yn gysylltiedig â hyn, soniwyd yn aml am y berthynas annatod rhwng iaith a TDdA, gyda'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn allwedd at TDdA. Heb gyfleoedd i gaffael yr iaith, dadleuwyd fod plant yn cael eu hamddifadu o brofiadau dyfnach a mwy ystyrlon o TDdA [Cyf9A]. Trafodir y berthynas hon rhwng y Gymraeg a TDdA yn fanylach yn nes ymlaen.

#### *4.1.3.3 Adnabod, mesur a chefnogi TDdA drwy bolisi*

Roedd rhanddeiliaid proffesiynol a oedd yn gweithio gyda TDdA yn argyhoeddedig fod angen fframwaith polisi effeithiol er mwyn darparu cefnogaeth strwythurol ar gyfer TDdA [Cyf8]. Fodd bynnag, thema gyson gan rai rhanddeiliaid oedd bod yna heriau sylweddol o ran adnabod a chofnodi TDdA, yn enwedig wrth geisio sicrhau cynrychiolaeth deg a chonsensws mewn cyd-destunau gwledig amrywiol, fel yr awgryma'r dyfyniad canlynol:

"*We know that vibrant communities are a key feature, but we're conscious that that can mean lots of different things. You know, it can mean [a] really active bowls club, but that the Chapel is no longer functioning. So it's changing, isn't it? So we're trying to sort of identify, you know, what it is we value and I think it's [...] probably very difficult [...] to get a consensus, because you know, you might as well say no, the Plygain is what we value in this community and the community well, not really. You know, we'd rather, you know, have a bowls club, but that's because that community has changed, so we need to sort of understand that and try [to] find areas we can hang on to these bits of intangible heritage.*" *Cyf14A*

Mae hyn yn awgrymu'r angen am ddulliau addas ar gyfer adnabod a chofnodi TDdA. Fel y soniwyd eisoes, mae yna broses ar y gweill ar hyn o bryd i adnabod arferion TDdA i'w cynnwys ar restr genedlaethol UNESCO. Awgryma hyn bod angen gwerthuso effeithiolrwydd a defnyddioldeb y broses hon wrth symud ymlaen i gynllunio sut y dylid hyrwyddo TDdA yn y tymor hir.

Yn ogystal â heriau adnabod, cwyd anawsterau wrth geisio deall a mynegi gwerth TDdA. Soniodd un cyfranogwr am yr angen i gasglu data ar werth economaidd a chymdeithasol diwylliant er mwyn cyfiawnhau buddsoddiad [Cyf13]. Yn ategol, roedd eraill yn pwysleisio bod mesur hyfywedd TDdA yn gymhleth ac yn her barhaus, gan nad yw dulliau monitro bob amser yn adlewyrchu profiadau byw [Cyf8; Cyf14A]. Ymhellach, ystyriai un cyfranogwr fod canfyddiadau cymunedol yn fesurau allweddol, ond bod yna anhawster ymarferol o'u casglu mewn modd dibynadwy [Cyf8].

Hyd yn oed pan gaiff TDdA ei hadnabod a'i mesur, mae diffyg eglurder strategol yn parhau i rwystro gweithredu effeithiol. Nododd un cyfranogwr bod rôl diwylliant yn gallu bod yn annelwig mewn partneriaethau strategol, er gwaethaf gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [Cyf13] a bod natur ranedig sefydliadau mwy o faint yn arwain at ddiffyg strategaethau integredig ar gyfer diwylliant [Cyf13]. I'r gwrthwyneb, cred bod achos Bradford, fel dinas diwylliant, yn dangos potensial dull lle mae diwylliant yn ganolog ar draws pob maes polisi [Cyf8; Cyf13]. Erys yr angen i ystyried sut fyddai model o'r fath yn edrych mewn cyd-destun gwledig.

Yn ei chyfanrwydd, dengys y dystiolaeth bod adnabod, mesur a chefnogi TDdA drwy bolisi yn fecanwaith hollbwysig er mwyn creu'r amodau lle gall yr arferion hyn ffynnu yn y tymor hir.

*4.1.3.4 Buddsoddi ariannol ac adnoddau*

Thema gyson ymhlith rhanddeiliaid sefydliadol ac ymarferwyr proffesiynol oedd diffyg buddsoddiad dros y blynyddoedd diwethaf yn y sector diwylliannol, gan ddisgrifio hyn yn rhwystr strwythurol sylweddol i hyfywedd TDdA. Dadleuwyd bod blynyddoedd o danariannu wedi tanseilio isadeiledd diwylliannol lleol, a bod atal cyllid ar gyfer prosiectau a sefydliadau a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol wedi cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer trosglwyddo ac ehangu mynediad [Cyf7; Cyf13]. Yn y cyswllt hwn, pwysleisiwyd nad yw polisi cefnogol, ar ei ben ei hun, yn ddigon heb adnoddau cyfatebol i'w weithredu'n ymarferol [Cyf13].

Ar lefel gymunedol, roedd trefnwyr gwirfoddol a chyllidwyr yn pwysleisio gwerth symiau cymharol fach o arian wrth leihau risg ariannol ac ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol [Cyf13]. Nodwyd bod cyllido hyblyg fel hyn yn galluogi grwpiau i wireddu eu hamcanion eu hunain heb ormod o ymyrraeth na baich adrodd. Mewn cyferbyniad, cydnabuwyd bod grantiau mwy o faint yn aml yn cael eu llywio gan flaenoriaethau strategol cyllidwyr, nad ydynt bob amser yn cyd-fynd â nodau grwpiau cymunedol, fel yr eglura'r cyfranogwr isod:

"*A lot of changes in culture, especially from a landscape perspective, happen [through] initiatives driven by funding. You know from a farming perspective, you know farmers change their practices to conform to funding streams because they're reliant on those funding streams unfortunately. So that's changed landscape in a particular way. And I think you can see it as well with things like events and stuff, you know. Like, oh, well, you know, to be eligible for funding for this event, you have to host so many activities for yeah, x group, y group and whatever. So it does change and I think that's just the way we are now because we're all so reliant on funding. [...] No, not many things are self-sustaining.*" *Cyf14B*

Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut i gydbwyso amcanion sefydliadol neu genedlaethol gyda blaenoriaethau lleol, a phwysigrwydd cynnal capasiti ac annibyniaeth cymunedau. Gellid

dadlau bod yna gyfle fan hyn i ddatblygu meini prawf cyllido a fframweithiau gwerthuso sy'n cydnabod yr angen i gefnogi'r prosesau sy'n greiddiol i gynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA ynghyd â gwytnwch cymunedau gwledig.

Er bod sefydliadau mwy o faint yn gweld yr aliniad hwn yn anochel wrth geisio am nawdd sylweddol, nodwyd fod cylchoedd cyllido byr yn creu ansicrwydd a llwyth gweinyddol ychwanegol ar draws lefelau micro, meso a macro [Cyf8; Cyf10]. At ei gilydd, dengys y data fod natur, hyd a hyblygrwydd buddsoddiad yn ganolog i hyfywedd TDdA, ac mai cyllido hirdymor, sy'n sensitif i flaenoriaethau lleol, yw'r allwedd i gryfhau isadeiledd diwylliannol cynaliadwy.

**Canlyniad 1:** Mae'r prosesau sy'n cefnogi TDdA yn ffurfio ecosystem integredig sy'n gweithredu ar draws lefelau micro (unigol neu leol iawn), meso (sefydliadol neu ranbarthol) a macro (strwythurol neu genedlaethol) (Serpa a Ferreira, 2019). Mae'r system hon yn fregus mewn sawl man allweddol, gan gynnwys seilwaith gwirfoddoli, gwytnwch deiliaid ac ymarferwyr TDdA ac isadeiledd cymunedol, ac oherwydd ei natur o gyd-ddibyniaeth, gall dirywiad mewn un elfen danseilio eraill. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd i brosesau cadarnach, megis integreiddio TDdA drwy'r cwricwlwm addysg a thargedu buddsoddi mewn prosiectau, gefnogi prosesau llai gwydn fel trosglwyddo teuluol a dysgu trwy brofiad. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar draul creu'r amodau ffafriol sy'n hanfodol ar gyfer cynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA drwy ddulliau mwy traddodiadol. Yn sgil hyn, gellid dadlau bod cyfleoedd clir i bolisi gefnogi'r prosesau sy'n sylfaenol i gynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA yng Nghymru wledig. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen i bolisi fabwysiadu persbectif system-gyfan sy'n ystyried y berthynas rhwng y mecanweithiau hyn a'r cyd-destun lle maent ar waith ynddo.

## 4.2 Ffactorau sy'n Galluogi ac yn Rhwystro Prosesau Cynhyrchu ac Atgynhyrchu TDdA

Uchod trafodwyd y prosesau cyd-ddibynnol sy'n gweithredu ar draws lefelau i gynnal TDdA yng Nghymru wledig. Yn yr adran sy'n dilyn, byddwn yn ystyried y tensiynau trawstoriadol sy'n rhyngweithio â'r prosesau hyn.

### 4.2.1 Y Gymraeg

Thema amlwg a thrawstoriadol yn yr astudiaeth hon oedd y berthynas aml-ddimensiynol rhwng TDdA a'r Gymraeg, a honno'n rhyngweithio â nifer helaeth o'r prosesau a nodwyd uchod. Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth hon yn ymwybodol iawn o'r shifft ieithyddol sydd wedi digwydd dros amser ledled eu hardaloedd, ac yn ystyried hyn yn ffactor allweddol wrth fyfyrio ar ddyfodol TDdA [Cyf3; Cyf7]. Credid fod y Gymraeg yn parhau'n gyfrwng nifer fawr o weithgareddau cymunedol, er hyn roedd cyfranogwyr o'r farn fod dwyieithrwydd yn dod yn fwy cyffredin mewn sefyllfaoedd a oedd yn cynnwys ysgolion, a theuluoedd di-Gymraeg. Codai hyn densiwn parhaus rhwng bod yn gynhwysol a'r awydd i gynnal peuoedd Cymraeg eu hiaith, fel y trafodir eto yn nes ymlaen [Cyf3]. Yr hyn sy'n amlwg o'r data yw bod y Gymraeg yn ystyriaeth sy'n agos iawn at yr wyneb mewn trafodaethau am TDdA, ac yn elfen yr oedd cyfranogwyr yn awyddus iawn i'w gwarchod.

Mae'r data'n tynnu sylw at berthynas gyd-ddibynnol glir rhwng y Gymraeg a TDdA. Ar y naill law, ystyriai cyfranogwyr fod y Gymraeg yn gyfrwng i gyfleu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth

ddyfnach o'r traddodiadau, gan gynnwys enwau lleoedd ac enwau am natur [Cyf14A]. Ar y llaw arall, credant fod TDdA yn darparu fframwaith cymdeithasol a chymunedol allweddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg – gan gynnwys cynnig cyfleoedd i siaradwyr newydd. Roedd y gyd-ddibyniaeth hon i'r fath raddau nes bod un cyfranogwr yn dadlau na fyddai'r Gymraeg wedi goroesi yn yr ardaloedd hyn heblaw am yr arferion diwylliannol dan sylw [Cyf9A]. Mynegwyd y berthynas hon yn eglur gan un cyfranogwr: "Mae'r iaith yn hollol wedi plethu trwyddo fo. Galli di ddim gwahanu nhw yn pen fi." [Cyf9B]. Yn hyn o beth, gellid dadlau bod yr iaith Gymraeg nid yn unig yn "gerbyd" ar gyfer TDdA, ond hefyd yn ei "yrru" (Nic Craith a McDermott, 2025, t. 76).

Yn yr un modd, mae'r berthynas annatod hon yn codi cwestiynau pwysig ynghylch natur TDdA ddi-Gymraeg yng Nghymru [Cyf13]. Nid yw'r data a gasglwyd yn cynnig digon o fewnwelediad i'r agwedd hon, gan awgrymu bod hwn yn faes sy'n haeddu sylw ymchwil pellach yn y dyfodol.

Canfyddiad cyffredin ymysg y cyfranogwyr oedd bod TDdA a'r Gymraeg, fel ei gilydd, dan bwysau. O ystyried rhyngberthynas y ddau endid yng nghyd-destun yr astudiaeth achos hon, gellid dadlau bod dirywiad un elfen yn debygol o gael effaith andwyol ar y llall [Cyf1]. Roedd nifer yn cysylltu dirywiad yn y Gymraeg a TDdA â mewnlifiad gan eu bod weithiau'n anodd denu newydd-ddyfodiad i gefnogi gweithgareddau TDdA, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg [Cyf7].

Dadleuai un cyfranogwr fod modd gwerthfawrogi rhai arferion TDdA heb fedrusrwydd yn y Gymraeg [Cyf9], tra bod eraill o'r farn fod yr iaith yn allweddol i gymryd rhan yn llawn a chael mynediad ystyrlon. Mae'r cyfranogwr isod yn ymhelaethu ar hyn:

"*Dwi'n meddwl bod bywyd rhywun yn gymaint fwy cyfoethog yn yr ardal hon os 'dyn nhw'n gallu siarad Cymraeg. Felly mae 'na ddiddordeb hunanol i allu siarad Cymraeg, achos 'da ni i gyd yn gwybod mai prin iawn ydi'r cymunedau 'na yng Nghymru erbyn hyn ble ti methu functionio os ti ddim yn siarad Cymraeg. Ond o ran mwynhad ac o ran gallu atgynhyrchu a phrofiadau diwylliannol a chelfyddydol ac yn y blaen a dod i adnabod pobl yn eu hiaith eu hunain, mae'n amlwg i mi fod 'na fantais i fod yn siarad Cymraeg. Ac mae 'na ymdrechion yn cael eu gwneud i groesawu pobl sydd ddim yn siaradwyr Cymraeg i'r ardal. Mae 'na gyfleon i ddysgu Cymraeg hefyd. Dwi'n meddwl bron bod rhaid i'r unigolyn holi iddyn nhw eu hunain, "Wel, ydw i'n gallu byw bywyd llawn yn Nyffryn Banw os dwi ddim yn siarad Cymraeg?" Dwi'n gwybod bod o'n wleidyddol sensitif, ond 'swn i'n dod i'r canlyniad bod ti ddim rili." Cyf1*

Ymhelaethir ymhellach ar y berthynas rhwng y Gymraeg a TDdA yn nes ymlaen yn yr adroddiad wrth drafod y modd mae cymunedau'n addasu ac yn esblygu er mwyn ehangu mynediad a sicrhau ymdriniaeth sy'n gynhwysol, ac ar yr un pryd yn cydbwyso'r ymdrechion hyn â'r dyhead i warchod amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol.

Felly, er bod modd ymgysylltu â TDdA yng Nghymru wledig heb sgiliau iaith Gymraeg, ymddengys fod dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg yn cynnig modd o ymgysylltu'n llawnach, ac mewn modd mwy ystyrlon.

**Canlyniad 2:** Mae cydberthynas agos rhwng y Gymraeg a TDdA yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, a cheir tystiolaeth bod hyfywedd rhai mathau o TDdA yn dibynnu ar yr amodau sy'n galluogi'r Gymraeg i barhau fel iaith gymunedol fyw, ac i'r gwrthwyneb. Yn ogystal â bod yn gyfrwng ar gyfer arferion TDdA, dengys y data bod cymunedau hefyd yn ystyried iaith fel endid

sy'n "gyrru" arferion. Ymhellach, awgryma'r data bod mynediad lawn at TDdA yn y cyswllt hwn yn dibynnu ar y cyfleoedd sydd ar gael i drigolion gaffael y Gymraeg. Fodd bynnag, cydnabyddir nad oes efallai cydberthynas gyfatebol rhwng pob math o TDdA a'r Gymraeg ym mhob ardal o Gymru ac erys yr angen am ymchwil pellach. Er gwaethaf hyn, dengys y dystiolaeth na ddylid tanseilio na diystyru'r berthynas greiddiol hon sy'n nodweddiadol o rai cymunedau gwledig yn y drafodaeth bolisi ehangach.

### 4.2.2 Addasu ac esblygu

Thema drawstoriadol arall a nodwyd oedd yr addasu a'r esblygu sy'n brif fecanwaith ar gyfer galluogi parhad TDdA, gan sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol mewn cyd-destunau cymdeithasol sy'n newid. Mae hyn yn adleisio consensws ehangach yn y llenyddiaeth fod TDdA yn broses ddeinamig sy'n cael ei hail-greu'n barhaus mewn ymateb i amgylchiadau newidiol (UNESCO, 2003; Bortolotto, 2007). Dengys y dystiolaeth fod addasu ac esblygu yn cefnogi cynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA drwy weithredu ar draws gwahanol lefelau a chyd-destunau, ac felly'n chwarae rôl gefnogol allweddol i ystod o brosesau TDdA.

Cydnabu cyfranogwyr fod y broses hon yn anorfod wrth i gymunedau ymateb i newidiadau demograffig, pwysau cymdeithasol ac anghenion cyfoes. Fel y nododd un cyfranogwr:

"*A dwi 'di gweld llanw a thrai, galli di gredu, dros y blynyddoedd sut mae pethau wedi newid. Ond mae 'na ddiwylliant yn dal i barhau yma.*" *Cyf3*

Serch hyn, dengys y data nad yw addasu'n digwydd yn fyrbwyll; yn hytrach, roedd yn broses o drafod a phwyso a mesur agweddau gwahanol er mwyn gwahaniaethu rhwng yr elfennau a ystyrir yn hyblyg a'r rhai a ystyrir yn greiddiol.

Mae enghraifft gan fudiad y Ffermwyr Ifanc yn dangos sut y cydbwyswyd amcanion cynhwysiant â hunaniaeth hanesyddol, sef drwy gadw enw'r mudiad fel symbol diwylliannol er nad oedd bellach yn ddisgrifiad 'cywir' o'r aelodaeth sydd erbyn hyn yn llawer ehangach na phlant i ffermwyr yn unig [Cyf12]. Yn yr achos hwn, penderfynwyd yn fwriadus i esblygu drwy ehangu mynediad at aelodaeth, ond yn yr un modd roedd hefyd yn benderfyniad bwriadus i beidio ag addasu enw'r mudiad gan ei fod yn rhan o dreftadaeth a hunaniaeth y mudiad. Yn achos eisteddfodau lleol, cafwyd enghreifftiau o addasu newidiadau trefniadol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd [Cyf3]. Cyfeiriwyd at achos penodol o fwriad pwyllgor i ymgysylltu â menter breifat leol a oedd yn hyfforddi plant ym maes cerddoriaeth. Er bod y busnes hwn yn gweithredu drwy'r Saesneg, roedd y pwyllgor yn rhesymu gan fod cystadlaethau offerynnol yr eisteddfod heb iaith, y gellid cynnwys cystadleuwyr di-Gymraeg mewn cystadlaethau offerynnol heb ddisodli cyfrwng Cymraeg yr eisteddfod [Cyf4 – cyfweliad dros y ffôn na thrawsysgrifwyd]. Ymddengys felly bod cymunedau yn ymwybodol o'r angen i addasu er mwyn goroesi, fodd bynnag, gwneir hyn yn ofalus er mwyn sicrhau hanfod yr arferiad.

Dengys y data bod pandemig Covid-19 wedi bod yn gatalydd ar gyfer addasu cyflym, gyda gweithgareddau megis plygain a sioeau amaethyddol yn symud ar-lein, sy'n cyd-fynd â thuedd a nodwyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, a Chyfathrebu'r Senedd (2020) [Cyf9B; Cyf11]. Fodd bynnag, tra bod cynnig profiadau ar y we wedi ehangu mynediad ac ymwybyddiaeth, collwyd yn aml yr elfen gymdeithasol sy'n ganolog i TDdA, ac mae'n bosib bod hyn yn esbonio pam fod

gweithgareddau, ar y cyfan, wedi dychwelyd at fod yn rhai byw ers llacio cyfyngiadau'r pandemig. Fodd bynnag, gellid dadlau bod amgylchiadau lled unigryw'r pandemig wedi meithrin capasiti newydd mewn cymunedau yn ymwneud â hyrwyddo digwyddiadau. Er enghraifft, cyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau o dechnoleg yn cael ei ddefnyddio i ennyn diddordeb, ehangu mynediad, a chofnodi arferion TDdA [Cyf9B], a hyn yn cyd-fynd â honiadau ysgolheigion eraill (Richards, 2026; Young et al. 2017) y gall technoleg cynnig atebion ar gyfer heriau cyfoes. Fodd bynnag, roedd risgiau ynghlwm â'r gweithredoedd hyn wrth i arferion cael eu hailddehongli, os nad eu cam-ddehongli gellid dadlau, tu allan i'w cyd-destun gwreiddiol [Cyf7], pwynt sy'n cael ei ategu gan De Figueiredo (2015) sy'n nodi'r perygl o danseilio cof cyfunol.

Roedd addasu ymarferol hefyd yn amlwg drwy lacio rheolau a newid lleoliadau er mwyn denu cyfranogwyr newydd, yn enwedig pobl ifanc [Cyf1; Cyf9B]. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at densiynau yn ymwneud â dilysrwydd [Cyf9B]. Cynigwyd enghraifft o hyn yng nghyswllt y traddodiad plygain; eglurwyd nad yw'n arferol i glapio mewn plygain, gan ei fod yn wasanaeth. Fodd bynnag, pan mae plant yn dod i ganu, mae'r gynulleidfa yn dueddol o roi cymeradwyaeth ac o ganlyniad yn gosod cynsail i glapio drwy gydol y gwasanaeth a hynny'n codi gwrychyn rhai unigolion. Mewn achosion fel hyn, roedd y cyfranogwr yn rhesymu mai'r hyn oedd yn bwysig yn y cyd-destun hwn oedd rhoi arweiniad clir, er mwyn tynnu'r ansicrwydd. Mae'r enghraifft hon yn cyfleu'r modd y mae addasu yn digwydd yn gyson a pharhaus, ond bod tensiynau ynghlwm â hyn sy'n cael eu cyd-drafod o fewn cymunedau wrth ddod o hyd i ffordd ymlaen.

**Canlyniad 3:** Mae cymunedau'n ystyried bod addasu ac esblygu yn hollbwysig er mwyn sicrhau parhad arferion TDdA yn sgil heriau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn yn cael eu deall fel *fait accompli*, ond yn hytrach eu bod yn brosesau cymdeithasol lle mae cymunedau'n trafod, yn dadlau ac yn cyrraedd consensws ynghylch pa addasiadau sy'n cael eu hystyried yn ddilys neu'n briodol. Yn hyn o beth, dengys y dystiolaeth fod parhad TDdA yn gysylltiedig â gallu cymunedau i wneud penderfyniadau ar y cyd am gyfeiriad a ffiniau addasu, yn hytrach na mabwysiadu newidiadau wedi'u diffinio'n allanol.

### 4.2.3 Cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol

Thema drawstoriadol amlwg iawn o fewn y data oedd ystyriaethau yn ymwneud â chynhwysiant a chynnal amrywiaeth ddiwylliannol. Yn aml, tarddai hyn o'r dyhead i sicrhau parhad gweithgareddau drwy feithrin cyfranogiad ehangach. Fodd bynnag, dengys y data fod risgiau'n gysylltiedig â'r broses hon mewn perthynas â chynnal amrywiaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg. Yn hyn o beth, ceir cysylltiadau amlwg â'r adrannau blaenorol sy'n trafod themâu'r Gymraeg ac Addasu ac Esblygu. Ymhellach, rhaid cadw mewn cof fod yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar TDdA mewn cyd-destun penodol sef digwyddiadau cyfranogol drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n deillio o gyd-destun hanesyddol penodol; o ganlyniad, erys yr angen i fynd ati i archwilio materion cynhwysiant ac amrywiaeth mewn TDdA a diwylliannau gwledig eraill.

Dengys y data fod rhwydweithiau cymunedau gwledig yn aml yn agos ac yn seiliedig ar berthnasau teuluol a chymdeithasol hirsefydlog. Tra oedd hyn yn alluogwr effeithiol ar gyfer trosglwyddo TDdA, fel sydd eisoes wedi ei drafod, ar yr un pryd roedd cyfranogwyr o'r farn y gall hefyd eithrio'r sawl nad ydynt yn rhan ganolog o'r rhwydweithiau hyn [Cyf1; Cyf6; Cyf9B], a hyn

yn cyd-fynd â'r llenyddiaeth ehangach (e.e. Hersland, 2020). Mae'r adran hon, felly, yn canolbwyntio ar y tensiynau rhwng ehangu mynediad a chynnal amrywiaeth ddiwylliannol.

Nodwyd grwpiau penodol i fod yn rhai oedd mewn perygl o gael eu hymyleiddio o weithgareddau diwylliannol – yn aml, roedd cyfranogwyr cymunedol yn canolbwyntio ar newydd-ddyfodiaid a siaradwyr di-Gymraeg, tra bod rhanddeiliaid y sector wedi cyfeirio at grwpiau ehangach megis pobl LGBT+ a phobl ifanc. Adroddwyd bod sefydliadau a chymunedau fel ei gilydd yn ceisio ymateb yn rhagweithiol drwy greu llwybrau mynediad mwy cynhwysol [Cyf13]. Roedd deiliaid ac ymarferwyr TDdA a gwirfoddolwyr yn enwedig yn cydnabod bod cynnal arferion TDdA yn y dyfodol yn dibynnu ar groesawu pobl newydd, ac o ganlyniad credwyd bod addasu'n angenrheidiol, fel y mae'r cyfranogwr isod yn ei egluro:

"*Ia. 'Da chi'n gorfod croesawu pobl newydd i'r traddodiad. Gallwch chi ddim jyst deud, "O, 'da chi erioed 'di canu o'r blaen. Gewch chi ddim dod." Achos dyna ydi'r ffordd o warantu marwolaeth rhywbeth. 'Da ni'n gorfod dal ati i adnewyddu'r diwylliant trwy gynnwys pobl newydd i mewn i'r diwylliant o hyd." Cyf9*

Fodd bynnag, mae ehangu mynediad yn codi heriau. Roedd y data'n awgrymu bod cyflwyno syniadau a phobl newydd yn gallu herio'r ffyrdd traddodiadol o drefnu a chynnal gweithgareddau. Er bod cydnabyddiaeth glir fod syniadau newydd yn cefnogi parhad, roedd hefyd ganfyddiad fod perygl yn gysylltiedig â syniadau a ddatblygwyd heb ddealltwriaeth lawn o'r cyd-destun a natur benodol y TDdA [Cyf11; Cyf10]. Enghraifft amlwg oedd ehangu aelodaeth pwyllgorau sy'n trefnu gweithgareddau diwylliannol, a hynny'n arwain at newid anfwriadol yn iaith gwaith y pwyllgor o'r Gymraeg i'r Saesneg [Cyf11]. O gofio'r rhyngberthynas agos rhwng y Gymraeg a TDdA, fel y trafodwyd eisoes, dengys y data y gall newid iaith amharu ar y cyd-destun diwylliannol lle mae TDdA yn cael ei gynhyrchu a'i atgynhyrchu. Weithiau teimlai'r newid hwn yn anorfod, ond yn un yr oedd aelodau yn gresynu ato.

Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr, ar y llaw arall, nad oedd angen newid iaith neu ffurf gweithgaredd er mwyn bod yn gynhwysol. Dadleuwyd bod y Gymraeg a ffurf wreiddiol yr arfer yn rhan annatod o'r profiad dilys, ac y gall cyfranogwyr di-Gymraeg drochi yn y profiad hyd yn oed heb ddeall pob gair [Cyf13; Cyf3]. Yn y cyd-destun hwn, awgrymwyd bod angen peuoedd neu "ofodau anadlu" (Fishman, 1991) ar gyfer grwpiau penodol er mwyn diogelu ieithoedd ac arferion TDdA lleiafrifiedig, ac nad oedd hyn o reidrwydd yn tynnu'n groes i gynhwysiant, ond yn hytrach yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol, fel yr eglura'r cyfranogwr isod:

"*Ond mae 'na densiwn yn fanna oherwydd petai ti'n bod yn hollol gynhwysol ac yn deud, "Reit, nawn ni gynnal y ddarpariaeth yma'n ddwyieithog," be ti'n neud mewn gwirionedd ydi disodli'r Gymraeg a dyrchafu'r Saesneg. Achos 'da ni'n gwybod o ran jyst grymoedd byd-eang bod y Saesneg fel iaith yn naturiol yn mynd i gymryd drosodd. Felly dwi'n meddwl bod hi'n bwysig bod ni ddim yn meddwl bod cynhwysiant yn gorfod golygu bod yn bopeth i bawb o hyd a bod hi'n iawn i ni gael peuoedd sydd ar gyfer grwpiau o bobl. Gall hynny fod yn fenywod fel Merched y Wawr. Gall fod yn bobl ifanc fel Ffermwyr Ifanc. Ac mae'r Gymraeg yn yr achos yma yn fodd o ddod â phobl at ei gilydd, yn annog siaradwyr newydd i ddod i ddysgu neu i wella ac i sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg." Cyf1*

Ar yr un pryd, cydnabuwyd bod gweithgareddau dwyieithog neu fersiynau Saesneg o rai digwyddiadau yn gallu bod yn briodol mewn cyd-destunau penodol. Cyfeiriwyd, er enghraifft, at Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc fel digwyddiad dwyieithog a oedd yn cynnig porth i'r sawl nad oedd ganddynt sgiliau Cymraeg i gael blas ar ddiwylliant eisteddfodol [Cyf12].

Mae tensiynau tebyg hefyd yn codi ynghylch perchnogaeth ddiwylliannol. Amlygwyd enghraifft o ehangu mynediad yn arwain at ddatgysylltu arferion oddi wrth eu cyd-destun gwreiddiol, megis yn achos cystadlaethau plygu gwrych lle'r oedd ychydig iawn o ffermwyr lleol bellach yn cystadlu, gyda'r rhan fwyaf o gystadleuwyr erbyn hyn yn wirfoddolwyr neu'n gweithio mewn maes cadwraeth [Cyf14A]. Ceir risg, yn ôl De Figueirdo, y gall datgysylltu arferion o'u cyd-destun arwain at "the emptying of sense of the cultural meaning" (2015, t. 1038 a 1045), er y gellid dadlau, ar yr un pryd, bod ystyron diwylliannol newydd yn cael eu creu. Yn yr un modd, mae traddodiadau fel y Plygain yn amlygu ymdeimlad hanesyddol o berchnogaeth deuluol dros garolau penodol [Cyf9; Cyf16]. Gellid dadlau bod hyn yn llai perthnasol erbyn hyn, gan fod y broses o gofnodi a chyhoeddi eisoes wedi ehangu mynediad gan wanhau hawliadau teuluol, a hynny ynddo'i hun yn tanlinellu'r pwynt bod ehangu mynediad yn gallu gwanhau ymdeimlad o berchnogaeth. Roedd materion yn ymwneud â pherchnogaeth hefyd i'w gweld mewn penderfyniadau ynghylch hyfforddiant sgiliau traddodiadol, lle blaenoriaethir hyfforddi pobl leol er mwyn sicrhau bod y sgiliau'n aros yn yr ardal lle defnyddir y sgiliau hyn yn draddodiadol, a'r cymunedau hynny yn cael budd economaidd a diwylliannol o'r profiad [Cyf8]. Mae'r enghreifftiau hyn yn cyfleu cymhlethdod y teimlad o berchnogaeth, sydd ar yr un llaw yn cyfrannu tuag at gynnal gwybodaeth gyd-destunol ystyrlon, ond ar y llaw arall yn medru arwain at allgáu cymdeithasol. Mae hyn yn amlygu her amlwg i bolisi.

**Canlyniad 4**: Er mwyn sicrhau parhad, cydnabyddir mai cam hanfodol a phwysig yw ehangu mynediad at TDdA, yn enwedig o blith pobl ifanc, ac mae rôl sefydliadau yn arbennig o allweddol wrth greu prosesau trosglwyddo amgen a chynhwysol. Fodd bynnag, mae heriau wrth ymdrechu i ddiogelu amrywiaeth ddiwylliannol lle parchir yr wybodaeth gyd-destunol a'r ymrwymiad sy'n rhan annatod o arferion traddodiadol, a dadleir mewn rhai achosion bod "gofodau anadlu" diwylliannol ac ieithyddol yn briodol, sef mannau lle gall arferion diwylliannol ac ieithyddol barhau heb bwysau allanol. Mae cymunedau a sefydliadau fel ei gilydd yn ymdrechu i gyd-bwyso'r ystyriaethau hyn.

### 4.2.4 Amodau ffafriol ac anffafriol

Thema drawstoriadol amlwg arall ymhlith cyfranogwyr oedd dylanwad ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach ar hyfywedd TDdA, wrth i nifer gredu bod cynnal TDdA yn dibynnu ar amodau cymdeithasol ffyniannus, fel y dywed y cyfranogwr isod:

"*Mae polisi economaidd, tai, gwaith iaith ac yn y blaen yn amlwg yn mynd i fod yn bwysig oherwydd heb waith, 'sgen ti'm cymuned. Heb gymuned, mae hi'n anoddach i atgynhyrchu profiadau diwylliannol diwylliedig. Mae'n anoddach osgoi dylifiad dawn ac yn anoddach perswadio pobl i aros yn eu cymunedau. Felly mae gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn bwysig iawn hefyd o ran polisi. So 'sŵn i'n deud bod 'na sawl maes polisi yn cydblethu i ddylanwadu ar yr agenda yma.*" *Cyf1*

Ymddengys yng nghyd-destun Cymru wledig bod cyfranogwyr yn deall pa mor berthnasol yw strwythurau cymdeithasol ac economaidd i hyfywedd TDdA. Yn hyn o beth mynegwyd pryder sylweddol ynghylch y sefyllfa dai yng nghefn gwlad Cymru. Roedd rhai yn cysylltu hyn â natur echdynnol rhai mathau o dwristiaeth; cyfeiriwyd, er enghraifft, at droi cartrefi lleol yn llety gwyliau yn ystod y pandemig, gan wanhau sefydlogrwydd cymunedau [Cyf7]. Canlyniad yr ‘argyfwng tai’, yn ôl cyfranogwyr, oedd newidiadau demograffig a oedd yn cyfyngu ar y capasiti gwirfoddol sydd i gynnal gweithgareddau yn lleol [Cyf9B; Cyf9B]. Roedd prinder cyfleoedd gwaith lleol hefyd yn bryder amlwg i drigolion, gan gredu bod yr angen i drafaelu pellteroedd hir yn lleihau’r amser a’r egni sydd gan drigolion i gyfrannu at weithgareddau diwylliannol gyda’r nos [Cyf3; Cyf12]. O ganlyniad, mynegwyd pryder ynghylch diffyg unigolion sydd wedi’u trwytho yn niwylliant a gwerthoedd cymunedol yr ardal i gynnal TDdA yn y tymor hir [Cyf3].

Ychwanegwyd at yr heriau hyn gan ddarpariaeth wael trafnidiaeth gyhoeddus [Cyf8], er bod rhai’n awgrymu y gall rhwystrau strwythurol fel hyn feithrin gwytnwch ac ymroddiad ymhlith cyfranogwyr [Cyf10]. Yn ehangach, aeth unigolion ati i sôn am eu profiad byw o ran sut yr oedd systemau strwythurol a heriau ehangach megis polisïau amaethyddol, argyfwng diciâu gwartheg, a globaleiddio yn effeithio’n anuniongyrchol ar hyfywedd TDdA [Cyf1; Cyf14A]. Nodwyd bod twristiaeth yn ddylanwad arwyddocaol yn ogystal, gyda nifer yn honni ei fod yn ddinistriol i hyfywedd cymunedau. Fodd bynnag, dadleuai eraill, yn hytrach na gwrthod twristiaeth yn gyfan gwbl, y dylid ail-lunio’r economi ymweld drwy hyrwyddo math o dwristiaeth sydd wedi’i gwreiddio mewn diwylliant lleol ac sy’n denu ymwelwyr sy’n dangos parch ac yn ymddiddori mewn profiadau diwylliannol, fel y mynegir gan y cyfranogwr isod:

“*Dwi’n meddwl fod dyddiau twristiaeth fel ag y mae hi yn gorfod cael ei gymedroli, mewn ffordd. A dwi’n meddwl bod ’na fwy o gyfiawnhad i dwristiaeth gyfrannol yn hytrach na thwristiaeth echdynnol. Hynny yw, ’wyrach ’da chi ddim yn teithio i wlad arall jyst i sugno eu diwylliant nhw. ’Wyrach bod chi’n mynd hefo’ch criw dawnsio, hefo’ch côr, hefo’ch parti canu, bod yn rhan o’u diwylliant nhw.” Cyf9B*

Yn y cyswllt hwn, nid oedd ‘gwerthu’ TDdA o reidrwydd yn cael ei ystyried yn niweidiol; yn hytrach, gwelwyd cyfle i briodoli gwerth economaidd TDdA gan godi ei statws [Cyf8]. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen trin y broses hon yn ofalus, gan fod perygl i dreftadaeth gynhenid gael ei dadwreiddio neu ei gwneud yn estron os cânt eu marchnata’n amhriodol [Cyf14C]. Roedd rhai sefydliadau’n ceisio lliniaru’r tensiynau hyn drwy ddatblygu polisïau twristiaeth a oedd yn defnyddio TDdA fel lens foesol ac ymarferol [Cyf13]. Cyfeiriwyd at gyfleoedd ar gyfer cyfnewid diwylliannol drwy groesawu ymwelwyr sy’n ymddiddori’n weithredol mewn diwylliant lleol, gan gyfeirio at sawl enghraifft o raglenni sy’n cynnig y math hwn o brofiad eisoes [Cyf9A; Cyf10]. Serch hynny, rhybuddiodd cyfranogwyr rhag gostwng TDdA i fod yn offeryn datblygiad economaidd yn unig, gan bwysleisio bod ei werth diwylliannol a chymunedol yn ganolog i’w hyfywedd hirdymor. Mae’r safbwynt hwn yn adleisio dadl De Figueiredo (2015) fod gan TDdA werth cynhenid sy’n ymestyn y tu hwnt i’w defnydd fel adnodd economaidd neu ddatblygiadol.

**Canlyniad 5:** Mae hyfywedd TDdA yn gysylltiedig â ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach megis argaeledd tai, cyfleoedd gwaith, amser rhydd a chynaliadwyedd cymunedau. Os na cheir cyd-destun sy’n ffafriol ar gyfer TDdA, mae perygl y dibynnir ormod ar strwythurau sefydliadol i gynnal TDdA gan ei datgysylltu o’i gwreiddiau a thanseilio ei gwytnwch cymunedol.

Ar yr un pryd, mae TDdA ei hun yn cyfrannu at greu cymunedau bywiog lle mae pobl yn dymuno byw ynddynt, a hyn yn dangos y gyd-ddibyniaeth rhwng diwylliant a ffactorau strwythurol ehangach lle gall TDdA hybu cyfranogiad a bod yn rhan o feithrin perthnasau cymdeithasol newydd.

# 5 Casgliadau ac Argymhellion

## 5.1 Casgliadau

Amlyga'r adroddiad hwn bod Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (TDdA) yng Nghymru wledig yn cael ei chynhyrchu a'i hatgynhyrchu drwy ecosystem gymhleth o brosesau sy'n ymestyn ar draws lefelau micro, meso a macro. Dengys y canlyniadau nad yw hyfywedd TDdA yn dibynnu ar weithgareddau na digwyddiadau unigol, ond yn hytrach ar gyfuniad o brosesau cymdeithasol sy'n cyd-ddibynnu ar ei gilydd i alluogi trosglwyddo, cyfranogi ac esblygu diwylliannol (Bortolotto, 2007).

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn tanlinellu bod ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg, addasu ac ehangu mynediad, cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol a sicrhau amodau ffafriol, yn llawn tensiynau ac nad ydynt yn niwtral o ran eu heffaith. Mae'r data'n awgrymu bod cymunedau'n gyson yn negodi'r tensiynau hyn, ac mai drwy'r prosesau parhaus hyn y mae'r math o dreftadaeth sy'n ffocws i'r astudiaeth hon yn parhau'n 'fyw'.

Yn y cyswllt hwn, mae'r argymhellion a gyflwynir isod yn galw am symud tuag at feddylfryd system-gyfan sy'n cydnabod TDdA i fod yn broses fyw, gyd-destunol a chyd-ddibynnol. Drwy ganolbwyntio ar y prosesau sy'n galluogi TDdA dros amser, yn hytrach nag ar allbynnau'n unig, gall polisi ac ymarfer gyfrannu at greu'r amodau lle gall TDdA barhau i ffynnu fel rhan annatod o lesiant a bywyd cymunedol yng Nghymru wledig, yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol.

## 5.2 Argymhellion

Cyflwynir 15 argymhelliad isod, wedi eu targedu at bolisïau ar lefelau macro, meso a micro.

*Macro (cenedlaethol)*

1. Mae cefnogi hyfywedd hirdymor TDdA a llesiant diwylliannol gwledig yn dibynnu ar bolisïau sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo treftadaeth fyw wledig mewn modd sy'n deg ac yn gyfartal, gan gydnabod yr heriau strwythurol sy'n bodoli. O ganlyniad, argymhellir mabwysiadu diffiniadau eang o ddiwylliant, treftadaeth a llesiant diwylliannol ar draws meysydd polisi gan adlewyrchu egwyddorion UNESCO yn hyn o beth. Argymhellir hefyd y dylid cynyddu pa mor weladwy yw TDdA drwy ei chynnwys mewn rhestrau perthnasol, gan ystyried capasiti cyfyngedig gwirfoddolwyr i ymgymryd â phrosesau o'r fath.
2. Er mwyn cefnogi cynaladwyedd y tirlun diwylliannol, mae angen cydnabod rôl y fferm deuluol fel safle allweddol ar gyfer cadw, trosglwyddo a chynnal gwybodaeth, sgiliau ac isadeiledd cymunedol sy'n sail i TDdA. O ganlyniad, argymhellir y dylid rhoi blaenoriaeth glir i integreiddio amcanion sydd â'r nod o hyrwyddo TDdA yn fwy ffurfiol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
3. Er mwyn ehangu mynediad at TDdA a chryfhau cyfranogiad diwylliannol gwledig mae angen cryfhau mynediad at addysg Gymraeg a chyfleoedd caffael iaith i fod yn llwybr allweddol at TDdA. Dylid gwneud hyn mewn modd sy'n cydnabod y berthynas annatod rhwng y Gymraeg a TDdA mewn rhai cyd-destunau, ond hefyd cydnabod nad yw'r berthynas hon yn unffurf ar draws y Gymru wledig. Mae hefyd angen sicrhau bod cyfleoedd i ymgysylltu â TDdA leol yn parhau ar hyd y continwwm dysgu, gan sicrhau bod

gan athrawon y gefnogaeth a'r adnoddau i fedru cynnig mynediad i blant at eu treftadaeth fyw. Gallai mentora a rhannu arferion da gefnogi athrawon sy'n llai hyderus yn y maes.

4. Allweddol i gynaladwyedd arferion yw mynd i'r afael â natur ansicr trosglwyddo TDdA i'r genhedlaeth iau mewn cymunedau gwledig. O ganlyniad, argymhellir treialu modelau incwm sylfaenol neu fecanweithiau ariannol tebyg ar gyfer deiliaid TDdA, gan adeiladu ar brofiadau rhyngwladol megis y cynllun Basic Income for the Arts (BIA) yn Iwerddon (gov.ie, 2026). Gallai model tebyg yng Nghymru gydnabod llafur TDdA fel rhywbeth cymunedol sydd angen ymroddiad sylweddol, a chyfrannu tuag at gryfhau'r isadeiledd sylfaenol i TDdA yng Nghymru wledig, wrth gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ddeiliaid ac ymarferwyr TDdA.
5. Er mwyn cynnal amrywiaeth ddiwylliannol hyfyw mae angen i wneuthurwyr polisi gyd-bwyso hyn yn ofalus ag amcanion cynhwysiant, gan gydnabod bod weithiau angen 'gofodau anadlu' diwylliannol ac ieithyddol ochr yn ochr â gweithgareddau sy'n ehangu mynediad at TDdA. Dylid sicrhau mecanweithiau sy'n cefnogi cymunedau ar lawr gwlad i fedru mynd i'r afael yn hyderus â'r heriau hyn, megis drwy ddarparu arweiniad cadarn ac adnoddau i dreialu ymyraethau newydd.

*Meso (rhanbarthol):*

6. Mae sicrhau hyfywedd arferion TDdA yn dibynnu ar wytnwch y prosesau sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu TDdA yn hytrach nag ar ddiogelu ffurfiau TDdA statig. O ganlyniad, mae angen datblygu mesuryddion polisi newydd, gan gynnwys fframweithiau cyllido a systemau monitro addas, sy'n adlewyrchu'r prosesau deinamig hyn, megis gwirfoddoli cymunedol.
7. Er mwyn creu llwybrau mynediad newydd a chynhwysol, yn enwedig i'r rheini nad oes ganddynt gyfalaf diwylliannol teuluol ac ar gyfer pobl ifanc, mae angen sefydlu cynlluniau newydd, neu ailsefydlu a sefydlogi rhaglenni pwrpasol sydd wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol ac sy'n cefnogi prosesau sylfaenol TDdA megis dysgu drwy brofiad, ymgysylltu â deiliaid ac ymarferwyr TDdA, a meithrin ymdeimlad o le. Yn y modd hwn gellid sicrhau mynediad at TDdA i bawb, gan greu cymunedau mwy gwydn a safon byw well.
8. Er mwyn hybu gwytnwch cymunedol, mae angen sicrhau mecanweithiau cyllido sy'n hyblyg ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cymunedau. Argymhellir cefnogi buddsoddiad isel ei faich ar gyfer gweithgareddau TDdA ar lawr gwlad, sef buddsoddiadau o faint cymharol fach sydd â gofynion gweinyddol isel. Drwy hynny, gellid cefnogi isadeiledd diwylliannol cymunedau heb danseilio eu gwytnwch.
9. Mae meithrin arweinwyr cymunedol gwirfoddol newydd yn hanfodol i gynaladwyedd TDdA gwledig. Gall sefydliadau cyhoeddus gefnogi'r prosesau hyn mewn modd ystyrlon drwy ddatblygu a buddsoddi mewn cynlluniau newydd, rhai sydd â ffocws ar bobl ifanc yn enwedig, er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli cymunedol anffurfiol y tu hwnt i strwythurau sefydliadol. Wrth wneud hyn, gellid meithrin ymddiriedaeth drwy gefnogi blaenoriaethau lleol.
10. Er mwyn cynnal yr isadeiledd cymdeithasol sy'n hanfodol i hyfywedd treftadaeth fyw wledig, mae angen targedu cefnogaeth at gynnal ac adfywio asedau cymunedol gan fod y rhain yn allweddol wrth sicrhau digwyddiadau diwylliannol, cyfranogiad cymdeithasol a throsglwyddo TDdA. Pan fo asedau wedi eu trosglwyddo i eiddo'r gymuned, dylid sicrhau polisïau sy'n cefnogi eu rheolaeth gan gymunedau.

*Micro (cymunedol):*

11. Er mwyn cynnal amrywiaeth ddiwylliannol ac ehangu mynediad ar yr un pryd, mae angen pwyso a mesur yn ofalus y buddion a'r risgiau cysylltiedig i lesiant diwylliannol a chydlyniant cymunedau. Anogir treialu ymyraethau newydd sy'n cefnogi'r ddau amcan yn barhaus.
12. Mae cymunedau gwledig yn enwedig yn wynebu rhwystrau mynediad. Argymhellir cryfhau cyfranogiad cymunedol mewn gweithgareddau TDdA drwy fanteisio ymhellach ar gynlluniau presennol megis Noson Allan (Cyngor Celfyddydau Cymru, d.d.) mewn modd cynhwysol.
13. Er mwyn cryfhau capasiti a gwytnwch isadeiledd diwylliannol cymunedau gwledig, gellid annog a hybu cydweithio â grwpiau, sefydliadau neu sectorau eraill yn lleol, ond hefyd ar draws cymunedau ac yn rhyngwladol, gan hwyluso rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arferion da.
14. Mae sicrhau cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn hanfodol ar gyfer cynhyrchu ac atgynhyrchu arferion TDdA. O ganlyniad, mae'n bwysig mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ffyrdd o ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn TDdA. Gellid gwneud hyn drwy gydweithredu â sefydliadau eraill megis Mudiad y Ffermwyr Ifanc, Aelwydydd yr Urdd, neu ysgolion lleol.
15. Er mwyn codi statws TDdA wledig a pha mor weladwy yw hi, dylai cymunedau, drwy gynghorau cymunedol o bosibl, fynd ati i gynnal arolwg o'r TDdA sydd yn eu hardal leol. Gellid defnyddio canlyniadau'r arolwg hwnnw wedyn yn sail ar gyfer cynllunio'n gymunedol sut i gefnogi trosglwyddo, addasu a pharhad eu TDdA dros amser.

# 6 Cyfeiriadau

## 6.1 Llyfrau Academaidd a Phapurau


Albert, M.T. (2024) World heritage and intangible heritage—What connects it and what differentiates it? Yn *Handbook on Intangible Cultural Practices as Global Strategies for the Future: Twenty Years of the UNESCO Convention on Safeguarding Intangible Cultural Heritage* (tt. 83-95). (Cham: Springer Nature Switzerland).

Bakar, A.A., Osman, M.M. a Bachok, S. (2011) November. Intangible cultural heritage: Understanding and manifestation. Yn *International Conference on Universal Design in Built Environment* (Cyfrol 22, tud. 23).

Barnett, C. (1995) Whither Welsh?: The modern-day state of the language and signs for the future, *Lingua*, 6, tt. 11–31.

Bortolotto, C. (2007) From Objects to Processes: UNESCO'S 'intangible cultural heritage'. *Journal of Museum Ethnography*, (19), tt.21-33. https://www.jstor.org/stable/40793837

Bourdieu, P. (1986) The Forms of Capital, Yn *Handbook of Theory and Research for the Sociology of Education*, Richardson, J.E. (gol.) (New York: Greenword).

Braber, N. a Howard, V. (2023) Safeguarding language as intangible cultural heritage. *International Journal of Intangible Heritage*, *18*, tt.146-158.

Braun, V. a Clarke, V. (2021) *Thematic Analysis : A Practical Guide* (SAGE Publications). https://bc.vitalsource.com/tenants/bangor_university_explore/saml_auth/books/9781526417299.

Buckley, K., Brown, S., Ishizawa, M., Mitchell, N., Brown, J., Leitão, L. a Franceschini, N. (2024) Integrating natural and cultural approaches in heritage conservation. Yn *Parks Stewardship Forum* (Cyfrol 40, Rhifyn 3, tt. 510-516). (George Wright Society).

Cai, W., Shu, Z. a Liu, Y. (2025) Exploring the role of place attachment in shaping sustainable behaviors toward marine cultural heritage: a case study of Dongmen village in Fujian Province, China. *Frontiers in Psychology*, *16*, tud.1476308.

Carrasco Cruz, A., Cruz-Souza, F. a González-Calvo, G. (2025) Roots of rural youth: A five-year systematic review of place attachment. *Social Sciences*, *14*(9), tud.554.

Cerquetti, M., Ferrara, C., Romagnoli, A. a Vagnarelli, G. (2022) Enhancing intangible cultural heritage for sustainable tourism development in rural areas: The case of the "Marche food and wine memories" project (Italy). *Sustainability*, *14*(24), tud.16893.

Chan, S.H.G., Lee, W.H.H., Tang, B.M. a Chen, Z. (2024) Legacy of culture heritage building revitalization: place attachment and culture identity. *Frontiers in Psychology*, *14*, tud.1314223.

De Figueiredo, M. D. (2015) The effects of safeguarding on ways to organize, produce and reproduce intangible cultural heritage. Yn *PASOS. Revista de Turismo y Patrimonio Cultural*, 13. 1037–1046.

Dowling, M. (2008) Reflexivity, Yn Given, L.M. (gol.) The SAGE encyclopedia of qualitative research methods. Thousand Oaks, CA: SAGE Publications, tt. 748–749. https://edge.sagepub.com/system/files/Reflexivity%5B1%5D.pdf

Fishman, J. A. (1991) *Reversing language shift: theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages* (Clevedon; Multilingual Matters).

Goussous, J. (2022) Intangible heritage and sustainable development strategies. *Problemy Ekorozwoju*, *17*(2).

Herslund, L. (2021) Everyday life as a refugee in a rural setting–What determines a sense of belonging and what role can the local community play in generating it? *Journal of Rural Studies*, *82*, tt.233-241.

Howell, D. (2013) The intangible cultural heritage of Wales: a need for safeguarding? *International Journal of Intangible Heritage*, *8*, tt.104-116.

Hughes, G.M. (2008) Arwyr lleol (That's Welsh for local heroes), *British Journalism Review*, 19(2), tt. 52–57. doi:10.1177/0956474808094200.

Jones, O.R. (2016) *Archwilio Potensial Cryfhau'r Iaith Gymraeg ac Economi'r Ardal Gydgyfeiriant drwy Hybu Cydymwneud rhwng Cymunedau Lleol a'r Cyfryngau Newyddion Proffesiynol: Achos Ceredigion a Golwg360*. Thesis PhD. (Prifysgol Aberystwyth).

Lenzerini, F. (2011) Intangible cultural heritage: The living culture of peoples. *European journal of international law*, *22*(1), tud.101-120.

Liu, J. a Qi, Y. (2024) Intangible cultural heritage protection promotes rural revitalization. *J. Manag. Soc. Develop*, *1*, tt.140-144.

Lonardi, S. a Unterpertinger, Y. (2022) The relevance of intangible cultural heritage and traditional languages for the tourism experience: The case of Ladin in South Tyrol. *Sustainability*, *14*(5), t.2729.

Lu, M., Zhu, Z., Shi, Y., Chen, Y. a Wu, Y. (2025) Research on the intergenerational disconnection dilemma and path reconstruction of youth inheriting intangible cultural heritage based on cultural identity theory. Academic Journal of Humanities & Social Sciences, 8, 8: 66-73. https://doi.org/10.25236/AJHSS.2025.080811

Mansfield, L. (2019) Valuing Cultural Capital: Place-based Rural Development for Hill Farming. Opportunities from Japan. (Winston Churchill Memorial Trust, London).

Neal, S. a Walters, S. (2008) Rural be/longing and rural social organizations: Conviviality and community-making in the English countryside. *Sociology*, *42*(2), tt.279-297.

Nic Craith, M. a McDermott, P. (2025) Language as intangible cultural heritage: living repositories of knowledge for tackling climate change. *Anthropological Journal of European Cultures*, *34*(1), tt.63-79.

Owen, T.M. (1959) *Welsh Folk Customs* (St Fagans Welsh Folk Museum)

Richards, G. (2026) From the centre to the periphery: intangible cultural heritage in rural areas. *Journal of Tourism and Cultural Change*, tt.1-22.

Serpa, S. a Ferreira, C.M. (2019) Micro, meso and macro levels of social analysis. *International Journal of Social Science Studies*, *7*, tud.120.

Shakya, M. a Vagnarelli, G. (2024) Creating value from intangible cultural heritage—The role of innovation for sustainable tourism and regional rural development. *European Journal of Cultural Management and Policy*, *14*, tud.12057.

Skrzypaszek, J.A. (2012) Intangible heritage and its role in the formation of social and personal identity. Yn Amoêda R, Lira S, Pinheiro C (goln*) Heritage 2012. 3rd International Conference on Heritage and Sustainable Development.* Green Lines Institute for Sustainable Development, Barcelos, tt. 1491-1497.

Smith, L. (2006) *Uses of heritage* (Routledge).

Smith, L. T. (2021) *Decolonizing methodologies: research and indigenous peoples* (Zed).

St Leger, L. (2025) When the street talks: understanding the impact of climate change on heritage tourism and sense of place in Wales. *Journal of Heritage Tourism*, *20*(6), tt.747-763.

Ubertazzi, B. (2020) Culture, sustainable development and UNESCO. *Pravovedenie*, tud.4.

Vecco, M. (2010) A definition of cultural heritage: From the tangible to the intangible. *Journal of Cultural Heritage*, 11, 321-324. https://doi.org/10.1016/j.culher.2010.01.006

Williams, R. 1958. *Culture and Society* (Chatto & Windus).

Woods, M. (2022) Refugees, race and the limits of rural cosmopolitanism: Perspectives from Ireland and Wales. *Journal of Rural Studies*, *95*, tt.316-325.

Xue, P., Dong, Y., Wang, F., Wang, S., Su, W. a Ning, C. (2026) Awakening dormant intangible cultural Heritage: Bridging capital, capacity, and change for rural sustainability. *Habitat International*, *167*, tud.103654.

Yin, R. K. (2009) *Case study research: design and methods*. (Sage Publications).

Young, E.M., Griffith, G.H., Evans, M., a Jones, S.A. (2017) The intangible made tangible in Wales. Yn *The Routledge companion to intangible cultural heritage* (Taylor & Francis).

## 6.2 Adroddiadau Ymchwil ac Adroddiadau Ystadegol

'Historic Landscape Characterisation: Dysynni Valley', Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, 2009. https://www.walesher1974.org/her/groups/GAT/media/GAT_Reports/GATreport_786_compressed.pdf

'History of Banwy', Banwy Community Council, d.d. https://banwycc.com/history-of-banwy/

'Ieuenctid Cefn Gwlad yn Allfudo a Newid i'r Boblogaeth yng Nghymru', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2023. https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/Ieuenctid-Cefn-Gwlad-yn-Allfudo-Michael-Woods.pdf

'Unpacking Experiences of Hostility: Executive Summary', University of Leicestershire. d.d. 10.25392/leicester.data.29625413

## 6.3 Papurau Polisi a Dogfennau Eraill

'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol', Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2025. https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/sites/2/2025/05/Adroddiad-Cenedlaethaur-Dyfodol-2025.pdf

'Basic Income for the Arts Scheme 2026-2029 Guidelines for Application', Government of Ireland, 15 May 2026, https://www.gov.ie/en/department-of-culture-communications-and-sport/publications/basic-income-for-the-arts-scheme-2026-2029-guidelines-for-application/

'Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant', Llywodraeth Cymru, 2025. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-05/blaenoriaethau-ar-gyfer-diwylliant.pdf

‘Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28’, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2023. https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-5-3-216-2-Cynllun-Llesiant-Gwynedd-a-M244n-2023-2028.pdf

‘Dashfwrdd Data: Pwy sy’n siarad Cymraeg yng Nghymru?’, Comisiynydd y Gymraeg, d.d. https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/polisi-ac-ymchwil/sefyllfar-gymraeg/cyfrifiad-2021/dashfwrdd-data-pwy-sy-n-siarad-cymraeg-yng-nghymru

‘Diwylliant er Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Deddf Diwylliant i Gymru: Papur Gwyrdd’, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru ac The Audiency Agency. Mawrth 2026. https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/sites/2/2026/02/2026-02-20-FGCW_Culture-Report-Cymraeg.pdf

‘*European Landscape Convention*’, Cyngor Ewrop, 2000, https://www.coe.int/en/web/landscape/text-of-the-european-landscape-convention/

‘Fframwaith Adfywio Ardal Ni: Cynllun Adfywio Lleol Tywyn ac Ardal Bro Dysynni’, Cyngor Gwynedd, 2025. https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Dogfennau-Busnes/Adfywio/Ardal-Ni/Cynllun-Adfywio-Tywyn-a-Bro-Dysynni.pdf

‘Gwaith yr Awdurdod’, Parc Cenedlaethol Eryri, d.d. https://awdurdod.eryri.llyw.cymru/yr-awdurdod/gwaith-yr-awdurdod/?_gl=1*1v9umeu*_ga*ODg5NzkwOTc1LjE3NzQyNTk4OTc.*_ga_2SRYFPWD50*czE3Nzg4NTEwNjMkbzEkZzAkdDE3Nzg4NTEwNjMkajYwJGwwJGgw*_ga_81NTSQ6S7Z*czE3Nzg4NTEwNjMkbzEkZzAkdDE3Nzg4NTEwNjMkajYwJGwwJGgw*_ga_ERNVRFQ11P*czE3Nzg4NTEwNjQkbzEkZzAkdDE3Nzg4NTEwNjQkajYwJGwwJGgw

‘Newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion Adroddiad Gwrthwynebiadau’, Cyngor Sir Powys, d.d. https://powys.moderngov.co.uk/documents/s87111/Appendix+B+cym+-+Ysgol+Bro+Caereinion+Objection+Report.pdf

‘Nodweddion Powys’, Cyngor Sir Powys, d.d. https://ldp.powys.gov.uk/cy/document/35/770#d770

## 6.4 Adroddiadau Newyddion, Blogiau ac Erthyglau

‘Beth nesaf? Materion Allweddol ar gyfer y Seithfed Senedd’, Senedd Cymru, 18 Mai 2026. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/beth-nesaf-materion-allweddol-ar-gyfer-y-seithfed-senedd/

‘*Beth yw papur bro?’,* papuraubro.cymru, d.d. https://papuraubro.cymru/beth-yw-papur-bro/

‘Capeli Cymru’, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, d.d. https://cbhc.gov.uk/prosiectau/capeli-cymru-2/cyfrifiad-capeli-cymru/

‘Convention Concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage’, UNESCO, 1972. https://whc.unesco.org/en/conventiontext/

‘Croeso i wefan Y Plygain’, Plygain.org. d.d. https://plygain.org/

‘Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus 2024’, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2024. https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/tudalen-cynnig-parc-cenedlaethol-newydd-cymru/user_uploads/cynnig-parc-cenedlaethol-cymru---adroddiad-ymgynghori-cyhoeddus-2024.pdf

‘Effaith argyfwng Covid-19 ar y sector celfyddydau’, Y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg, a Chyfathrebu, Mehefin 2020. https://senedd.wales/media/vm4naoe2/cr-ld13215-w.pdf

‘*Gwasanaeth Digidol Cymunedol Bro360*’, bro360.cymru, d.d. https://bro.360.cymru/ (Aethpwyd iddo: 30 Hydref 2025).

‘Pwyllgor Iaith: Canlyniadau Cyfrifiad 2021 – Yr Iaith Gymraeg’, Cyngor Gwynedd, 2023. https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s36992/Adroddiad%20canlyniadau%20cyfrifiad%202021%20-%20yr%20Iaith%20Gymraeg.pdf?LLL=1

‘Llechi Cymru – Welsh Slate’, Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, d.d. https://www.llechi.cymru/

‘Noson Allan’, Cyngor Celfyddydau Cymru, d.d. https://www.nosonallan.org.uk/

‘Plans for Wales first new national park in 60 years rejected’, Nation.cymru, 8 Rhagfyr 2025. https://nation.cymru/news/plans-for-wales-first-new-national-park-in-60-years-rejected/

‘Text of the Convention for the Safeguarding of the Intangible Cultural Heritage’, UNESCO, 2003. https://ich.unesco.org/en/convention#art2

‘The United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland ratifies the 2003 Convention for the Safeguarding of the Intangible Cultural Heritage’, UNESCO, 21 March 2024. https://www.unesco.org/en/articles/united-kingdom-great-britain-and-northern-ireland-ratifies-2003-convention-safeguarding-intangible

‘UK Living Heritage Inventory’, UNESCO, d.d. https://unesco.org.uk/our-network/uk-living-heritage-inventory

# 7 Atodiadau

## Atodiad 1: Rhestr enghreifftiol o arferion TDdA

Isod, ceir rhestr enghreifftiol o rai arferion TDdA a godwyd o'r papurau bro. Cyfwelwyd ag ymarferwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgareddau mewn testun trwm, naill ai fel deiliaid TDdA neu wirfoddolwyr.

**Plygain**

**Eisteddfodau bach e.e. cerdd dant, alaw werin, llefaru ayb.**

Dathliadau Gŵyl Ddewi e.e. dramâu, cinio

**Sioeau Amaethyddol/Garddwriaethol neu Ffair Wledig e.e. cneifio, coginio, barnu stoc**

Gweithgareddau yn ymwneud â'r capel a'r eglwys e.e. oedfaon a chymanfa ganu

Dathliadau Nadolig e.e. ffeiriau Nadolig, canu carolau

Cymdeithasau e.e. Cymdeithas Hanes, Cymdeithas Merched ayb.

**Gweithgareddau Clybiau Ffermwyr Ifanc e.e. cystadlaethau drama, gwaith maes, rali**

**Seindorf Arian**

Aelwydydd e.e. canu corawl, clocsio

Carnifal

Digwyddiadau codi arian e.e. bore coffi, ras hwyaid, gyrfa chwist, noson sgitls

Chwaraeon e.e. pêl-droed, hoci

## Atodiad 2: Enghraifft o'r wybodaeth sydd ar gael yn y papurau bro

Cyrchwyd y wybodaeth isod o bapurau bro ardaloedd Bro Dysynni (*Dail Dysynni*), Dyffryn Banw (*Plu'r Gweinydd*), a Dyffryn Tanat (*Yr Ysgub*) yn ystod y flwyddyn 2024. Mae'n cynnig mewnwelediad gwerthfawr i hyfywedd ac esblygiad arferion.

***Gwasanaethau Plygain***

*Dail Dysynni*

Cynhaliwyd gwasanaethau Plygain yn ystod mis Rhagfyr 2023 yn Eglwys Sant Pedr mewn Cadwynau, Pennal ac ym mis Ionawr 2024 yn Eglwys Dewi Sant, Abergynolwyn. Yn achos y gwasanaeth ym Mhennal, dyma'r Plygain cyntaf ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sy'n arwydd efallai o'r cynnydd yn y diddordeb i adfer yr arferiad. Ymfalchïai cymuned Abergynolwyn yn y ffaith bod 'cynifer yn yr ardal yn awyddus i weld yr hen arfer yn parhau'; teimlad a rennid gan y gymuned ym Mhennal. Cafwyd amrywiaeth o eitemau yn y ddwy achos, gan gyfeirio'n benodol at Barti Abergynolwyn a Pharti Llanegryn. Fodd bynnag, mynegwyd siom nad oedd digon o ddynion yn bresennol i ganu Carol y Swper yn Abergynolwyn. Awgryma hyn, efallai, er bod diddordeb cynyddol yn y traddodiad, efallai fod y wybodaeth neu'r hyder i'w arfer yn ansicr. Yn ôl yr hen arferiad, fe'i gwelid fel cyfle i gymdeithasu yn ogystal, gyda lluniaeth i ddilyn yn achos Abergynolwyn.

*Plu'r Gweinydd*

Cynhaliwyd gwasanaethau Plygain mewn amryw o leoliadau yn Nyffryn Banw yn ystod mis Rhagfyr ac Ionawr gan gynnwys Eglwys Santes Erfyl, Llanerfyl a Moreia, Llanfair Caereinion – ac yn ehangach yn nalgylch Plu'r Gweunydd. Difyr yw nodi y'i sillafwyd yn 'blygien' yn adran Llanerfyl, sydd efallai yn dilyn y modd mae'r gair yn cael ei ynganu yn y dafodiaith leol. Cafwyd 14 o eitemau yn y blygain hon, ac fe ddaeth y dynion at ei gilydd ar ddiwedd y noson i ganu Carol y Swper, gyda lluniaeth i ddilyn yn y neuadd. Cafwyd hefyd Plygain yr ifanc ym Moreia, Llanfair Caereinion, sy'n awgrym efallai bod ymdrech i sicrhau bod y traddodiad yn parhau.

*Yr Ysgub*

Cynhaliwyd Plygain cynta'r tymor yn nalgylch yr Ysgub yn Llanfyllin ar Ragfyr 1af. Cyfrannodd pum parti at y gwasanaeth, sef partïon Merched y Wawr, Y Briw, Henlle, Gad, ac Ieuan ap Siôn. Canwyd Carol y Swper i gloi, fel sy'n arferol, a phaned a sgwrs i ddilyn yn y festri. Cynhaliwyd Plygain hefyd yng Nghapel Cefnblodwel ym Mhen-y-bont-fawr ar ddydd Sul, 7fed o Ionawr 2024. Mwynhawyd dwy rownd o garolau gan bartïon Fronheulog, Llansilin, Henlle, Pen-y-bont-fawr a deuawd. Cynhaliwyd y Blygain Fawr ar 14eg Ionawr yn Neuadd Llanfihangel y tro hwn, gyda chynulleidfa gref. Cafwyd 11 o bartïon y tro hwn, gan gynnwys parti o blant lleol.

## Atodiad 3: Canllaw i'r cyfweliadau

**Amcanion**

- i) Pa brosesau sy'n sail ar gyfer cynhyrchu ac atgynhyrchu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yng nghefn gwlad Cymru?
- ii) Pa ffactorau sy'n galluogi ac yn cyfyngu ar y prosesau hyn?
- iii) Pa gyfleoedd sydd i bolisi gefnogi'r realiti hwn yn ymarferol?

1. **Ffurfiau a phrosesau TDdA**
    - 1.1. Fedrwch chi ddisgrifio'r arferion, traddodiadau, neu'r wybodaeth ddiwylliannol sydd yn eich cymuned ac a ystyrir yn rhan o'ch treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol?
    - 1.2. Oes yna arferion rydych chi'n eu harfer yn bersonol neu yn wybodus amdanynt?
    - *1.3.* Sut mae'r arferion hyn yn cael eu creu a'u cynnal yn eich cymuned?
    - 1.4. Sut mae'r arfer yn cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth?

2. **Galluogwyr a rhwystrau**
    - 2.1. Pa ffactorau sy'n helpu'r arferion hyn i barhau ac i ffynnu yn eich cymuned?
    - 2.2. Pa heriau neu rwystrau ydych chi wedi'u hwynebu wrth gynnal neu rannu'r traddodiadau hyn?
    - 2.3. Ydych chi neu eraill wedi dod o hyd i ffyrdd o oresgyn yr heriau hyn?

3. **Ystyr, llesiant a chreu lleoedd**
    - 3.1. Beth mae'r arferion hyn yn ei olygu i chi a'ch cymuned?
    - 3.2. Ym mha ffyrdd mae'n cefnogi llesiant?
    - 3.3. Sut mae'r arferion hyn yn cyfrannu at greu lleoedd?

4. **Cynhwysiant a TDdA**
    - 4.1. Sut mae gwahanol grwpiau o fewn y gymuned (e.e. oedran, rhyw, rhywedd, anabledd, ethnigrwydd, newydd-ddyfodiaid, iaith) yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn y traddodiadau hyn?
    - 4.2. Pa rwystrau sy'n cyfyngu ar gyfranogiad grwpiau lleiafrifiedig o fewn y gymuned?
    - *4.3.* Oes heriau i ddilysrwydd yr arferion wrth iddynt ddod yn fwy cynhwysol?

5. **Cymorth ymarferol neu strategol**
    - 5.1. Pa fath o gefnogaeth ymarferol sydd ei hangen i sicrhau cynaladwyedd eich TDdA?
    - 5.2. Sut all y sector gyhoeddus cefnogi cynaladwyedd y gweithgareddau hyn yn fwy effeithiol?
    - 5.3. Pa feysydd polisi sy'n berthnasol i hyfywedd eich TDdA?
    - 5.4. Beth hoffech chi i bobl mewn swyddi dylanwadol ddeall am bwysigrwydd TDdA mewn bywyd gwledig?

6. **Myfyrdodau ac argymhellion terfynol**
    6.1. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu am eich profiadau?

**Atgoffwch y cyfranogwyr y gellir dod o hyd i wybodaeth am y prosiect yn yr e-bost Gwybodaeth a Chaniatâd Cyfranogwyr a chynigiwch eto i ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.**

**Diolch am eich cyfraniad i'r ymchwil hwn.**

## Atodiad 4: Dyfyniadau

Pan fo amodau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yn caniatáu, isod gwelir dyfyniadau enghreifftiol i gefnogi canfyddiadau penodol yn yr adran Canlyniadau, sef 4.1 a 4.2.

# Arfer treftadaeth fyw a throsglwyddo ar lefel micro

### Trosglwyddo rhwng cenedlaethau

*Roeddwn i'n dod o deulu diwylliannol iawn. So mi ges i fy moddi yn llythrennol yn niwylliant Dyffryn Banw. Cyf3*

*So, ie, o'n i jyst yn dysgu caneuon fel Ar Lan y Môr a Dacw 'Nghariad a phethau fel'na. Lot trwy'r teulu rili. Trwy Nain rili mwy na neb. Cyf7*

*A dwi'n trio dysgu fo i fy mhlant fy hun rŵan, [enwau'r plant], sydd eto yn ddigon llwyddiannus, wedi bod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd yn Eisteddfod yr Urdd am ganu cerdd dant, a hefyd yn yr ysgol. Cyf2*

*A theuluoedd falle sydd wedi bod yn canu plygain ers bron i ganrif, wel, mae eu disgynyddion nhw'n dal mewn partïon plygain hefyd. Cyf3*

*Nes i erioed gwestiynu. Oedd o'n dod mor naturiol i fi fod. Cyf6*

*Mae o jyst wedi dod yn naturiol. Achos o'n i tua thair oed. Dyna'r ffordd oedden ni 'di cael ein magu. Cyf2*

*Dwi'm yn mwynhau cerddoriaeth gymaint â hynny. Mae'n well gen i fynd i rywbeth fel dramâu a phethau fel hynny. Mae o yn fy nheulu i. Dwi 'di cael fy magu, oedd Mam yn canu plygeiniau. So mae o yna. Oedd hi'n mynd i bob plygain ym mhob man. A pan o'n i'n llai, o'n innau yn dilyn yn ei chwt hi, mae'n debyg. Ond o ddewis, dwi ddim yn mynd oherwydd dwi'm yn mwynhau o. Cyf3*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*A dwi'n teimlo bod hi'n bwysig bod y plant bach yn cael y profiadau cyfoethog diwylliannol yna, cyfleon i ganu, cyfleon i berfformio, cyfleon i wisgo i fyny, cyfleon i symud, cyfleon i ddawnsio, cyfleon i fod yn yr awyr agored ac i ddeall mwy am eu cynefin. Ac mae'r [mudiad] yn gwneud hynny mewn ffordd sydd yn ofnadwy, ofnadwy o gyfoethog ac felly hefyd yn tynnu teuluoedd i mewn i'r gwaith. Oherwydd mae llawer iawn o'r plant 'da ni'n gweithio hefo nhw yn y [lleoliad] yn dod o deuluoedd sydd ddim o'r ardal, sydd yn siarad Saesneg yn y cartre. A drwy blant, maen nhw'n gyfleoedd i brofi diwylliant lleol a'u cynefin yn ogystal. Cyf1*

*Ac mae rhieni yn dod, ac mae'r teidiau a neiniau yn dod, er bod nhw'n ddi-Gymraeg falle, ac maen nhw'n gorfod eistedd yna, ac mae nhwythau yn cael eu trwytho mewn awr dda o jyst dyma ni, dyma'r ysgol, popeth yn Gymraeg, a dyma ni. Cyf3*

### Dal a throsglwyddo TDdA gan ddeiliaid ac ymarferwyr

*Dwi jyst yn meddwl am bobl dwi... Neu dim fi... pobl yn yr ardal yma yn ei gofio, fel eich cymeriadau chi, rhai sydd dal hefo ni, rhai sydd ddim. Mi oedd y bobl yna wedi creu gymaint o effaith ac arferion yn yr ardal, mae pobl dal i siarad amdanyn nhw. Cyf2*

*Os wyt ti'n chwarae telyn deires, mae llinach... dim llinach deuluol, gwaed, ond llinach pwy sydd 'di dysgu ti yn eitha pwysig. So mae [enw 1] 'di cael ei dysgu gan [enw 2]. Mae [enw 2] 'di cael ei ddysgu gan*

*Nansi Richards ac Eldra Jarman. A ti'n gallu olrhain yn ôl pwy sydd 'di dysgu ti, mewn ffordd. So mae pethau fel'na. Cyf10*

*A jyst, yn anffodus, wrth i ni fynd yn hŷn, mae'r bobl 'ma sydd gen i ar pedestals yn diflannu yn reit gyflym. Felly i fi, y rhwystrau ydi, dydi'r bobl 'ma ddim yna ddim mwy. Cyf2*

*Sian will. [...] Gareth might. Cyf16 (defnyddir ffugenwau).*

## Dysgu drwy brofiad a chyfranogiad ymarferol

*A'r un ffordd mae [enw] 'di dysgu'r delyn deires, ar y glust. Cyf10 (Rhanddeiliad)*

*Er enghraifft, dwi ddim yn gallu darllen dim cerddoriaeth o gwbl, ac mae'r teulu i gyd fel yna. Mae o i gyd o'r glust. Eto, y canu sol-ffa 'ma, dyna'r ffordd oedd o'n cael ei dysgu. A dwi'n gwybod, oedden nhw'n arfer eistedd i lawr hefo ni wrth y piano, ac oedden ni jyst yn arfer harmoneiddio hefo'n gilydd a jyst neud tiwns i fyny ar y sbot. A dwi'n meddwl dyna'r ffordd. Dwi rŵan hefo diddordeb mewn gosod... Mwy na thebyg, ti'n gwybod, dwi'n torri bob rheol o dan haul o ran rheolau cerdd dant, ond galla i osod ar fy nghlyw be sy'n swnio'n reit. Cyf2*

*Ia, pethau sylfaenol iawn, dwi'n gwybod, ond mewn pantomeim Cymreig, mae o'n wahanol i bantomeim Saesneg. A rhywun sydd 'di deud hynna wrtha i. So traddodiad llafar, yn sicr, sydd yn pasio fo i lawr. Cyf5*

*I suppose technology just has brought on so much that there's stuff that I teach my father, but then there's other stuff that he would teach me down. So it's like no one's ever right. Cyf15*

*Prosiect [enw prosiect], bod ni'n cael y galwyr a bod ni'n cael y cerddorion. 'Da ni'n defnyddio [enw] fel tiwtor i neud y gerddoriaeth. Mae o'n hyfforddi'r bobl ifanc ar y glust. Cerddorion sydd 'di dod o gefndir clasurol, erioed 'di chwarae heb falle copi o'u blaen, so maen nhw'n dysgu dull newydd o ddarllen cerddoriaeth. Mae hynny yn rhyddhau nhw fel cerddorion, ac maen nhw'n gallu cymryd rhan mewn sesiynau yn y dafarn. Wedyn mae o'n newid eu steil nhw o chwarae a'u parodrwydd nhw i ymuno mewn pethau cymunedol. Dwi'n meddwl ella fod cerddoriaeth glasurol yn fwy ynysig achos ti'n dysgu'r darnau i berfformio, tra mae cerddoriaeth gwerin yn caniatáu i ti gymryd rhan mewn mwy o bethau, rhannu. Cyf10*

*So, basically, erbyn oedden ni'n chwech oed. Bob nos Fawrth, off â ni yn y fan. O'n i'n mynd ar ôl ysgol. Ac oedden ni'n cael ein dysgu yn yr ysgol hefo Mr [enw]. Fo oedd yn mynd rownd yn dysgu yn yr ysgolion. Ac wedyn, ie, so oedd gen ti fand i fynd i wedyn. Cyf6*

## Llesiant fel cymhelliant

*Ia, mae o jyst yn dod â gwen i fy wyneb i, unrhyw beth i neud hefo canu plygain. Cyf2*

*Ag oedd o'n bopeth i fi cael jyst bod ar lwyfan. Oedd o jyst yr hwyl a chael bod hefo pobl oedd yn... Oedd o'n hwyl. Doedd dim bwys os oeddet ti'n gweithio trwy'r dydd. Oeddet ti jyst, ww, practis heno. Ac oeddet ti jyst yn cael hwyl, doeddet ti. Cyf3*

*Ie, ac wedyn o'n i'n ôl yn y band [pres]. A dyna le o'n i hapusa, yn y band. Oedd o ryw ffordd, yn y band, ers ysgol, o't ti'n mynd i'r ysgolion rownd Meirionnydd. O't ti'n neud y cyngerdd 'ma. Ac o'n i o hyd yn cael y wefr 'ma. Cyf6*

*Be maen nhw'n dweud? Active minds, ife? Does dim amser i nhw fod adre ar eu ffonau symudol nhw. Mae 'na rywbeth ymlaen trwy'r amser. Mae 'na ymarferion. Mae 'na dripiau cymdeithasol, neu mae'r clwb yn cwrdd bob wythnos. Mae 'na rywbeth tu allan i oriau ysgol. Mae 'na hefyd tu allan i dy waith di*

*bob dydd. Mae o jyst yn rhywle ble mae pawb yn dod at ei gilydd. Mae pawb yn nabod ei gilydd ar lefel clwb. Fi'n credu bod e mor bwysig. Fi'n credu bod ni'n chwarae rhan fawr ar gyfer llesiant pobl ifanc. Rhoi hyder i nhw. Rhoi hyder i nhw allu mynegi eu teimladau. Fi'n credu bod hwnna'n holl bwysig. A theimlo fel bod nhw mewn lle saff. Er enghraifft, gallan nhw fod yn cael amser caled yn ysgol, ond mae o bach o ddihangfa o realiti bywyd. Does dim amser i feddwl gormod. Fi'n credu bod hwnna'n bwysig. Maen nhw'n cadw'n actif iawn. Cyf12*

*Ac, wrth gwrs, mi fyddai rhai yn dadlau yn gry' bod y profiadau diwylliannol yna yn cyfoethogi iechyd rhywun ac yn gwneud rhywun yn well gweithiwr neu'n... So mae 'na lot o resymau amrywiol iwtilitaraidd ond hefyd haniaethol ynglŷn â phwysigrwydd diwylliant i ni fel unigolion. Cyf1*

*Ond oedd Mam o hyd, am fod hi heb fod yn coleg, oedd hi'n rili meddwl bod e'n rili pwysig bod ni yn mynd a neud ein graddau a neud yn dda yn ysgol. Ond i fi, o ran be dwi'n neud heddiw, o'n i o hyd allan, godro, gweithio'r cŵn defaid, ceffylau, ac o'n i yn y band [pres], chwarae piano ers o'n i'n chwech. So 'di fy mywyd i, dwi'n 60 blwyddyn yma, ac i fod yn hollol onest... Ac o'n i o hyd yn eitha ffit. So o'n i'n rhan o fywyd fel chwaraeon, hoci, pêl-droed. So mewn ffordd, 'di fy mywyd i... A dwi'n gwybod bod diwylliant yn newid, ond mewn ffordd rŵan, pob peth sydd 'di digwydd yn fy mywyd i, ond dwi dal yn neud yr union bethau yna. Dwi dal i garu'r pethau yna. Ond hefyd, ti'n gwybod, crefydd, dwi'n rili licio mynd i'r eglwys. Dwi'n cofio'r emynau. Os ti'n gofyn be 'di dy grefydd di, y grefydd dwi'n meddwl ydi'r cysur roddodd o i ni fel plant, cysur i'n rhieni, enwedig pan oedden nhw'n marw. Y cysur o gofio yr emynau. Maen nhw'n miniogi dy go'. So wedyn mae'r pethau yna, dwi'n meddwl, wedi creu pwy wyt ti heddiw, pwy ydw i heddiw yn eistedd yn y llyfrgell. Dyna pam dwi mor gyffyrddus. O'n i o hyd, do'n i byth eisiau rhyw swydd bwysig. O'n i jyst eisiau bod yn fi a pwy o'n i wedi arfer bod, sydd yn fi. Cyf6*

*Ia, mae'r ddiwinyddiaeth yn reit ddwys yn rhai o'r carolau 'ma. Ac mae o'n sôn am bob peth o enedigaeth i farwolaeth Crist ac yn y blaen. So mae hwnna'n rhan o'r... Mae'r geiriau, maen nhw'n sylweddol yn diwylliant ein hun. Mae lot ohono fo mewn cynghanedd, yr hen... Cyf9A*

*Oeddet ti'n gofyn o'r blaen, i fi, mae o i gyd yn rhan o fy Nghymreictod hefyd bod fi'n cymryd rhan yn y pethau diwylliannol a thraddodiadol Cymreig yna. Mae o i gyd yn rhan o fy hunaniaeth i fel Cymraes, fel bod fi'n gallu canu'r geiriau Cymraeg yma a chanu'r harmonïau Cymreig yma. Cyf9B*

*Achos 'sa ti'n hawdd iawn yn gallu meddwl yn yr oes dechnolegol, deallusrwydd artiffisial, pam fysa hyn yn bwysig? Pam fysa pobl yn mwynhau neu'n penderfynu bod 'na bwysigrwydd iddo fo? Dwi'n meddwl oherwydd bod o'n gwneud ni'n well pobl yn y pen draw, bod o'n gwneud ni'n unigolion sydd yn fwy crwn, sydd yn fwy cyfoethog ein byd. A bod 'na werth yn y gwaith yna o ddod at ein gilydd yn gymunedol. Achos fel arfer, mae profiad treftadaeth neu brofiad diwylliannol, diwylliedig yn brofiad torfol. Mae 'na werth yn y broses yna o ddod at ein gilydd ac o bympio i mewn i'n gilydd a dod i adnabod pobl drwy hynny, chwerthin hefo'n gilydd, crio hefo'n gilydd ac yn y blaen. Mae'n gwneud ni'n fwy dynol, dwi'n meddwl. Ac os wyt ti'n meddwl am sefyllfa, os ti'n cymryd esiamplau eithafol o gyni neu rhyfel, 'di pobl ddim â'r luxury i allu atgynhyrchu neu gael y profiadau diwylliant yna. Mae edrych ar y profiadau eithafol yna'n help i atgoffa ni'n hunain pam bod ni'n rhoi gwerth ar y pethau 'ma, pam bod 'na angen am fuddsoddiad ynddyn nhw, pam bod ni ddim jyst yn rhoi ein pres fel trethdalwyr jyst i mewn i iechyd ac addysg. Ond oherwydd mae 'na fwy i fywyd yn y pen draw na hynny. Cyf1*

*Mae cymunedau sydd yn deall eu hunaniaeth ac yn gwerthfawrogi eu cysylltiadau diwylliannol yn golygu cymunedau sydd gan les diwylliannol a lles corfforol gwell. Felly, ia, mae'r cyfan yn cydblethu. Cyf8 (Rhanddeiliad)*

*Wel, ti'n gwybod, dwi'n meddwl bod yr ysgol yma, a dwi mor falch o hyn, achos o'n i'n gwybod, fel o'n i 'di deud o'r blaen, oedd 'na lot o ddrwgdeimlad yn yr ardal yma yn [blwyddyn]. Dwi'n derbyn hynna,*

*achos does dim byd yn neis hefo cau unrhyw ysgol. A pan dwi'n gweld rŵan llwyddiant [yr ysgol], dim yn unig hefo jyst Estyn, ond pan 'da ni'n cael gwahoddiadau i berfformio mewn cyngherddau, hyd yn oed yn [enw pentref] diwrnod o'r blaen. Ac oedd yr arfer, doedd [enw ysgol pentref] ddim yn cymysgu hefo [enw ysgol pentref arall]. Oedd o'n ddwy ysgol. Er bod ni'n llai na dwy filltir, oedden ni'n wahanol. Ond mae'r ardal wedi dechrau derbyn mai [enw ysgol fro] ydi ysgol y dyffryn. 'Da ni'n llwyddiannus yn be 'da ni'n neud. A hyfryd ydi cael y gwahoddiadau 'ma gan wahanol bobl i berfformio. Cyf2*

*So côr, gennyn ni gôr dementia ar bnawn dydd Llun. Mae hwnna'n wych. Dwi'n rili licio hwnna. [...]. Jyst lle, mae o yn rhoi croeso cynnes. Cyf6*

*Felly i fi, be gei di well? Côr yn yr ardal a chynulleidfa o'r ardal, a phawb wedi mwynhau. So 'da ni dal yma. 'Da ni dal yma. Er hefo'r holl bethau sydd yn ein herbyn ni, 'da ni dal yma, a 'da ni dal i drio gwneud ein gorau, yndan. Cyf3*

*I ddod i nabod nhw eu hun. I ddod i nabod yr ardal. I werthfawrogi'r ardal. Dwi'n trio deu'thyn nhw bob dydd, "'Da chi ddim yn deall pa mor arbennig ydych chi. 'Da chi ddim yn deall pa mor lwcus 'da chi. Un diwrnod, fyddech chi'n diolch i fi y ffaith bod chi yn gallu canu plygeiniol, bod chi'n deall be 'di emyn." Mae o'n codi fy nghalon i pan mae plant yn siarad am y pethau 'ma yn naturiol. Achos bysen nhw ddim oni bai bod nhw wedi cael eu dysgu. Cyf2*

*I fi, mae o'n rhoi teimlad o berthyn i gymuned ac yn gwreiddio fi yma. Gan fod fi 'di symud i mewn i'r ardal, dwi'n teimlo bod fi'n cael fy nerbyn gan bobl achos dwi'n cymryd rhan yn y pethau. Mae'r ddau ohonon ni yn bobl sydd yn credu'n gryf mewn pethau traddodiadol a gwerin a throsglwyddo. Mae hyn i gyd yn bwysig, dydi. Cyf9B*

*Yn sicr, y teimlad yna o berthyn. Fel o'n i'n deu'tha ti o'r blaen, yr adborth 'da ni 'di cael gan bobl ifanc sydd 'di bod yn rhan o'r [rhaglen] ydi bod nhw'n teimlo bod nhw wirioneddol wedi gwreiddio yn niwylliant Cymru, yn eu gwlad. Etifeddiaeth, mewn ffordd. Lot ohonyn nhw ddim wedi cael y cyfleoedd yna trwy'r ysgol. Cyf10*

### Cynnal digwyddiadau cymdeithasol a chyfranogol

*Dyna sydd yn neis hefo stwff gwerin, bod o'n bobl bob oedran, basically. Dwi'n meddwl am y sesiynau yn [enw tafarn]. Mae 'na bobl, 'dyn nhw ddim rili digon hen i fod yn y dafarn, teenagers. Maen nhw'n dod hefo rhieni. Weithiau dwi'n mynd â [enw mab] hefo fi os dwi'm yn mynd i fod yn rhy hwyr. Fyny at hen bobl. Mae pawb yna. Mae stwff gwerin yn rili inclusive. Cyf7*

*If there are young children, they will usually be the first to get up and then up to the age of 90 odd sometimes. Cyf16*

*Mae 'na rywbeth mor gymdeithasol amdanyn nhw. A hefyd jyst yr elfen yna o dynnu pobl at ei gilydd. 'Da ni'n byw mewn oes lle 'di pobl ddim yn dod i gysylltiad corfforol hefo'i gilydd achos mae pawb ar eu sgrins. 'Di pobl ddim yn gafael dwylo. Ti'm yn cofleidio pobl gymaint dim mwy. Ti'm yn rhoi eye contact hefo pobl. Ond os wyt ti'n mynd i dwmpath, mae'n rhaid ti afael mewn rhywun. Cyf10*

*Oedd hi eisiau i fi gael y band [pres]... Oedd hi 'di cael ei sgwennu ar Gader Idris blynyddoedd maith... Oedd hi 'di ffeindio hi yn y llyfrgell. Ac eisiau ni chwarae hi, ac un o aelodau côr Bro Dysynni ddaru ganu hi. A naethon ni neud hynna yn y cyngerdd cofio. Ac oedd hwnna'n rili spesial. Cyf6*

*Ond dwi'n meddwl i fi fel person sy'n gwneud y pethau yna ac yn cymryd rhan yn y pethau, i fi, dyna ydi diwylliant ydi rhywbeth ti'n gwneud. Cyf9B*

*Ac wedyn mewn cymdeithas fach, wyt ti'n teimlo bron bod o'n anghenraid arnat ti i gefnogi. Oherwydd, wel, mae ein plant ni i gyd wedi bod yn y cylch meithrin, neu mae ein plant ni i gyd wedi bod yn yr ysgol. Ac wyt ti'n teimlo, wel, os 'di plant yr ysgol yn neud cyngerdd, wel, dylwn i fynd i gefnogi, chwarae teg, oherwydd maen nhw 'di gweithio yn galed, a lle ni fel cymdeithas ydi eu cefnogi nhw. Cyf3*

*Dwi'n gweld dawnsio traddodiadol, pethau traddodiadol, pethau gwerinol fel pethau amateur, ac ella fod y bobl sy'n gwneud nhw yn teimlo'r un peth â fi. Ac ella fod hyn yn hollol anghywir, ond bod ni ddim yn rhan o'r celfyddydau. Dwi'n gweld y celfyddydau fel rhywbeth mwy uchel-ael, rhywbeth ti'n mynd i wylio, rhywbeth ti'n talu i fynd i weld yn hytrach na rhywbeth ti'n cymryd rhan yn. Cyf10*

### Gwirfoddoli

*Ond mae'n rhaid ti gael pobl sy'n barod i wirfoddoli, sy'n barod i roi o'u hamser, neu 'di'r pethau 'ma byth yn mynd i lwyddo. Mae gwirfoddolwyr mor bwysig. Cyf3*

*O, ia, mae 'na unigolion, […] fel gwirfoddolwyr […], sydd yn chwarae rôl bwysig iawn o ran rhoi eu hamser yn wirfoddol, trefnu pethau. Fel arfer, fel dwi'n deud, er mwyn codi pres, ond hefyd yn adnabod ac yn meddwl pa fath o amrywiaeth o weithgareddau fyddai'n apelio. Cyf1*

*A dwi'n gweld o'n mynd i fod yn fwrn ar 'chydig bach ohonyn nhw fel maen nhw'n mynd yn hŷn. Mae llai a llai ohonyn nhw, ac mae o'n mynd i fod yn eitha bwrn arnyn nhw fel maen nhw'n mynd i fynd yn hŷn i drefnu. Cyf 3*

*Yr ysgol, y pwyllgorau sydd ynghlwm â'r ddwy neuadd, y neuadd yn [enw pentref] a'r ganolfan ym [enw lleoliad]. Y cynghorau cymuned hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran darparu grantiau, darparu cefnogaeth. […] So mae hwnna yn rhan o'r darlun. Cyf1*

*Ond, na, mae 'na lot o bethau'n mynd 'mlaen. Ond wyt ti yn tueddu i ffeindio mai'r un bobl sydd yn trefnu bob peth, sydd tu ôl y pethau 'ma i gyd. Cyf3*

*Mae 'na llai ohonot ti i gael, so mae mwy o bwysau arnat ti wedyn. Ti ffili rhannu'r baich. A fi'n credu falle bod lot o bobl yn teimlo fel'na yn eu cymunedau, bod yr un bobl sy'n neud popeth. […] A fi'n credu ti'n gallu cael dy losgi mas. Cyf12*

*Ond ella bod pobl yn fwy cyndyn i fynd ati i drefnu'r pethau 'ma eu hunain neu jyst angen ni yna i afael yn eu dwylo nhw i helpu nhw i fynd am y grantiau i dalu'r pethau. So, ia, y gwirfoddolwyr a'r cymunedau, cefnogwyr yn fwy na ddim byd rili o ran cefnogaeth. Cyf10*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*'Da ni'n gweithio'n agos hefo'r Gymdeithas [enw]. Ond maen nhw'n heneiddio. Maen nhw'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. 'Da ni 'di gweithio hefo nhw rŵan i gynhyrchu strategaeth pum mlynedd i drio symud pethau ymlaen. Maen nhw'n cael mwy o bobl ifanc ar y pwyllgor. So y nod hirdymor ydi jyst cael lot mwy o bobl yn ymddiddori ac yn cymryd rhan yn ein traddodiad ni. Cyf10*

*Ie, dwi jyst yn gweld bod o'n gyfrifoldeb arna i, wedi cael fy magu yma. Cyf2*

*A chymryd cyfrifoldeb. So ti'n dysgu yn ifanc iawn sut i gymryd cyfrifoldeb. A dy werthoedd o gyfrannu yn y cymunedau lleol. Cyf12*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Mae 'na dal griw o bobl yn yr ardal sydd yn dal yn benderfynol, 'da ni dal yn mynd i gynnal, 'da ni dal yn mynd i fod yma, a 'da ni ddim yn mynd i droi i'r Saesneg. Oherwydd 'da ni'n meddwl bod o'n bwysig bod y pethau yma'n parhau yn Gymraeg. Cyf3*

*Ond mae o'n gyfrifoldeb dwi'n hapus i dderbyn. [...] 'Di o ddim yn faich, achos bod o'n rhywbeth mor gymdeithasol a hyfryd i neud. Cyf9A*

*Ac yn gyfle i 'roi rhywbeth yn ôl'. Cyf3*

*Fi'n credu bod ni i gyd yn teimlo rhyw... Falle bod ni'n cael ein cynghori wastad, so ti byth i fod i ddweud na. Ti fod i gymryd pob cyfrifoldeb, pob cyfle, a ti jyst yn neud e. A fi'n credu bod hwnna'n cael ei roi ynot ti'n ifanc iawn pan ti'n aelod. A fi'n credu bod ti'n teimlo cyfrifoldeb o orfod cyfrannu yn ein cymunedau. Cyf12*

### Cynnal asedau cymunedol

*Yn achos Dyffryn Banw dwi fwya' cyfarwydd â hi, sef cymunedau Llangadfan, Foel a Llanerfyl, mae 'na ddwy neuadd gymunedol sydd hefyd yn rhyw fath o angorfa i weithgaredd diwylliannol fel cyngherddau. So gawson ni gyngerdd yn ddiweddar iawn yn neuadd Llanerfyl i ddathlu can mlwyddiant Capel Bethel, sydd drws nesa. A chyfle i arddangos doniau lleol, doniau cerddorol, a chyfle i ddwyn i gof cyfraniad y capel i'r gymuned. Cyf1*

*Llefydd yn cau, y canolfannau neuadd a phentre, capeli. Llai o leoliadau o fewn ein cymunedau ni i gynnal pethau. Cyf10*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*The interest is still there, and as I said, they're [...] using village halls now where the places of worship are closed, so. Cyf16*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

[...] *ac mae gennyn ni gapel bach sydd yn berchen i [enw], [...], ym mhentre [enw'r pentref] mae hi wedi atgyweirio, a 'da ni'n cynnal pethau yn fanno hefyd, pethau bach diwylliannol rhyw ddwywaith y flwyddyn. Cyf3*

*Ac wedyn mae gen ti lefydd nodedig fel [enw tafarn], sydd hefyd yn adnodd neu'n angorfa gymunedol achos mae o nid yn unig yn darparu gwasanaeth o ran bwyd a diod a lle i bobl ddod i gymdeithasu, ond dyna lle mae'r clwb darllen lleol yn cwrdd, dyna lle mae'r clwb pêl-droed lleol yn cynnal eu cyfarfodydd, dyna lle 'da ni fel pwyllgor cylch meithrin yn dod at ein gilydd, a dyna lle mae pwyllgor Eisteddfod yr Urdd yn lleol yn cynnal eu cyfarfodydd. Felly mae [enw tafarn] yn darparu gwasanaeth fel neuadd gymunedol, ond bod o hefyd hefo'r fantais ychwanegol o fod yn lle cysurus, cyffyrddus lle fedri di gael diod a bwyd ar yr un pryd a tharo i mewn i ffrindiau. Felly mae tafarn [enw] dwi'n meddwl yn bwysig yn yr ystyr yna o ran cyfrannu at ddiwylliant. Cyf1*

*A hefyd am flynyddoedd, o'n i'n rhedeg yr open mic yn y dafarn fan hyn. Oedd hwnna 'di stopio oherwydd roedd [enw'r Bragdy] yn deud bod nhw ddim yn mynd i dalu am adloniant pellach. Cyf7*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Felly dwi'n meddwl bod Plu'r Gweunydd, ein papur bro ni, yn esiampl o ased neu adnodd cymuned bwysig sydd yn rhyw fath o lud cymunedol. Ac mae hwnnw hefyd yn ffordd o ddathlu ein diwylliant ni drwy adrodd straeon teuluoedd, straeon ynghlwm â thai a chynefinoedd, ond hefyd i hyrwyddo'r hyn sydd yn digwydd yn gymunedol. Cyf1*

*Ti'n gwybod be, oedden ni'n siarad diwrnod o'r blaen. Dwi'n neud y [papur bro]. Dwi 'di bod yn neud y papur bro ers 40 mlynedd, ers pan o'n i'n 19 oed, ei deipio fo a gosod o. Ac o'n i'n meddwl wrth fy hun diwrnod o'r blaen, bobl annwyl, mi fydd 'na newid mawr mewn deg mlynedd oherwydd dwi 'di sylwi yn y pum mlynedd ddiwetha 'ma, mae pobl yn marw, yn naturiol, ac wyt ti'n sylweddoli, ww, does 'na neb yn cymryd eu lle nhw. Ond does 'na ddim pobl i gymryd eu lle nhw. Dyna sy'n anffodus. Cyf3*

### Creu a chynnal ymdeimlad o le

*Ac mae o'n ddiwydiant amaethyddol ar y cyfan yn yr ardal yma ac yn ddiwydiant sydd yn cyflenwi ac yn cefnogi'r diwydiant amaethyddol yna, a'r diwylliant cerddorol, gweledol, yr hyn mae'r Ffermwyr Ifanc yn ei neud i annog pobl ifanc i allu cael y profiadau diwylliannol 'na, i allu perfformio, i allu creu diwylliant. Cyf1*

*Wel, rhywbeth sydd ganddon ni lwyth ohono fo yn Eryri ydi brwdfrydedd trigolion [...] dros dreftadaeth ddiwylliannol. Dwi'n meddwl bod ni yn byw ac yn gweithio mewn ardal lle mae pobl yn deall eu gwreiddiau, neu mae 'na lot mawr o bobl yn deall eu gwreiddiau. Ac mae 'na berthynas gymharol agos ella oherwydd amlygrwydd y diwydiant amaeth yn yr ardal. Mae 'na gyswllt agos rhwng pobl a'r tir, a gobeithio pobl a byd natur hefyd. Dwi'n gwybod bod hwnna'n edwino yn gyffredinol, ond dwi'n meddwl bod ni dal yn gymharol ffodus o ran cymunedau gwledig bod ni'n eitha agos at y tir ac at natur. Felly mae hwnna yn sicr yn rhywbeth sydd yn help mawr. Mae'r ffaith bod pobl yn deall pam bod o'n bwysig ac yn ei werthfawrogi fo mewn ffordd emosiynol ac yn rhywbeth maen nhw'n teimlo sydd yn perthyn iddyn nhw, mae hwnna yn andros o help. Cyf8*

*Mae tirwedd mwyn Maldwyn yn fwy addfwyn, yn fwy bryniog ac yn arbennig o hardd. Ac mae 'na risg neu mae 'na densiwn yn fanna hefyd oherwydd 'da ni'n teimlo, ni fel teulu 'lly yma, bod dim diwylliant heb ddiwydiant. Cyf1*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Ond hefyd, yn enwedig Cader Idris achos mae 'na ddiwylliant arbennig ar Gader Idris. 'Di o ddim fel bod ni yn ffermio un fferm. 'Da ni'n ffermio hefo cymdeithas o ffermwyr. Ti'n gwybod, amser hel, tua deg ohonyn nhw yn dod. Ac mae hwnna i fi yn gnewyllyn, 'da ni mor lwcus i fod yn rhan o hwnna. Ac mae o'n mynd i roi bywyd, dyfodol i'r meibion sydd gen i achos maen nhw'n mynd i ddilyn y traddodiad yna yn eu cymdogau. Cyf6*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*A'r rheswm mae hi 'di cael ei alw yn Ysgol Cwm Banwy, gaethon ni bobl yn dod ag enwau i mewn o'r ardal. Oedden nhw'n blant ysgol. Oedden nhw'n henoed o'r ardal. Gaethon ni restr o enwau lle oedd yn rhaid i ni ddewis fel corff llywodraethol am enw'r ysgol. Ag, o, dwi'n cofio, oedd Ysgol yr Argoed oherwydd roedd 'na dŷ bach blynyddoedd yn ôl yn arfer bod ar gampws yr ysgol. Mae o ar Fapiau'r Degwm, ond dydi o ddim yna ers hynny, ac Argoed oedd enw'r tŷ yna. So gaethon ni Ysgol yr Argoed. Gaethon ni Ysgol y Wiber achos Gwiber Moel Bentyrch, yr hanes yna. A gaethon ni Ysgol Cwm Banwy. Dwi'n cofio hynna. A gaethon ni Ysgol Cwm Banwy. A'r rheswm naethon ni ddewis Cwm Banwy, o be dwi'n cofio, ydi achos naeth Gwyn Erfyl sgwennu cerdd. Ac yn y gerdd, roedd o'n cyfeirio at Gwm Banwy. A dyna'r rheswm gaeth yr ysgol ei henwi yn Gwm Banwy. Cyf2*

*Wel, tafodiaith mwy na ddim byd. Fel o'n i'n deud, mae gen i blant yma... Mae'r ffordd ysgol 'ma 'di newid. Blynyddoedd yn ôl, oedd o ddim ond yn blant o'r ardal, tafodiaith Maldwyn, Sir Trefaldwyn i'r carn. Rŵan prin iawn ydi'r dafodiaith yna. Ond be sy'n dod â gwen mawr ar fy wyneb i ydi pan 'da chi'n clywed plant sydd 'di dod o Essex sy'n defnyddio geiriau fel "glew" a "ne". A dwi wrth fy modd hefo hynna. Cyf2*

## Cefnogaeth sefydliadol a seilwaith galluogi

*Oedd y capeli dal yn brysur pan o'n i'n ifanc. Ac oeddech chi'n clywed y pedwar llais yn gry' yna. Cyf9A*

*Mae'r capeli yn diodde. A lle bysa'r capeli wedi bod yn llawer mwy gweithgar 50 mlynedd yn ôl, mae 'na lai o ddylanwad gan y capeli erbyn hyn. A fysa nhw wedi bod yn cynhyrchu llawer o'r profiadau diwylliannau yna hefyd achos fysa ganddyn nhw glwb drama, er enghraifft, neu fysa 'na bethau'n digwydd ynghlwm â'r capel doedd ddim gwirioneddol yn brofiadau crefyddol ond yn brofiadau diwylliannol hefyd. Cyf1*

*[...] yr hyn mae'r Ffermwyr Ifanc yn ei neud i annog pobl ifanc i allu cael y profiadau diwylliannol 'na, i allu perfformio, i allu creu diwylliant. Cyf1*

*[...] dwi'm yn meddwl bod 'na ddim byd llawer iawn pwysicach na'r clwb Ffermwyr Ifanc ym Mro Dysynni, yn enwedig pan 'da chi'n edrych ar falle bod ni yn gymuned eitha gwledig. Mae'r Gymraeg falle yn dirywio yn yr ardal. A 'da ni fel mudiad yn gadarnle i'r Gymraeg. Cyf5*

*Mae [enw] newydd ddechrau mynd i Aelwyd Sycharth i glocsio achos dwi'n meddwl bod hwnna'n bwysig. Cyf2*

*Maybe not enough young ones getting involved at the moment, but having said that, the young farmers did have their Eisteddfod recently and there was a competition and they all sang Plygain carols. Cyf16*

*Oedden ni'n neud gwahanol bethau fel Deio i Dywyn, ac oedden ni'n mynd am dro rownd yr ardal hefo plant y llyfrgell ac wedyn creu ffilm. So naethon ni dri, actually, Cantre'r Gwaelod, Llyn Barfog. Eto, defnyddio traddodiadau neu storis Cymru i ddod yn fyw. Mair Tomos Ifan, waw, oedd hi'n dod i mewn hefo'r delyn. Cyf6*

*A, ti'n gwybod, mae pethau fel Eisteddfod Genedlaethol neu Eisteddfod yr Urdd yn dod i'r ardal yn rhyw fath o gatalydd i weithgaredd diwylliannol hefyd, er bod yr elfen codi arian, yn amlwg, yn brif ran o'r gyriant ar gyfer hynny. Cyf1*

*A hyd yn oed [enw] rŵan, sydd 'di cael ei phenodi fel [rôl] ar y prosiect, mae hi 'di tyfu i fyny mewn teulu sy'n [enw arferiad], ond eto doedden nhw ddim yn neud lot o [arferiad ar ffurf gweithgaredd cyfranogol ar lawr gwlad]. Oedden nhw jyst yn cystadlu. Dyna oedd be oedden nhw'n neud. So mae o 'di bod yn agoriad llygad iddi hi i mewn i'r diwylliant [cyfranogol ar lawr gwlad] a'r hwyl sy'na. Cyf10*

*Ond maen nhw'n gwybod sut mae trefnu. Maen nhw 'di cael eu trwytho sut i drefnu pethau, chwarae teg. Ac fel dwi'n deud, ti'n gweld sut maen nhw'n esblygu o fod yn Ffermwyr Ifanc i Cylch, lle maen nhw'n trefnu pethau, i Ffrindiau'r Ysgol, ac wedyn pwyllgor y ganolfan neu rywbeth fel hynny. Cyf3*

*Ac mae [enw] 'di dod i fyny hefo syniad o neud gweithdy i ddangos i'r teenagers sut i roi gigiau ymlaen, ac wedyn cael funding i dalu'r bandiau. Ond nhw sy'n neud y posteri. Nhw sy'n trefnu o. Nhw sy'n neud y [aneglur 00:11:35] a bob dim fel mai babi nhw ydi o, ynde. Ond mae Menter Iaith yn talu'r gigiau, talu'r lleoliad a beth bynnag maen nhw angen. So 'wyrach fydd hwnna'n creu rhyw fath o sîn bach iddyn nhw [...] Cyf7*

*Ia, galla i'm dychmygu [enw sefydliad cyhoeddus cenedlaethol] yn cynnig dim byd yn ddiwylliannol. Cyf3*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Piti 'sa 'na rywbeth 'sa ni'n gallu cynnig i addysgu pobl a phobl ifanc mwy am eu cynefin a'u byd natur a phethau sydd o gwmpas y lle 'ma, a hynny trwy'r Gymraeg. Dwi'm yn deud, oedd 'na [enw sefydliad] a*

*phethau fel hynny, ond dwi'm hyd yn oed yn gwybod os 'dyn nhw dal ar fod. Fuon nhw'n neud pethau ond drwy'r Saesneg. Cyf3*

*I think one of the things we had discussion after our Citizens panel, which was a really, really good and interesting as an exercise for us. But we did question whether if we had the same exercise again in Welsh language only, whether the outcomes would have been different, which they probably would, and the priorities would be different as well. Cyf14C*

*Dwi'm yn gwybod be fysa'r ffordd, heblaw am gyllido prosiectau. Cyf10*

*Naethon ni ymgeisio am grant [...] a naethon ni ddefnyddio'r grant yna wedyn i [enw artisit], yr arlunydd, i ddod i mewn i'r [lleoliad] i gynnal gweithdy arlunio hefo'r plant. Ac mae hwnna'n brofiad diwylliannol diwylliedig mawr oherwydd gymaint ydi dylanwad tirlun Maldwyn ar ei gwaith hi a'r chwedlau a'r Mabinogi ac yn y blaen. Cyf1*

*Mae cael cymorth strategol a swyddogol yn gallu... Dim niweidio fo, ond newid ei naws o. A dyna be sy'n neis amdano fo ydi fod o dal yn digwydd yn naturiol. Dwi'n gweithio hefo [enw sefydliad trydydd sector], ac maen nhw i gyd 'di dechrau cael eu sefydlu gan wirfoddolwyr, ond wrth i ni dderbyn nawdd Llywodraeth Cymru dros amser a chyflogi mwy o staff, a dwi'n siŵr bod yr [sefydliad arall] yn ffeindio'r un peth â [sefydliad arall], mae pobl yn fwy... Lle oedd pobl yn barod i wirfoddoli i neud y pethau yma, rŵan yr agwedd ydi, "O, mae pobl yn cael eu talu i neud hwnna, so nawn ni adael iddyn nhw neud o," yn lle cymryd y cyfrifoldeb drostyn nhw eu hunain. Cyf9B*

*Ar hyn o bryd, hefo'r sôn am blygain a thwmpathau, mae'n neis gadael y rheina redeg yn wirfoddol fel ag y maen nhw. Be 'da chi eisiau i'r llywodraeth neud ydi peidio gwneud o'n anoddach ac yn anoddach i gynnal y pethau 'ma trwy stopio pobl ifanc rhag dysgu Cymraeg. Cyf9A*

*So that we retain those hefted flocks. So we could say actually the hefted flock is not that important, we just need the land managed in a particular way. But actually that's not what we're saying cause you know we'll value both of those. Cyf14B*

*Felly mae 'na yriant yn dod gan y bobl sydd yn ymwneud â'r Cylch o ddydd i ddydd a'r berthynas sydd yn bodoli hefo ysgol gynradd [enw] hefyd. Cyf1*

*Mae gennyn ni siart sol-ffa ar y wal, a 'da ni'n ymarfer canu. Jyst pethau fel yna, pethau bach, ond jyst i gynnal y diddordeb yna i'r dyfodol. Wedyn maen nhw'n mynd yn rhan o Aelwyd [enw]. [...].*

### Integreiddio TDdA drwy ysgolion a'r cwricwlwm cenedlaethol

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Ac mae lot o'r gyriant o safbwynt y chwedlau a'r straeon a'r Mabinogi a hanesion lleol yn dod o ddiddordeb y staff a gyriant polisi gan y [sefydliad] hefyd, oherwydd bod gan y [sefydliad] adnoddau sydd yn ymwneud hefo meddwl am sut i gyplysu chwedlau lleol i mewn i weithgareddau chwarae hefo'r plant. Cyf1*

*Dyna ydi'r peryg hefo addysg Gymraeg, mewn ffordd. Mae'r iaith yn Gymraeg, ond mae'r addysg yn efelychu addysg Saesneg, mewn ffordd. Does 'na ddim byd Cymreig am brofiad lot, be mae llawer o blant yn cael. Mae cyflwyno'r iaith yn hynod, hynod bwysig, a dyna ydi ffocws y peth, ond os allwch chi neud o'n addysg Gymreig, mae o'n rili gwreiddio'r iaith a gwreiddio pobl yn y wlad. 'Da ni'n poeni am bobl yn gadael y wlad o hyd. Wel, be sy'ma i gadw nhw yma os 'dyn nhw'm yn cael dim byd 'blaw stwff Anglo-Americanaidd, beth bynnag. Maen nhw jyst yn neud pethau Anglo-Americanaidd trwy'r Gymraeg. Does dim diben, mewn ffordd. Cyf9A*

*A 'da chi jyst eisiau pawb wybod amdano fo, mewn ffordd. Ac ar hyn o bryd, 'da ni'n gorfod brwydro hefo'r drefn addysg, sydd â dim diddordeb ynddo fo yn yr ardal yma. Wel, uwchradd. Rhaid fi fod yn ofalus. Cyf9A*

*Hwnna 'di'r peth creiddiol, allweddol, jyst sicrhau bod plant yn gallu tyfu i fyny yn ddwyieithog. 'Da ni'n gallu cadw drysau'n agored iddyn nhw wedyn. [...] Jyst derbyn a chaniatáu pwysigrwydd y diwylliannau 'ma gael eu hamlygu, bod athrawon yn gwybod rhywbeth am eu diwylliant eu hunain. Achos dyna 'di'r broblem. Cyf9A*

## Adnabod, Mesur a Chefnogi TDdA drwy Bolisi

*Mae'r gefnogaeth sefydliadol 'na'n bwysig hefyd, dydi. Mae'n rhaid i'r awdurdod ei hun barhau i weld hyn yn bwysig. Mae'n aelodau ni a Llywodraeth Cymru yn sicr yn gweld hyn yn hynod, hynod o bwysig ar hyn o bryd. A does 'na'm rheswm i feddwl y bydd hynna'n newid. 'Swn i'n licio meddwl mai cynyddu bydd eu dealltwriaeth nhw pam bod hyn yn bwysig a sut mae o'n helpu i gyd-gysylltu yr elfennau eraill. Cyf8*

*Dwi'n edrych ar werth economaidd a gwerth cymunedol neu gymdeithasol diwylliant. [...] Ond mae pawb yn deud, "O, yndi, mae diwylliant yn bwysig." Dwi'n cael fy herio o hyd, "Wel, faint mae diwylliant, be 'di ei werth o? Be 'di gwerth y gweithgareddau 'ma 'da chi'n neud?" A ti'n, wel, maen nhw'n rili pwysig i iechyd, lles, bwrlwm cymuned. A pan ti mewn cyfnod o doriadau di-ben-draw, mae diwylliant a gwasanaethau diwylliannol wastad yn rai sydd... Er bod pawb yn deud, "O, mae o mor bwysig," maen nhw wastad yn rai sydd, mae'n debyg, yn cael y chop cyn neb. Cyf13*

*Mae'r adroddiad yna yn edrych ar bob un o'r rhinweddau arbennig, yn casglu data amdanyn nhw. Ac mae hynna'n gallu bod yn eitha anodd hefo rhai ohonyn nhw. Ti'n gwybod, o ran ysbrydoliaeth ar gyfer y celfyddydau, er enghraifft, mae hwnna'n edrych ar bethau fel cyflogadwyedd yn y maes yna neu'r diwydiannau creadigol ac ati yn yr ardal. Ia, casglu bob math o ddata ar y naw rhinwedd arbennig. Cyf8*

*It's a key thing for us to reflect in our management plan so that we can value it and actually monitor or measure what we think's happening to it. Cyf14A*

*Neu'n aml ella o ran treftadaeth byw, oherwydd bod o i neud hefo pobl, ynglŷn â sut mae pobl yn teimlo amdano fo. Mae hynna yn ei hun yn ffordd eitha'... Ti'n gorfod buddsoddi lot o amser yn hynna, dwyt, yn meithrin perthnasau i bobl fod yn fodlon deu'tha chdi sut maen nhw'n teimlo. Mae'n siŵr mai dyna 'sa'r prif beth, 'swn i'n deud. Mae'r adborth gan bobl a'r ffordd maen nhw'n teimlo am bethau yn rhywbeth 'da ni'm 'di arfer ei fesur, ond ella y peth sydd mwya dadlennol i ni o ran y math yma o brosiectau. Cyf8*

*Yn amlwg, dyna le mae [...] swyddog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn trio pwshio pethau ar hyn o bryd. O ran y [partneriaeth strategol], dwi erioed 'di cael gwahoddiad i fynd yna. Dwi'm yn gwybod pwy sy'na yn cynrychioli'r sector ddiwylliannol, er enghraifft, ti'n gwybod. Cyf13*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf13*

*Oedd hwnna'n rhywbeth ddaeth drwodd yn glir iawn. Dwi 'di sôn o'r blaen am y daith i Bradford yn y gwanwyn. So maen nhw 'di gorfod cydweithio ar raddfa anhygoel yn fanna a jyst 'di gorfod dod ag adrannau priffyrdd ac amgylcheddol ac yn y blaen hefo nhw ar y prosiect diwylliannol enfawr 'ma. Ti'n gallu taro wal frics yn hawdd iawn o fewn y sefydliad weithiau, dwyt, o safbwynt ella materion cynllunio neu rywbeth felly fysa fo fwya' tebygol o fewn [cyd-destun ein gwaith ni]. Ond trio dod â nhw i mewn i'r broses cynllunio prosiect a chael nhw yn rhan o'r tîm a thrio gweithio yn y ffordd yna. Dwi'n meddwl fod gennyn ni andros o ffordd i fynd ar hynny. Mae 'na enghreifftiau da 'di bod, ond mae o bendant yn rhywbeth sydd angen gwella eto, dwi'n meddwl. Cyf8*

*Aethon ni ar ymweliad i Bradford [...] mis Chwefror i weld be oedden nhw'n neud yn fanno hefo dinas diwylliant. Ac oedd o jyst yn syfrdanol. Cynllun nhw oedd Culture is Our Plan. Dwi'm yn gwybod os ti 'di darllen o. Ond maen nhw'n rhoi diwylliant yn ganolog i bob peth maen nhw'n neud ar draws y cyngor. Ac, wrth gwrs, maen nhw'n ddinas diwylliant rŵan, dydyn. Ond oedd diwylliant yn mynd i dy wasanaethau cymdeithasol di. Oedd o'n mynd trwy dy wasanaethau addysg di. Oedd o'n mynd trwy dy wasanaethau amgylchedd di. So oedd o 'di treiddio drwodd i fod. Dyna be oedden nhw'n deud. Cyf13*

### Buddsoddiad ariannol a chefnogaeth adnoddau

*Wel, fel popeth arall, funding 'di'r broblem. Fysa fo'n neis os oedd 'na, in an ideal world, pot o bres i ddeud, "Reit, 'da ni eisiau rhoi rhywbeth ymlaen. 'Da ni eisiau gwneud yn siŵr fod pawb 'di cael eu talu yn iawn." Achos 'di o'm yn deg fod pobl yn gorfod chwarae am bron iawn dim byd achos cyflog nhw ydi o. Fysa fo'n grêt jyst cael pot o arian jyst i helpu rhoi gigiau ymlaen a thalu pawb. Cyf7*

*Oedd 'na dros [gwybodaeth wedi ei hepgor] ynddo fo blynyddoedd yn ôl, a dim ond [gwybodaeth wedi ei hepgor] s'gennyn ni erbyn hyn yn y pot grantiau strategol i'r celfyddydau. Ac, oce, mae hwnna'n rili ffocysio ar y celfyddydau fwy na threftadaeth ddiwylliannol byw, ond mae o'n cefnogi gweithgareddau celfyddydol fysa ti'n cysylltu ni hefo diwylliant byw a threftadaeth byw. Cyf13*

*Mae gennyn ni gynllun blaenoriaethau diwylliannol newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae hwnnw'n amlwg yn gosod uchelgais allan a blaenoriaethau. [...]. Mae gennyn ni'r Ddeddf Llesiant. So mae gennyt ti fframwaith polisi eitha cry' yna, does. Dwi wastad yn dod lawr i bres. So heb bres a chefnogaeth, boed o ddim yn bres, bod o'n gefnogaeth ymarferol, dwi'n meddwl bod hi'n rili heriol i fedru gweithredu'r polisïau a'r blaenoriaethau 'na. So i fi, mae o'n dod i lawr i adnoddau. Cyf13*

*Ond yn fwriadol, oedd yr aelodau eisiau gweld ni'n trosglwyddo'r pres 'na i gymunedau a grwpiau eraill, dim jyst [sefydliad]. So mi oedd gennyn ni [cronfeydd amrywiol] [...] mae o 'di helpu lot o sefydliadau ar draws y sir. Cyf13*

*Chwilio am bres rownd y rîl. Meithrin perthnasau da hefo arianwyr fel y Gronfa Treftadaeth. A'r National Grid hefyd a'r gwaith cyfalaf maen nhw'n ariannu. Ond 'da ni 'di bod yn ffodus i fedru cynnwys hwnna fel arian cyfatebol mewn ceisiadau eraill. Mae archaeoleg yn un o'r agweddau maen nhw yn ariannu, felly er bod o ddim yn dreftadaeth fyw yn ei hanfod, mae'r cysylltiadau i dreftadaeth byw, mae o'n agor drws, mewn ffordd. Dwi'n meddwl bod hwnna'n beth pwysig iawn. Cyf8*

*Oedden ni 'di gobeithio cael cyllid am ddwy flynedd arall wedyn, ond ddaru ni ddim cael. So oedd rhaid i ni ailgyflwyno a chael arian am flwyddyn. So mae o'n faich gorfod neud y ceisiadau ariannol trwy'r amser. Achos mae arian y llywodraeth mwy neu lai jyst yn talu am ein bodolaeth ni ac am ein swyddi ni a'r swyddfa a phethau. So ar gyfer unrhyw brosiectau 'da ni eisiau datblygu, maen nhw un ai yn gorfod talu am eu hunain hefo incwm tocynnau neu be bynnag, neu 'da ni'n gorfod ffeindio grantiau i dalu amdanyn nhw. So fysa cael arian craidd blynyddol yn ysgafnhad bach. Cyf10*

## Ffactorau sy'n galluogi ac yn rhwystro prosesau cynhyrchu ac atgynhyrchu TDdA

### Y Gymraeg

*Pan wyt ti yn Nyffryn Banw, mae bob peth yn tueddu i fod yn y Gymraeg. Mae bob peth 'da ni'n cynnal yn tueddu i fod yn y Gymraeg. Os 'da ni'n cynnal rhywbeth yn y neuadd ym Manw, yn Llanerfyl neu be bynnag, pethau Cymraeg ydyn nhw. Unwaith wyt ti'n mynd i Lanfair, mae'r iaith yn newid. Wyt ti'n ffeindio bod trefi marchnad yn Sir Drefaldwyn, fel Llanfyllin a Llanfair a llefydd fel hyn, er bod 'na lot o*

*Gymry, ond Cymry di-gymraeg ydyn nhw sydd wedi colli'r Gymraeg dros y cenedlaethau. Ond Cymry ydyn nhw dal. Ffermwyr yr ardal ydyn nhw ond wedi colli eu Cymraeg. Mwy na thebyg bod eu plant nhw bellach wedi mynd trwy addysg Gymraeg, ond mae'r genhedlaeth hŷn 'na... Cyf3*

*Oce. So mae Aberdyfi yn wahanol iawn i weddill y fro rili. Dwi'n siŵr bod chi'n gwybod, mae 'na lwyth o ailgartrefi a stwff fan hyn. So mae Aberdyfi ers i mi fod yn blentyn wedi mynd yn fwy ac yn fwy Saesneg. Ond mae 'na dal siaradwyr Cymraeg yma. 'Da ni dal yma. Mae'r plant, wrth gwrs, hyd yn oed y rhai sydd 'di symud i mewn, i gyd yn siarad Cymraeg achos mae'r ysgolion i gyd yn gyfrwng Cymraeg. So mae hwnna yn newid. Ac mae hwnna 'di troi ar ei ben rili. Cyf7*

*Yr un fath ag oedd 'na gyngerdd yn Llanerfyl rhyw wythnos yng nghynt gan y capel, (enw). Ond uniaith Gymraeg fysa hwnna. 'Da ni ddim yn tueddu i neud pethau yn ddwyieithog fyny fan hyn. Dwi'n meddwl bod [grŵp] yn neud rhywbeth fel gyrfa chwilod a rhyw bethau fel hynny. Ond 'na fo, mae gen ti lot o rieni di-Gymraeg, ti'n gweld. Pan wyt ti'n dod i bethau fel [gweithgareddau i blant], sydd â rhieni di-Gymraeg, maen nhw yn gorfod neud pethau'n fwy dwyieithog, dydyn nhw. Ond o ran ni fel, ti'n gwybod, os 'di capeli yn cynnal rhywbeth neu os 'di Merched y Wawr yn cynnal cyngerdd neu bethau fel'na, neu'r Gymdeithas Hanes yn cynnal rhywbeth, 'da ni'n tueddu i neud o yn Gymraeg fyny fan hyn, bob peth. Dwi'm yn gwybod pa mor hir barith hynny, ond dyna ydi'r norm ar hyn o bryd dal. Cyf3*

*[...] the project was all about curlew conservation. But you know, it transpires that, you know, there's more words for curlew in Welsh. There's about 100 different words for curlew in Welsh, you know, depending where you are in Wales and what you'd call them, you know and... and so that shows, it's a really, you know, it's very much you know, part of that culture, you know that very local sort of culture and a lot of the words for curlew will relate to, you know, the coming of the seasons, you know, like Deryn y glaw. So you know, tells you something about the landscape. So I think those are things to hang on to and not so much in it because we tend to do that in a kind of a touristy way, you know, or let's, you know, sort of talk about Welsh language in a, you know, but actually that it's more than that tells you about our communities and our landscape. Cyf14A*

*Ia, yn hollol. Y diwylliannau sydd 'di cynnal y Gymraeg ym mhen yma o'r wlad. Does dim byd arall 'di gwneud o. Does dim byd arall 'di neud o. Yr unig reswm dwi'n siarad Cymraeg, oedd fy nheulu yn siarad Cymraeg a'r capeli yn siarad Cymraeg a chymdogion yn siarad Cymraeg. Cyf9A*

*A dwi'n gwybod fod iaith a diwylliant, maen nhw'n plethu'n agos iawn yma, dydyn, yn [yr ardal yma]. Oedd 'na gwestiwn yng Nghaerdydd o ran be am dreftadaeth ddiwylliannol sydd ddim yn Gymraeg yng Nghymru? 'Di hwnna 'wyrach ddim mor amlwg yma yn [yr ardal yma] potentially, ond 'wyrach bod o o fewn cymunedau sydd 'di symud i mewn yma. Cyf13*

*Ac mae'n debyg bod newid iaith, newidiadau ieithyddol hefyd yn her oherwydd, ti'n gwybod, falle bod 'na bwysau gan rai i gynnig mwy o gyfleoedd dwyieithog, ond mae cyfleon dwyieithog yn troi i mewn i procsi am weithgareddau Saesneg, sydd yn amlwg yn fygythiad wedyn, dwi'n meddwl, i barhad y Gymraeg ac i barhad rhai o'r profiadau diwylliannol yna sydd ynghlwm â'r Gymraeg neu sydd yn perthyn i'r Gymraeg, fel dy gerdd dant, dy bapur bro, dy gynghanedd, be bynnag ydi o, yr esiamplau 'na o ddiwylliant sydd, i bob pwrpas, yn asedau ieithyddol yn gymaint ag ydyn nhw'n asedau diwylliannol. Cyf1*

*So oedd 'na real cymuned yma pan o'n i'n fach. Ac mae hynna 'di newid. Mae hanner y tai yn y pentre, tua hanner rŵan yn ailgartrefi neu yn holiday lets. So gallwch chi ddychmygu. Ac wedyn mae lot o bobl 'di symud i'r ardal. So mae'r bobl sy'n byw yn y pentre hefyd, 'dyn nhw ddim yn siarad Cymraeg. Ac mae 'na real cliques o wahanol bobl, ail-gartrefwyr sydd 'di symud yma, ac mae 'na fel clique ohonyn nhw. Ac*

*mae rhai ohonyn nhw actually yn hollol wrth-Gymraeg. [...] So mae 'na rai pobl sy'n rili gwrth-Gymraeg yn y pentre, ac mae hwnna'n rili anodd. Cyf7*

*Ond does 'na'm byd yn stopio pobl rhag mwynhau ein diwylliant ni er bod nhw'm yn gallu siarad Cymraeg, yn enwedig hefo'r dawnsio gwerin a'r clocsio a'r twmpathau. Mae hynny'n ffordd wych i bobl. Y pethau celfyddydol, y pethau wyt ti'n gallu gwylio neu wrando ar neu weld, mae pobl yn gallu mwynhau nhw hyd yn oed os 'dyn nhw'm yn deall yr iaith. Ond dwi'n meddwl i fi fel person sy'n gwneud y pethau yna ac yn cymryd rhan yn y pethau, i fi, dyna ydi diwylliant ydi rhywbeth ti'n gwneud. Cyf9*

### Addasu ac esblygu

*Be sy'n ddiddorol, mae 'da ti llai o aelodau sydd yn draddodiadol o gefndir ffermio. Mae'r aelodau o gefn gwlad Cymru yno, aelodau gwledig. So 'di o'm rhaid ti fod yn ffermwr. Be sy'n ddiddorol hefyd yw, dyw aelodau ddim moyn newid yr enw. So maen nhw dal eisiau fo'n Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, ond dyw'r rhan fwya' ohonyn nhw ddim yn ffermwyr. Maen nhw jyst yn dod o gefn gwlad Cymru. Mae hwnna'n bwysig. So mae o'n dangos bod y traddodiad yna'n bwysig iawn i nhw. Cyf12*

*Ond mae hi wedi newid. Pan oeddwn i yn ferch ifanc nes deuda 20 mlynedd yn ôl, roedd hi'n steddfod oedd ymlaen o 12 o'r gloch pnawn tan 1 o'r gloch bore. Ac oedd gen ti gystadlu plant, pobl ifanc, ac wedyn pobl mewn oed. Ond yn anffodus, mi aeth niferoedd y cystadleuwyr pobl ifanc a phobl mewn oed, aethon nhw i lawr, a phenderfynwyd, wel, nawn ni jyst neud hi'n steddfod plant. Cyf3*

*Adeg COVID, ddaru ni neud plygeiniau rhithiol, recordio rhai i rannu ar YouTube. Ond mae'r diddordeb 'di tyfu, yn rhannol oherwydd hynny. Oedd pobl dros y byd yn gwylio nhw. Dwi'n cofio cyn hynny, 'swn i'n dod i blygeiniau hefo ti, ac wedyn rhan hefyd o'r traddodiad ydi fod 'na swper wedyn. A dyna 'di'r darn mae pawb yn mwynhau allan o'r carolwyr, yn cael siarad hefo'i gilydd, cymdeithasu. Cyf9B*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Wedyn fysa 'na rywun gwastad yn sefyll i fyny ar y diwedd i neud diolchiadau ac yn cyhoeddi lle oedd y plygeiniau nesa yn yr ardal. A doedd 'na'r un rhestr ffurfiol cyn hynny o le oedd y plygeiniau. Ella fysa nhw i lawr yn y papur bro, ond os doeddet ti'm yn byw yn yr ardal yna, 'sa ti'm yn gwybod lle na phryd oedd y plygain. So dyna pam 'da ni 'di mynd ati i greu gwefan plygain.org hefo criw bach o bobl oedd yn ymddiddori yn y plygain. Cyf9B*

*A chymanfa ganu a phethau. Oce, mwy o emynau mewn cymanfa ganu, ond... Ie, oedd 'na ffyrdd, doedd, traddodiadol Cymraeg fel Noson Lawen, cymanfa ganu, eisteddfod. Dyna sut o'n i 'di dysgu. Ond rŵan, mae unrhyw un, unrhyw le yn y byd yn gallu jyst mynd ar-lein a dysgu'r stwff 'ma. So gobeithio y bydd hwnna yn effeithio mewn ffordd dda ac nid... So mae gymaint o versions o'r un cân ar y wefan rŵan a phobl yn dysgu'r geiriau anghywir. Oce, dwi'n deud anghywir. Caneuon gwerin, mae 'na ryw fath o evolution rhwng y cenedlaethau, ond 'da ni'm eisiau pethau cael eu newid gormod bod yr hen fersiynau yn cael eu hanghofio chwaith. Oeddet ti'n arfer jyst dysgu o allan o lyfr neu trwy deulu neu beth bynnag. Cyf7*

*Ac felly dwi'n gallu pwyntio at esiamplau eto o'r ysgol Sul. Dwi'n meddwl mai ni 'di'r ysgol Sul lleia crefyddol yn y byd. Mae o'n ysgol Sul sydd... Dylwn i'm deud hynny chwaith. Ond mae o'n fwy am werthoedd a lot o brofiadau diwylliannol, canu, symud, dawnsio, perfformio. Ond mae o'n ddifyr achos pan o'n i'n hogan fach, oedd yr ysgol Sul, oedd o bob dydd Sul. Wel, 'di hynna jyst ddim yn mynd i ddigwydd dim mwy. Rŵan mae'r ysgol Sul yn cwrdd falle unwaith y mis achos mae bywydau pawb mor brysur. Ac mae'r ysgol Sul yn cystadlu hefo clwb pêl-droed neu clwb hoci am ddiddordeb ac am amser y plant. So dwi'n meddwl bod [aneglur 00:48:17] ffynnu yn gorfod addasu i gymuned ac i ffordd o fyw sydd yn newid hefyd. Cyf1*

*Ond 'da ni'n sôn am falle neud prosiect hefo hi yn canu emynau mewn tafarn so fod pobl yn dysgu canu mewn harmoni. Cyf9B*

*'Dyn nhw ddim yn rheolau. [...] Ond maen nhw'n ganllawiau. Achos yn draddodiadol, fysa lot o bobl yn dadlau fod ti ddim i fod i ddefnyddio offeryn i gyfeilio, bod o i fod yn ddi-gyfeiliant. Ond mae rhai plygeiniau'n caniatáu pobl i ganu hefo gitâr neu organ weithiau. Hefyd yn draddodiadol, 'da chi'm i fod i glapio. Cyf9B*

## Cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol

*[...] yn yr ardal yma, mae cymaint o bobl sydd yn nabod ei gilydd, sydd yn perthyn i'w gilydd, ac felly wyt ti yn teimlo fel rhywun sydd... A dydi o ddim yn beth negyddol, ond ti rhywfaint wastad ar y cyrion rhyw ychydig. Cyf1*

*Ac mewn ffordd, dwi'n dod o Lanegryn, so waeth 'swn i'n dod o Firmingham. Ti either o Abergynolwyn, neu ti'n dod o i ffwrdd. Mae [enw gŵr] o'r ardal, so mae hynna'n grêt. So, ti'n gwybod, fel'ma mae pentre, cymdeithas yn gweithio. Achos oedd Mam o Sir Drefaldwyn, ac oedd hi dal i ddeud, gafodd hi byth ei derbyn fel rhan o'r gymdeithas, er bod hi'n chwarae rhan fawr. Cyf6*

*Oni bai bod ti'n perthyn i deulu dawnsio gwerin neu i deulu penodol oedd yn rhan o grŵp dawnsio gwerin, yna prin iawn o brofiad o'r diwylliant 'ny oedd y lleill 'di cael. Cyf9B*

*Dwi 'di sôn am y newydd-ddyfodiaid sy'n dod a bod ni'n trio trosglwyddo diwylliant iddyn nhw ac iaith iddyn nhw ac enwau lleoedd iddyn nhw. [...]. Dwi'n meddwl bod y rheina y garfan o bobl 'da ni eisiau parhau i weithio hefo. 'Da ni 'di adnabod LGBTQ+ fel un carfan, a phobl ifanc yn garfan arall, merched fel carfan arall, a phobl anabl 'di carfan arall 'da ni'n trio gweithio hefo. Cyf13*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*So yn sicr o ran prosiect [enw], 'da ni wedi yn bwrpasol targedu pobl ifanc achos dyna oedden ni'n gweld oedd y dyfodol. A 'da ni'n adrodd yn ôl i aelodau [y gymdeithas] ar y prosiect, ac maen nhw wedi tynnu sylw at y ffaith fod y grwpiau presennol ella ddim yn cael eu cynnwys yn y prosiect llawer, sy'n ddigon teg. Ac mae'r grwpiau yna'n hŷn, ac mae 'na le pwysig ofnadwy iddyn nhw achos nhw sydd wedi cynnal y traddodiad ers blynyddoedd, ac oni bai amdanyn nhw, fysa fo 'di marw. Cyf10*

*[Dyfyniad wedi ei hepgor]. Cyf11*

*Mae o'n anodd, dydi. Mae o'n heriol. Achos ti eisiau bod yn gynhwysol. Ond 'di bod yn gynhwysol ddim yn golygu bod rhaid ti newid i iaith arall chwaith, nac'di. Mae rhai pobl yn mwynhau cael yr ymdeimlad 'na o fod wedi trochi mewn profiad. Os dwi'n mynd i ffwrdd dramor, well gen i gael y profiad authentic gwreiddiol, heb fod yn twee nac yn false, yn yr iaith frodorol neu wreiddiol. Cyf13*

*Mae'r ddau yn cyd-fynd, dydyn nhw. Fel o'n i'n deu'tha ti, dwi yn credu bod ni'n styfnig o beidio gwneud pethau'n ddwyieithog, oherwydd dwi'n teimlo bydd o'n amharu ar y Gymraeg, ar yr iaith yn y diwedd. Wrth fod yn styfnig a deud, "Na, mae'r noson yma yn hollol Gymraeg, a 'da ni ddim yn mynd i ddechrau mynd i lawr y ffordd 'ma o neud hi'n ddwyieithog," oherwydd unwaith wyt ti'n dechrau neud pethau... 'Da ni 'di gweld yn y gorffennol, mae o'n tueddu i fynd yn Saesneg wedyn oherwydd mae o jyst yn haws. Heb y Gymraeg, fysa 'na ddim o'r diwylliant yma'n mynd 'mlaen. Fysa fo'n ddiwylliant hollol wahanol. Heb y Gymraeg, fysa gen ti ddim plygain. Ti'n gwybod be dwi'n feddwl? Fysa hi'n blygain od ofnadwy heb y Gymraeg. So mae'n rhaid ni gael y Gymraeg oherwydd mae o yn ddiwylliant hollol, hollol wahanol. Ydi, mi alli di gael bingo neu yrfa chwilod, sydd yn tueddu i fod yn ddwyieithog, ond mae 'na rhai pethau, dwi'n credu, maen nhw'n Gymraeg. Mae'r steddfod yn Gymraeg. Mae'r blygain yn Gymraeg. Ia, cyngherddau bach 'da ni'n cael, maen nhw'n Gymraeg. Cyf3*

*Ond y pinacl i ni fel CFfI Cymru yw'r eisteddfod yn Ffermwyr Ifanc. Nawr mae hwnna'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Mae 'da ni nawr pob sir yn cystadlu yn yr eisteddfod. Ac mae fe'n steddfod ddwyieithog. Ond be sy'n braf yw, mae 'na groeso i chi gystadlu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rhan fwya', maen nhw 'di cael eu neud trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond be sy'n dda yw bod ti'n cael falle siroedd neu aelodau sy'n draddodiadol bydde nhw byth yn mynd i steddfod, byddet ti byth yn gweld nhw yn Eisteddfod yr Urdd, a byddet ti byth yn gweld nhw yn Eisteddfod Genedlaethol, ond maen nhw'n dod i Eisteddfod Ffermwyr Ifanc, ac maen nhw'n cael blas o draddodiad a diwylliant Cymreig. A fi'n credu bod hwnna'n bwysig i hyrwyddo. Cyf12*

*So we have a hedge match every year because it's traditional and it's nice to do. But most of the people who come on that hedge match work in conservation or they're volunteers, very few farmers, and we're so we're saying "where are all the farmers?" Why? You know, how can we get farmers to sort of, you know, to do this because they used to? That's where the skills lay, you know. But the farmers haven't got the time, or you know, or because it is more time-consuming than running a tractor up the hedge. Cyf14A*

*O ran y traddodiad plygeiniol, mae'n debyg fod teuluoedd hefo carolau penodol oedden nhw'n tueddu i ganu. Erbyn hyn, mae o'n fwy bod pawb yn canu pob peth achos ers i bethau gael eu cyhoeddi 'wyrach a'u cofnodi. Ond mi fysa teuluoedd yn amddiffynnol iawn o'u carolau a ddim yn hapus o gwbl os fysa rhywun arall yn codi ac yn canu'r carol oedden nhw 'di bwriadu canu. Mae 'na hanesion o bobl yn mynd i'w bedd hefo'i llyfr plygain achos doedden nhw'm eisiau rhannu'r carolau plygain hefo teuluoedd eraill. Ond cyn ein hamser ni, yn amlwg. Cyf9*

*They're their carols. [...] Some families, you know, they've always sung those carols. Cyf16*

*Meddwl am rywbeth fel y cyrsiau sgiliau traddodiadol 'da ni 'di bod yn cynnig, mae'r galw ar gyfer y rheini 'di dod ledled Gogledd Cymru ac i mewn i Gaer. A 'da ni 'di gorfod blaenoriaethu'r bobl sydd yn byw ac yn gweithio yn yr ardal oherwydd ti eisiau gweld effaith y sgiliau yna ar dirwedd yr ardal hefo rhywbeth fel gosod crawiau ac yn y blaen, ac eisiau bod y contractwyr sydd yn gweithio yn yr ardal yn cael y sgiliau er mwyn medru gwneud y math yna o waith yn yr ardal. Felly o ran dilysrwydd y sgiliau a'r arferion, ia, mae'n siŵr bod nhw'n perthyn i'r bobl sydd yn byw yma, dydyn, ac yn gweithio yma. Cyf8*

### Amodau ffafriol ac anffafriol

*Ond rhywbeth sydd 'di neud gwahaniaeth mawr i mi ydi, yn ystod cyfnod y clo, o'n i'n neud lot o ymgyrchu am yr argyfwng tai, gweld be oedd yn digwydd ym mhentrefi fel Aberdyfi, pobl yn cael eu lluchio allan o gartrefi er mwyn newid nhw i Airbnbs a phethau fel'na. So nes i gyfarfod criw o bobl oedd yn teimlo'r un peth a dechrau ymgyrchu. Cyf7*

*Tai, mae'n amlwg yn yr ardal yma, mae gen ti ddau nai ac [enw] o'r ffarm, sy'n was o'r ffarm drws nesa, tri hogyn ifanc Cymraeg wedi gorfod prynu tai dros y ffin yn Lloegr achos bod nhw'm yn gallu fforddio tŷ yng Nghymru. Cyf9B*

*Dirywiad yr iaith yn yr ardal yma ydi pan mae ffermwyr yn marw neu'n symud i ffwrdd neu be bynnag, ac mae 'na bobl di-Gymraeg yn prynu nhw ac yn dod yma i fyw achos it's a nice place to retire. Ti 'di bod o gwmpas yn trio annog nhw i ddod i wersi Cymraeg. "Oh, no. We've moved here so we don't have to mix with people." 'Dyn nhw'm yn cyfrannu dim byd i'r gymuned leol wedyn. Cyf9B*

*Ac mae pobl ifanc yn symud o'ma beth bynnag. Does 'na'm gwaith iddyn nhw. Gen i dri o blant. Mae un ohonyn nhw'n gweithio yn [enw tref], ond dwi'n gwybod bod hi eisiau symud o'ma i fyw i ochrau [enw tref arall] at ei chariad. Mae gen i fab sydd newydd ddod adre ar ôl 12 mlynedd, ond 'di o'm yn gweithio yma. Mae o'n gweithio yn [enw tref mewn sir arall]. A dwi'm yn gwybod ydi o eisiau byw yma. Dwi ddim yn*

*gwybod. Ond ddeudodd o diwrnod o'r blaen, "Fydda i byth yn gallu fforddio prynu tŷ yma." Rhywbeth yn reit ddigalon, oes. Cyf3*

*Yr her arall falle fi'n gweld yw mae 'da ti bobl ifanc yn byw yma sydd yn eu hugeiniau nhw, sydd falle nawr, lot ohonyn nhw'n ffermwyr sydd ddim yn aelodau bellach ond maen nhw wedi bod yn aelodau, ond fi'n credu bod 'na lot o bobl ifanc, maen nhw'n gweithio yn rhywle arall yn y dydd, ac wedyn maen nhw'n mynd yn ôl i'r fferm yn y nos, so maen nhw'n gorfod ffeindio rhywle arall i gael incwm. Falle erbyn y nos, maen nhw [wedi blino], so 'dyn nhw ddim yn mynd yna'n hwyr. Cyf12*

*Fel o'n i'n deu'tha ti, y broblem fawr ydi mewnlifiad, yn bendant. A 'da ni'n colli pobl ifanc. A dydyn ni ddim yn unigryw. Dwi'n credu bod hynna'n digwydd ddim jyst yng Nghymru ond ym mhob ardal wledig drwy'r Deyrnas Unedig. Dwi yn bryderus, fel dwi'n deud, mewn deg mlynedd, mai rhyw gnewyllyn bach iawn o bobl fydd ar ôl i drio cynnal pethau. A lle wyt ti'n mynd i gael y gynulleidfa, yn arbennig i bethau Cymraeg? Cyf3*

*Dydi'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus jyst ddim yna. Dydyn ni ddim o fewn pellter cerdded hawdd i lot o bobl. Cyf8*

*Natur wledig y sir yn her, ti'n gwybod, pawb mor bell ar wahân. Ac mae hwnna'n gallu bod yn her ac yn fantais achos mae o hefyd yn golygu fod pobl ella yn fwy parod i deithio i bethau ac yn gweithio'n galetach i gynnal pethau ac i gefnogi pethau nag ella 'sa ti'n cael mewn tref. Cyf10*

*A 'da ni'n gwybod bod hwnna o dan... Dwi'm yn gwybod os mai bygythiad 'di'r gair. Mae'n siŵr bod 'na fygythiad. Ond does 'na neb 'di gorfodi ni i wylio teledu. Does 'na neb 'di gorfodi ni i gael ffonau symudol. Ond argaeledd profiadau adloniannol fel teledu ac yn y blaen, mae 'na lai o gyfleoedd wedyn falle i bobl deimlo bod nhw'n gorfod mynd i rywbeth sydd ar gael o ran diwylliant yn y gymuned. Cyf1*

*And then you've got sort of, you know, technological challenges as well, you know, sort of the influence of, you know, global media, you know, which is kind of like a massive steamroller across, you know, sort of other cultures, isn't it? It's one massive sort of global culture now, which is coming through. So those are the kind of things that you're kind of trying to push against a little bit. Well, a lot, to try and sort of retain some kind of local identity within this, these kind of massive global [influences]. Cyf14A*

*O ran yr ochr economaidd, mae'r elfen sgiliau traddodiadol 'ma mor bwysig. A 'da ni'n gweld yn gyffredinol bod 'na lai a llai o'r sgiliau 'na ar gael yn gyffredinol. 'Da ni 'di meddwl yn benodol yn ddiweddar am yr elfennau fatha adeiladwaith a'r ffisegol, mewn ffordd. Ond traddodiadau ydyn nhw 'de o ran toi traddodiadol, terfynau traddodiadol, yn waliau, yn plygu gwrych, yn grawiau. Ac wedyn pan 'da ni 'di bod yn cynnig y cyrsiau sgiliau, 'da ni 'di trio targedu cyflogwyr a chontractwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod y sgiliau yna yn dal i fod, wel, dim jyst yn bresennol ond yn byrlymu yn [yr ardal]. Ac ella yn eironig, bron ti eisiau commodification y rheini o ran bod pobl yn gweld pam bod nhw'n bwysig a bod 'na fuddsoddiad preifat, mewn ffordd, yn y sgiliau a bod perchnogion tai ac eiddo yn gweld, ia, mae cael terfyn traddodiadol neu do traddodiadol ar y tŷ traddodiadol yma yn hynod o bwysig. Am fod ni'n trio sicrhau bod 'na barch a bod 'na ddehongliadau gonest o'r arferion ac o'r nodweddion o dreftadaeth fyw, mewn ffordd. Cyf8*

*But we are guilty of putting it in the context for an English reader, rather than trying to instil the pride in the first language, first language first, which would naturally, you know, I think we always try and change it to ohh you know. This is Moel Fenlli. This is how you pronounce it. This is what it means. Cyf14C*

*So erstalwm oedd gennyn ni gynllun [enw], so sut wyt ti'n neud lle'n braf i bobl ddod i ymweld ag o. So 'da ni 'di troi hwnna ar ei ben. Dim dyna ydi ein hamcan ni dim mwy. So 'da ni'n rhoi pobl [y sir] yn y canol rŵan. So sut 'da ni'n neud [y sir] yn le da i bobl fyw ynddo fo. Wedyn yn sgil hynny, os 'di pobl eisiau*

*ymweld, grêt. Bydd o'n le da i bawb. So mae ein blaenoriaeth ni 'di newid lot yn hynny o beth. Ac mae'r elfen ddiwylliannol yn rhan bwysig o hynny. So sut 'da ni'n creu bwrlwm diwylliannol cymunedol trwy ddigwyddiadau sydd yn creu balchder a bwrlwm i bobl leol ond hefyd sydd ar agor i ymwelwyr. So mae'r rheina'n feysydd 'da ni'n rili edrych arno fo ar hyn o bryd. Cyf13*

*A nhw'n cyfrannu'n ôl atoch chi. Mae o'n cyfoethogi bywyd gymaint mwy, a 'da chi'n cael blas ar wledydd eraill cymaint yn well wrth neud 'da'r bobl leol ac yn y blaen. A 'da chi'n croesawu pobl sy'n dod o le bynnag yn y byd fel bod nhw'n rhoi cyngerdd ymlaen yn eich pentre lleol. Mae o gymaint mwy diddorol na jyst gwatsiad pobl yn gwibio heibio mewn ceir ac yn blocio'r ffyrdd ac yn y blaen. Cyf9A*

*Mae'r criw sy'n arwain yn ifanc ac yn frwdfrydig a jyst yn ddelwedd gyffrous yma i ddawnsio. Ond wedyn 'da ni'n mynd â nhw rownd Cymru a thu hwnt. 'Da ni bod â nhw i Lorient ac i'r Swistir. A blwyddyn yma, 'da ni 'di cael grant i fynd â nhw i Golombia i gymryd rhan mewn gŵyl ddawnsio yn fanna. Ac mae'r cyfle yna i fynd dramor a dysgu am ddiwylliannau a rhannu diwylliant gwahanol yn atgyfnerthu dy werthfawrogiad di o dy ddiwylliant dy hun trwy ddysgu am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. Mae hwnna i gyd yn rhan o'r broses. Cyf10*

Ysgrifennwyd gan Elen Bonner, Eifiona Thomas Lane, Seán Martin, a Rhys Jones

Elen Bonner, Prifysgol Bangor, elen.bonner@bangor.ac.uk

Eifiona Thomas Lane, Prifysgol Bangor, eifiona.thomaslane@bangor.ac.uk

Seán Martin (Prifysgol Bangor), hiu8f0@bangor.ac.uk

Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth), raj@aber.ac.uk

Yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gan Elen Bonner, Eifiona Thomas Lane, Seán Martin, a Rhys Jones

Mai 2026

**Cymru Wledig LPIP Rural Wales**

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, SY23 3DB

www.lpip.cymru

lpip@aber.ac.uk

Ariennir Cymru Wledig LPIP Rural Wales – Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig – gan Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI) i wella a hwyluso'r defnydd o ymchwil ac arloesi er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio polisïau a chyflawni ar gyfer datblygu cynhwysol a chynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru.

© Yr awduron, 2026

Gellir ailddefnyddio'r deunydd yn yr adroddiad hwn gyda phriodoli at ddibenion anfasnachol o dan drwydded CC BY-NC.

CYMRU WLEDIG

LPIP

RURAL WALES

www.lpip.cymru

lpip@aber.ac.uk

**Ariennir gan**

Economic and Social Research Council

Arts and Humanities Research Council

Innovate UK

**Cynhelir gan**

WISERD

**Partneriaid craidd**

Aberystwyth University · Bangor University · Cardiff University · CCRI · TfC · Centre for Alternative Technology · SGEMA · Antur Cymru